

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 17eg Medi, 2019
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH
PWYNT CYSWLLT	Annes Siôn 01286 679490 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Amgylchedd
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Catrin Wager	Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol
Cemlyn Rees Williams	Aelod Cabinet Addysg

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYFARFODYDD A GYNHALIWDYD AR 16 AR 23 GORFFENAF 2019			3 - 22
6	ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFLOGAETH	Cyng Nia Jeffreys	Geraint Owen	23 - 34
7	YSGOL ABERSOCH	Cyng Cemlyn Williams	Gwern ap Rhisiart	35 - 38
8	ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU AR ORFODAETH GWASTRAFF	Cyng. Catrin Wager	Steffan Jones	39 - 111
9	TROSOLWG ARBEDION 2019/20: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION	Cyng. Ioan Thomas	Dafydd Edwards	112 - 121
10	CYTUNDEB CYLLIDEB GYFUN AR GYFER LLETY CARTREFI GOFAL I BOBL HYN 2019-20	Cyng. Ioan Thomas a Cyng. Dafydd Meurig	Morwena Edwards a Dafydd Edwards	122 - 143
11	ADOLYGIAD RHEOLAETHOL		Dilwyn Williams	144 - 145

Y CABINET DYDD MAWRTH, 16 GORFFENNAF 2019

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Catrin Wager

Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), ac Annes Sion (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Eitem 6: Catherine Roberts (Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn)

Eitem 7: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg) a Bethan Griffith (Rheolwr Gwasanaethau Ategol Addysg)

Eitem 8: Sioned Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned) a Anwen Davies (Rheolwr Rhaglen Datblygu Gwynedd Wledig)

Eitem 9: Arwel Wyn Owen (Pennaeth Cynorthwyol Tai a Llesiant)

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. Cemlyn Williams a Cyng. Dilwyn Morgan.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Eitem 7 – Pris Cinio ysgol Cynradd 2019/20

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorwyr - Dyfrig Siencyn, Craig ab Iago, Nia Jeffreys, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Catrin Wager gan fod ganddynt blant neu wyrion yn derbyn cinio ysgol mewn ysgolion cynradd. Ynghyd a'r Swyddogion - Garem Jackson a Bethan Griffith gan fod ganddynt blant yn derbyn cinio mewn ysgolion cynradd. Nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu felly roedd modd iddynt fod yn rhan o'r drafodaeth.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 25 MEHEFIN 2019

Tynnwyd sylw at gywiriad yn y rhestr presenoldeb a chytunwyd ei addasu.

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar y 25 Mehefin 2019 fel rhai cywir.

6. GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS BANGOR

Cyflwynwyd gan Cyng. Nia Jeffreys

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd

1. Cymeradwyo ymgymryd â'r broses o ystyried cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) newydd ar gyfer ardal benodol yn Ninas Bangor, yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig drafft a atodwyd yn atodiad 1, ac i ddiddymu GORCHYMYN YFED ALCOHOL MEWN MANNAU CYHOEDDUS DYNODEDIG AR GYFER ARDALOEDD BANGOR A CHAERNARFON 2004 CYNGOR GWYNEDD (Gorchymyn Cyfredol) i'r graddau y mae'n berthnasol i Fangor
2. Awdurdodi Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol i ymgymryd â phroses ymgynghori am gyfnod o 28 diwrnod, gan ddychwelyd i'r Cabinet am benderfyniad ynghylch a ddylid cyflwyno GDMC ym Mangor, yn ogystal ag unrhyw ddirprwyaeth gysylltiol, a diddymu'r Gorchymyn Cyfredol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan fynegi fod Bangor yn ddinas amlddiwylliannol gyda naws Gymreig. Ychwanegwyd fod llawer o ddatblygiadau yn digwydd o fewn y ddinas gyda llawer o dai gwag bellach yn ôl mewn defnydd.

Esboniwyd fod gorchymyn eisoes yn bodoli ym Mangor sydd yn gosod pwerau gorfodol i'r Heddlu. Ychwanegwyd fod yr Heddlu wedi awgrymu nad yw'r Gorchymyn presennol yn rhoi grymoedd digonol iddynt a chyflwynwyd tystiolaeth yn mynegi hyn. Pwysleisiwyd mai'r Cyngor sydd gan yr hawl greu gorchymyn ac yn dilyn trafodaethau gyda'r Heddlu a chael barn gyfreithiol fod y Cyngor yn awyddus i fwrw ymlaen gyda'r broses o greu Gorchymyn newydd. Ategwyd mai'r cam nesaf fydd i gynnal ymgynghoriaeth cyhoeddus ar y mater cyn dod yn ôl i'r Cabinet i wneud penderfyniad llawn.

Ychwanegodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn dilyn trafodaethau am dros 6 mis gyda'r Heddlu fod y Cyngor yn ystyried fod pedwar o'r chwe chyfyngiad a amlinellwyd gan yr Heddlu yn addas i'w cynnwys yn y Gorchymyn Arfaethedig. Mynegwyd mai prif reswm dros greu'r Gorchymyn newydd oedd effaith ar fywyd trigolion sydd yn byw yn yr ardaloedd.

Mynegwyd fod yr Heddlu bellach a phrofiad o ddefnyddio gwahanol fodelau gorfodaeth ar draws y rhanbarth, ac felly yn ffafrio model gwahanol i'r model cosb benodedig. Ategwyd y bydd y drefn hon yn cael ei fonitro yn ofalus ac yn sicrhau fod yr awyrgylch yn gwella i'r unigolion a'r trigolion. Nodwyd fod yr amodau sydd wedi ei hychwanegu yn rhesymol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Gofynnwyd am gadarnhad 'na fydd y Gorchymyn yn cael ei ddefnyddio i ddelio a symud pobl ddigartref. Mynegwyd fod hyn yn un o'r chwe amod a gyflwynwyd gan yr Heddlu a bod y Cyngor wedi ei wrthod. Mynegwyd fod gwaith angen ei wneud i gynorthwyo pobol ddigartref a nodwyd fod hyfforddiant yn cael ei wneud gyda heddweision ar hyn o bryd i ddarparu cefnogaeth.
- Tynnwyd sylw at y map o droseddau yn ardaloedd Bangor gan nodi fod clwstwr uchel o droseddau ym Maesgeirchen - nodwyd fod cynlluniau arbennig gan yr Heddlu yn yr ardal yma i leihau trosedd.

7. PRIS CINIO YSGOLION CYNRADD 2019/20

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Garem Jackson

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd i beidio a chodi targed incwm cinio ysgolion cynradd yn unol a chwyddiant sydd yn golygu na fydd pris cinio ysgolion cynradd yn codi ym Medi 2019.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi o ganlyniad i gynnydd mewn chwyddiant mae angen codi pris cinio ysgol mewn ysgolion cynradd 4.1% er mwyn cyrraedd y targed incwm. Ychwanegwyd drwy beidio codi'r pris bydd diffyg yn y gyllideb o £82,220.

Nodwyd o'u gymharu â siroedd eraill mae Gwynedd yn o'r rhai sy'n codi'r pris uchaf. Amlinellwyd yn dilyn codi pris cinio ysgol ym Medi 2017 fod canran o blant sydd yn cael cinio ysgol wedi lleihau o 50% i 46%. Mynegwyd os ganlyniad i hyn nid yw'r adran yn awyddus i godi'r pris eto.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at ystadegau a gyhoeddwyd gan elusen 'Save the Children' a nodwyd fod tlodi ymhlith plant yn codi, ac yn benodol i deuluoedd sydd yn gweithio ar incwm isel, o ganlyniad i hyn pwysleisiwyd y dylid cadw prisiau yn is.
- Holwyd os na fyddai'r pris yn codi sut fydd modd cyfarch y bwlch ariannol. Nodwyd fod cyllideb wrth gefn gan y Cyngor i sefyllfaoedd annisgwyl ac felly ni fydd yn broblem a bydd modd ei adeiladu i'r gyllideb ar gyfer blwyddyn nesaf. Ychwanegwyd fod y cynllun yma yn gynllun i ddod o hyd i arbedion ac felly bydd disgwyliad i'r adran ddod o hyd i gynllun amgen er

mwyn dod o hyd i'r arbediad.

- Nodwyd pryder am leihad yn y niferoedd yn dilyn codi'r prisiau ond nodwyd ei bod yn dda bod y pris yn cadw'r un peth.

8. CRONFA ARLOESI ARFOR

Cyflwynwyd gan Cyng. Gareth Thomas

PENDERFYNIAD

Gan fod Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel corff arweiniol i Raglen Arfor gan dargedau adnoddau Cronfa Arloesi Arfor Llywodraeth Cymru ar ran Cyngorau Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gar penderfynwyd fod:

- I. Y Cabinet yn cefnogi pecyn o brosiectau Rhaglen Arfor Gwynedd ac yn dirprwyo'r penderfyniad i gymeradwyo ceisiadau ar gyfer gwariant yng Ngwynedd i Bennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid
- II. Y Cabinet yn awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i gytuno i gwblhau cytundeb rhwng awdurdod priodol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn gynllun cyffroes a fydd, gobeithio, yn profi gallu siroedd y Gorllewin fod modd gwneud gwaith economaidd ar y cyd.

Ychwanegodd y Pennaeth Economi a Chymuned fod Cyngor Gwynedd wedi cytuno i fod yn awdurdod arweiniol ar y cynllun a bydd £2 filiwn o gyllideb ar gael i'r cynllun dros gyfnod o ddwy flynedd. Ychwanegwyd fod prosiectau wedi cael ei blaenoriaethu ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig yng Ngwynedd i ddatblygu'r economi ac yn ei dro cynnal yr iaith. Mynegwyd fod y cyfnod yn un tymor byr ac felly nid yw'n glir beth fydd y gwahaniaeth tymor hir. Pwysleisiwyd gan fod y cynlluniau yn rhai arloesol y bydd y pedair sir yn cymharu effaith y cynlluniau ac efallai y bydd modd chwilio am arian ychwanegol i ddatblygu ymhellach.

Amlinellwyd fod y gronfa yn un arloesi ac felly bydd yn gyfle i Wynedd a'r bartneriaeth i geisio cynlluniau gwahanol a newydd. Nodwyd fod y cyfle i Wynedd fod yn gorff arweiniol yn dangos y clod i ymrwymiad, rheolaeth ariannol a'r defnydd o iaith sydd gan y Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod y cynllun hwn yn un cyffroes, ond holwyd os bydd modd i fentrau cymdeithasol ymgeisio am arian i fentro. Nodwyd fod modd ymgeisio ond fod cyllideb yn un bach ar felly bydd angen asesu pob cais gan mai dim ond digon i ryw 3 menter sydd yno.
- Pwysleisiwyd ei bod yn hen bryd i gynlluniau gael ei greu ar draws Gorllewin Cymru, er nad oes arian mawr, cynlluniau cyffroes.
- Nodwyd fod y gyllideb yn fach iawn ac y bydd yn bwysig ei ddefnyddio yn ofalus gan sicrhau fod effaith yr ymyrraeth yn cael ei fesur yn glir.

9. STRATEGAETH TAI 2020-21

Cyflwynwyd gan Cyng. Craig ab Iago

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r Strategaeth Tai i'w hargymell i'r Cyngor Llawn i'w mabwysiadu.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r angen i'r Cabinet cymeradwyo'r Strategaeth Dai er mwyn ei hargymell i'r Cyngor Llawn i'w fabwysiadu. Mynegwyd fod y strategaeth yn amlinellu'r newid sydd yn digwydd yn y maes gyda datblygiad Adran Tai ac Eiddo. Pwysleisiwyd y bydd y cyfnod nesaf sydd ar droed yn un cyffroes ym maes Tai.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod y maes yma un maes sydd yn cael ei flaenoriaethu gan y Cabinet a bod hwn yn un cam ar y daith.

10. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ECONOMI A CHYMUNED

Cyflwynwyd gan Cyng. Gareth Thomas

PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan dynnu sylw at un neu ddau o brosiectau. Tynnwyd sylw at Weledigaeth Twf Gogledd Cymru gan nodi fod Cyng. Dyfrig Siencyn yn gadeirydd bellach ar y Bwrdd Uchelgais.

Nodwyd fod gwaith yn cael ei wneud ar ddatblygu'r cynllun Creu Swyddi Gwerth Uchel. Mynegwyd fod cystadlaethau wedi ei gynnal yng Nghanolfan Awyrfod Eryri, fel rhan o Gystadleuaeth Ryngwladol Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol. Bu i ddisgyblion cynradd ac uwchradd lleol gael y cyfle i weld cystadleuwyr ac adeiladu a hedfan llongau awyr ac awyrennau model. Tynnwyd sylw at Raglen Arloesi Gwynedd Wledig gan fynegi fod gwaith cyffroes yn cael ei gynnal fel rhan o dreialon Leader. Pwysleisiwyd y cynllun rhyfeddol ac arloesol sydd i'w gweld ar Ffarm Coleg Glynllifon.

Mynegwyd fod y Cyngor wedi cytuno ar amserlen gyda DCMS ar gyfer cyflwyno enwebiad Llechi Gwynedd i UNESCO ym mis Tachwedd a bydd yn dod i'r

Cabinet ym mis Hydref.

Nodwyd wrth edrych ar arbedion yr adran fod 5 o gynlluniau 2019/20 wedi ei gwireddu neu ar drac i wireddu yn amserol ac amlinellwyd y cynlluniau arbedion.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod llawer o gwmnïau yn ei chael yn anodd penodi staff Cymraeg a rhain a chyflogau uchel. Pwysleisiwyd fod angen codi ymwybyddiaeth a sylw pobl ifanc o'r cyfleoedd sydd ar gael yng Ngwynedd.

11. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GYLLID

Cyflwynwyd gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

Nodi a derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan dynnu sylw at rai cynlluniau o fewn yr adran Gyllid. Mynegwyd fod y gwaith o ledaenu defnydd o system reoli dogfennau a chofnodi electronig yn agosáu at gyrraedd ei derfyn. Bellach dim ond 5 tîm sydd ar ôl o holl wasanaethau'r Cyngor yn aros i fudo i'r system newydd.

Mynegwyd fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi codi eu hincwm a hyn ar ddechrau 2019/20 drwy ganolbwyntio eu hadnoddau gyflawni archwiliad o gyfrifon cyngorau cymuned a thre. Amlinellwyd fod camgymeriad dynol wedi ei wneud ym mis Mawrth yn y Gwasanaeth Cyflogau a arweiniodd at Gymorthfeydd Dosbarth yn colli £30 o'u cyflogau. Bellach, nodwyd fod y cyflogau wedi ei gosod i'w lefel gywir.

O ran Technoleg Gwybodaeth mynegwyd fod cael achosion o golli gwasanaeth wedi sicrhau fod y Gwasanaeth wedi uwchraddio eu canolfannau data er mwyn cryfhau gwydnwch y gwasanaeth. Nodwyd y bydd y ddwy ganolfan ddata yn gallu adfer gwasanaethau bron yn syth.

Diolchwyd i staff am gau cyfrifon er bod pwysau ychwanegol gyda chau cyfrifon Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ogystal. Pwysleisiwyd yn ogystal fod arbedion yr adran wedi eu cwblhau am 2019/20.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at berfformiad y Gwasanaeth Trethi gan nodi fod nifer uchel o ymholiadau wedi ei derbyn o ganlyniad i godi premiwm treth ar dai gwag ac ail gartrefi. Er hyn nodwyd y bydd hunanwasanaeth yn cael ei gynnig i drethdalwyr cyn hir, ac o ganlyniad bydd modd gwneud rhai ymholiadau ac addasiadau syml ar y we, fydd yn lleihau'r nifer galwadau.
- Mynegwyd gwerthfawrogiad fod y Gwasanaeth Budd-daliadau wedi lleihau'r nifer dyddiau a gymerwyd i brosesu cais budd-dal newydd, ond

holwyd ble mae'r Cyngor o'i gymharu â siroedd eraill. Nodwyd ar hyn o bryd yn y canol, ond mae'r Gwasanaeth yn ceisio parhau i wella.

12. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS AMGYLCHEDD

Cyflwynwyd gan Cyng. Gareth Griffith

PENDERFYNIAD

Nodi a derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod wedi bod yn gyfnod prysur i'r adran. Tynnwyd sylw at yr uchafbwyntiau. Un o'r rhain oedd Sesiwn Codi Ymwybyddiaeth o Dwylo. Mynegwyd fod yn rhannu gwybodaeth ag unigolion ar sut i beidio cael eu twyllo a bu i ran ohono gael ei darlledu ar 'Byd ar Bedwar'.

Nodwyd fod sesiwn 'Gofalu am ein Hamgylchedd' wedi ei gynnal gyda'r Cyngorwyr a oedd yn llwyddiannus. Yn y dyfodol, nododd yr Aelod Cabinet y bydd yn mynd gyda'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyngor i weld eu harolygiadau hylendid bwyd ac yn mynychu'r cyfarfodydd trwyddedu. Ychwanegwyd fod yr adroddiad yn un cyflawn sydd yn cronni cyfnod prysur a diddorol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Trafodwyd y graffiau sydd i'w gweld gan nodi fod rhai o'r graffiau heb ddata. Nodwyd fod y graff dan sylw, fod y nifer o ymweliadau yn cael ei bennu gan ar ASB ac nad ydynt wedi cadarnhau niferoedd ar gyfer y flwyddyn eto. Mynegwyd fod angen edrych ar y graffiau a sicrhau eu bod yn cyfleu beth mae'r adran yn awyddus iddynt eu gwneud.

13. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC YMGYNGHORIAETH GWYNEDD

Cyflwynwyd gan Cyng. Catrin Wager

PENDERFYNIAD

Nodi a derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi o ran yr Adran Briffyrdd fod cynlluniau amgylcheddol yn mynd yn hynod dda, gyda chynllun newid y goleuadau stryd i dechnoleg LED yn parhau, a fydd yn lleihau ynni ac atal llygredd goleuo. Mynegwyd fod lleihad yn y caran y gwastraff trefol a anfonir i dirlenwi wedi

gostwng o 38% i 19%. Amlygwyd fod newidiadau i'r drefn o gasglu gwastraff, bydd yn weithredol yn Nwyfor ar 1 Gorffennaf ac yna yn Arfon cyn diwedd y flwyddyn.

Wrth edrych ar ailgylchu mae'r canran yn parhau yn sefydlog ar 63% gyda'r targed erbyn Mawrth 2020 yn 64%. Pwysleisiwyd fod Cyngor yn gyngor sydd yn ailgylchu yn gyfrifol ac o fewn Prydain.

O ran arbedion yr adran Briffyrdd, nodwyd fod y Cynlluniau Cau Toiledau Cyhoeddus y Sir yn llithro gyda'r Gwasanaeth yn edrych ar gynllun amgen i wireddu gweddill yr arbedion. Er hyn mynegwyd fod cynllun Gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng y Sir i foderneiddio i system ddigidol yn tanwario ac o ganlyniad bydd modd ei ddefnyddio i gyfarch y gwahaniaeth.

O ran cynlluniau arbedion yr adran Briffyrdd nodwyd ei bod wedi eu gwireddu neu ar drac. Ond codwyd pryder am gynllun i godi incwm gorfodaeth stryd, ond bydd angen rhoi sylw pellach a thrafodaeth ar sut i fesur glendid y strydoedd.

O ran Ymgynghriaeth Gwynedd mynegwyd fod arbedion yr adran ar darged. Er bod targedi incwm yn dangos diffyg, mynegwyd fod hyn yn arferol iawn i'r adran yn ystod chwarter 1. Nodwyd fod yr Aelod yn hapus a gwasanaeth y Rheolaeth Adeiladu, a bod yr adborth yn dangos bodlonrwydd cwsmer.

14. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Cyflwynwyd gan Cyng. Dafydd Meurig

PENDERFYNIAD

Nodi a derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod am amlygu rhai cynlluniau. Nododd fod y Prosiect i Ail Ddylunio Gwasanaethau Gofal yn parhau ac y bydd yn cael ei drafod ymhellach yn y Cabinet wythnos nesaf. Ychwanegwyd ei fod wedi ymweld â Gwasanaeth Anableddau Dysgu a'i fod wedi cael agoriad llygad i'r gwaith arwrol sydd yn cael ei wneud yn y maes.

Nodwyd fod angen edrych ar fesuryddion sydd yn ymwneud a 'Beth Sydd yn Bwysig' i'r unigolyn gan ei fod yn amrywio o gleient i gleiant ac yn amhosib ei fesur. Mynegwyd fod un broblem o fesur effaith wedi codi a Dementia Go, gan ychwanegu efallai fod angen i ni anghofio am y rhifau o fewn perfformiad a chanolbwyntio a rhoi hyder mewn staff eu bod yn gweithio yn galed ac yn gwneud y mwyaf i unigolion.

Yn ariannol, mynegwyd ei bod yn gyfnod heriol ac mae rhagamcanion yn nodi

risg o orwario sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol os na fydd arbedion yn cael ei gwireddu. Mynegwyd fod yr adran yn ymgeisio i ddelio gyda hyn.

15. BLAEN RAGLEN Y CABINET

Cyflwynwyd gan Cyng. Dyfrig Siencyn

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r Blaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

TRAFODAETH

Yn unol ag Adran 14.13 o Gyfansoddiad y Cyngor, bydd y Cabinet yn rhannu ei Flaen Raglen waith am y cyfnod dilynol o chwe mis gyda'r cyhoedd. Bydd y Blaen Raglen yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.40 y.h.

CADEIRYDD

Y CABINET DYDD MAWRTH, 23 GORFFENNAF 2019

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Gareth Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Rees Williams

Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol,) ac Annes Sion (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Eitem 5: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol), Meinir Griffith (Swyddog Gwella Gwasanaeth), Carey Cartwright (Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad), Mannon Trappe (Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl) Aled Gibbard (Uwch Reolwr Gweithredol – Adnoddau Gofal, Plant a Chefnogi Teuluoedd) a Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr)

Eitem 6 a 7: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol) ac Arwel Evans (Rheolwr Caffael)

Eitem 9: Meilys Smith (Uwch Reolwr Trawsnewid, Oedolion, Iechyd a Llesiant)

Eitem 10: Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd) a Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd)

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. Ioan Thomas a Cyng. Dilwyn Morgan.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DREFNIADAU CWYNIION A GWELLA GWASANAETH Y CYNGOR

Cyflwynwyd gan Cyng. Nia Jeffreys

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn crynhoi data ar gyfer cyfnod rhwng 2017 a 2019. Ychwanegwyd ei bod yn bwysig i ymateb i gwynion i sicrhau fod gwasanaethau yn gwella. Mynegwyd fod yr adroddiad yn nodi'r camau'r drefn cwynion ac yn dangos lle i ddatblygu.

Ychwanegodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, fod llawer o wybodaeth am gwynion dros y ddwy flynedd diwethaf i'w gweld yn yr adroddiad. Ategwyd fod dysgu o gamgymeriadau a gwella gwasanaeth yn rhan anatod o Ffordd Gwynedd. Mynegwyd fod tri rhan i'r adroddiad gyda Chwynion Corfforaethol, Gwynion Gwasanaeth Plant a Chwynion Gwasanaeth Oedolion.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod yr adroddiad yn un ffeithiol sydd yn nodi'r angen i'r Cyngor ddysgu o'r cwynion a deilio a hwy mewn ffordd gadarnhaol. Mynegwyd mai'r un peth sydd yn cael ei amlygu fel y cwyn cyffredin yw'r angen i roi gwybodaeth ar amser, ac o ganlyniad i hyn fod angen i'r Cyngor felly edrych ar wella ymgysylltu a'r trigolion.
- Mynegwyd fod sylw wedi ei nodi yn y Cyngor Llawn diwethaf am rôl yr Ombwdsman. Ychwanegwyd fod dwy ran i waith yr Ombwdsman y cyntaf yn gwynion am wasanethau gan gyrrff cyhoeddus, gan fynegi fod y gwaith yma yn cael ei wneud yn gyson, ac yr ail yw Cod Ymddygiad Cynghorwyr. Ategwyd fod yr elfen gwynion yn ymwneud a gwasanaethau Cynghorau a chyrrff eraill megis lechyd yn cael ei flaenoriaethu ganddo ac o ganlyniad fod trothwy budd cyhoeddus uwch ar yr elfen Cod Ymddygiad Cynghorwyr. Pwysleisiwyd fod Cynghorwyr yn arwyddo'r Cod Ymddygiad, a'u bod yn gyfrifol am gadw at yr egwyddorion sydd i'w gweld yno beth bynnag. Tynnwyd sylw at bryderon o achosion y fwlio merched mewn Cynghorau Cymuned, a nodwyd fod arweiniad ar y prawf budd cyhoeddus yn amlygu bwlio fel ffactor o blaid ymchwilio. Roedd yr Ombwdsman yn ymwybodol o hyn a bod trafodaeth ar lefel genedlaethol ar y mater.
- Nodwyd fod angen edrych ar gwynion fel taith, drwy newid yn niwylliant y Cyngor bydd modd gwella gwasanaeth. Mynegwyd o ran ffigyrau'r achosion sydd yn mynd i'r Ombwdsman mai dim ond 2 o'r 32 oedd angen adroddiad, ychwanegwyd fod hyn yn dangos fod y drefn cwynion yn gweithio yn dda.

6. CYNLLUN FFORDD GWYNEDD 2019-22

Cyflwynwyd gan Cyng. Nia Jeffreys

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y Cynllun a'r rhaglen waith ar gyfer 2019-22.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cabinet yn gwbl ymroddedig i Ffordd Gwynedd. Nodwyd fod y Cabinet wedi mabwysiadu Cynllun Ffordd Gwynedd gwreiddiol yn ôl yn Hydref 2015, ac esboniwyd fod Ffordd Gwynedd yn ffordd o weithio y mae'r Cyngor wedi'i fabwysiadu. Ategwyd fod newid diwylliant, ymddygiadau a meddylfryd wrth wraidd hyn oll, ac ychwanegwyd fod y penderfyniad hwn yn mynd i roi cyfeiriad pellach i'r Cynllun a'r ffordd ymlaen.

Ychwanegodd Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol fod hyfforddiant Ffordd Gwynedd wedi ei gynnal a bod brwdfrydedd i wella gwasanaeth i'w weld yn amlwg iawn. Mynegwyd fod gwaith i'w wneud ar gynllun adrannau ar sut i raeadrau'r meddylfryd i bawb, a bod rhaglen waith wedi ei amlinellu yn yr adroddiad.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod ail sefydlu rhwydwaith rheolwyr yn holl bwysig i sicrhau trafodaeth o ran ffordd Gwynedd. Mynegwyd wrth edrych ar daith Ffordd Gwynedd, er bod y Cyngor wedi cymryd camau breision fod y datblygiad yn amrywio o adran i adran ond fod adlewyrchu parhaus. Ategwyd fod llawer o waith yn parhau i'w wneud ond y bydd y Strategaeth yn symud y Cyngor yn nes at ddiwedd y daith.
- Pwysleisiwyd fod datblygu arweinyddiaeth yn gwbl wreiddiol i Ffordd Gwynedd a bod angen sefydlu diwylliant ble mae rheolwyr yn arwain eu staff ac nid yn rheoli pobl.
- Mynegwyd mae is-bennawd Ffordd Gwynedd yw sicrhau fod Pobl Gwynedd yn ganolog i'r hyn mae'r Cyngor yn ei wneud. Ychwanegwyd ei bod yn amhosibl gwneud popeth mae pobl unigolyn yn awyddus i'r Cyngor ei wneud ac o ganlyniad mae angen blaenoriaethu.
- Nodwyd fod modd gweld y daith Ffordd Gwynedd mewn adrannau, ac ychwanegwyd fod perfformiad weithiau yn disgyn cyn codi.

7. POLISI CAFFAEL CYNALADWY AC YMGYRCH I WAHARDD DEFNYDD O BLASTIG UNTRO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Nia Jeffreys

PENDERFYNIAD

1. Cymeradwywyd i ymgorffori darpariaethau Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ym Mholisi Caffael Cynaliadwy'r Cyngor.
2. Cymeradwyo'r ymgyrch i gesio gwahardd pryniant a defnydd o blastig untro. ac i fabwysiadu'r newidiadau yn y Polisi Caffael Cynaliadwy i gyfarch yr ymgyrch yma

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi drwy fod yn rhagweithiol fod yr gwasanaeth yn gallu ymateb i'r her gyfoes sef i leihau drefnydd o blasdig untro. Drwy fod yn rhagweithiol, ychwanegwyd, y bydd modd mynd i'r afael ar broblem.

Ychwanegodd y Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol fod y gwasanaeth yn gofyn i'r Cabinet cytuno i ddau beth, y cyntaf i gymeradwyo i ymgorffori'r Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol y Polisi Caffael Cynladwy, ac yr ail i gymeradwyo'r ymgyrh i geisio gwahardd pryniant a defynydd o blasting untro ac i fabwysiau'r newidadau yn y polis ii gyfarch yr ymgyrch yma.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i'r adran am ddod ar eitem yn dilyn y rhybudd o gynnig yn y Cyngor Llawn ym Mawrth 2018, ychwanegwyd pwysigrwydd fod y gwaith yn cael ei wenu ar y cyd drwy grwp tasg trawsadranol.
- Croesawyd yr adroddiad gan nodi fod plastigion a effaith mawr iawn ar y byd.
- Nodwyd fod y Cyngor wedi cyhoeddi ei bod yn argyfwng hinsawdd ac fod yr adrannau yn ceisio dod o hyd i ffordd o gael gwared o plastig un-tro yn drawsadranol ar hyd y Cyngor gan ei bod yn gyfrifoldeb ar bob adran.

8. LLYTHYR BLYNYDDOL AROLYGAETH GOFAL CYMRU AR WASANAETHAU CYMDEITHASOL GWYNEDD

Cyflwynwyd gan Cyng. Dafydd Meurig

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod yn ofynnol i'r Cyngor i gyhoeddi'r llythyr yn unol â chod ymarfer Arolygaeth Gofal Cymru. Mynegwyd fod cynnwys y llythyr yn darparu adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gan Arolygaeth Gofal Cymru yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag adrodd ar y cynnydd ac mae'r Cyngor wedi ei wneud ac amlinellu'r blaen raglen waith. Ychwanegwyd fod cynnwys y llythyr yn lled ganmol y Cyngor ac i'w groesawu.

Mynegwyd fod y llythyr yn nodi'r ble mae'r Cyngor yn llwyddiannus a chydabuwyd fod yr Adran Oedolion mewn cyfnod o drawsffurfio. Atebwyd fod y gweithlu yn sefydlog yn y Cyngor a bod arweinyddiaeth a llywodraeth gref i'w gweld.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros ofal fod y cyfnod cyn derbyn y llythyr yn gyfnod pryderus ond mynegwyd balchder yn dilyn ei ddarllen. Ychwanegodd fod y penaethiaid, staff a gofalywr i'w diolch am y gwaith i sicrhau hyn. Mynegwyd fod gweithlu hyderus a sefydlog sydd i'w gweld yng Ngwynedd yn sefyllfa sydd ddim i'w gweld yn nifer o siroedd eraill.

Pwysleisiwyd fod yr arolygaeth yn gweld fod taith trawsffurfio, ond ei fod yn gwreiddio egwyddorion Ffordd Gwynedd yn unol â'r deddfau. Tynnwyd sylw at heriau a oedd yn cynnwys cadw golwg ar y maes diogelu ynghyd a'r cynnydd cyson o heriau yn y maes plant.

Diolchwyd am gefnogaeth yr holl aelodau i waith gofal y Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i staff am eu gwaith da.

9. MODEL GOFAL CARTREF NEWYDD I WYNEDD

Cyflwynwyd gan Cyng. Dafydd Meurig

PENDERFYNIAD

- Cytunwyd i sefydlu model newydd o ddarparu a chomisiynu gofal cartref ar sail ardaloedd, gan gyd-gomisiynu a'r Bwrdd Iechyd.
- Cymeradwywyd gweithredu ar sail yr opsiwn a ffafrir sef cynnal marchnad gymysg gan dendro mewn modd sy'n debygol o arwain at wireddu amcanion yr adran.
- Gofyn i'r Adran Oedolion adolygu'r model ariannol er mwyn sicrhau nad yw'n amharu ar eu gallu i gyflawni eu harbedion gan adrodd yn ôl os oes unrhyw berygl i hynny.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad gan bwysleisio mai'r rheswm dros fod angen y model newydd yw symud oddi wrth yr arfer o ariannu fesul pecyn neu unigolyn ac i greu darpariaeth hyblyg ar draws ardaloedd. Ategwyd mai'r opsiwn sydd yn cael ei ffafrio yw cynnal rhaniad mewnol : allanol y farchnad. Nodwyd fod risgiau ariannol a chyfreithiol wedi ei amlygu yn ystod y cyfnod trafod ond fod trefniadau yn eu lle.

Mynegwyd fod amryw beilot wedi ei gynnal mewn lleoliadau daearyddol amrywiol ar draws y sir. Mynegwyd fod y rhain wedi dangos esiamplau cryf o ofal hyblyg a bod y defnyddiwr gwasanaeth yn hapus a'r gofal a gafwyd. Ychwanegwyd y bydd y model newydd o ddarparu a chomisiynu gofal cartref yn cael ei gomisiynu ar y cyd a'r Bwrdd Iechyd.

Ategodd yr Uwch Reolwr Gweithredol o ran cyd-destun fod prinder gofal cartref ar gael. Mynegwyd er mwyn deall mwy am y drefn fod angen edrych ar yr holl sefyllfa. Nodwyd fod trafodaethau wedi ei gynnal gyda defnyddwyr gwasanaeth a phwysleisiwyd pwysigrwydd peilot er mwyn ei droi o syniad i realiti.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r undebau ac mae yn eithaf cefnogol ond fod angen sicrhau fod cyn lleied â phosib o effaith ar staff.

Mynegwyd mai trigolion a'r defnyddwyr gwasanaeth sydd yn ganolog i'r model newydd, gyda'r staff yn ail agos iawn. Mynegwyd nad oes bwriad i bobl newid i ddarparwyr eraill os nad ydynt yn awyddus i wneud a bydd camau yn eu lle i edrych ar ôl staff. Ychwanegwyd fod trafodaethau yn cael ei cynnal ar undebau i sicrhau fod y broses drosglwyddo gyda'r lleiaf o effaith ar staff ac i sicrhau fod cyflogaeth yn cael ei gynnal.

- Croesawyd y model newydd, ond pwysleisiwyd fod recriwtio yn broblem hanesyddol, a holwyd os bydd hyn newid y broblem. Mynegwyd fod y model newydd yn rhoi cyfle ac yn annog staff i fod yn fwy creadigol, ac y bydd cyfran uwch o'r arian sydd ar gael yn mynd i staff.
- Gan fod ariannu'r cynllun yn golyg defnyddio arbedion sy'n deillio o newid y trefniadau gwaith a bod yr Adran Oedolion hefyd yn ddibynnol ar hynny i wireddu eu rhaglen arbedion, codwyd pryder am y model ariannol yn dilyn trafodaethau'r Cabinet am berfformiad yr Adran yr wythnos diwethaf. Pwysleisiwyd fod angen sicrhau nad yw'r model newydd yn amharu ar allu'r Adran Oedolion i gyflawni eu harbedion a gofynnwyd iddynt asesu'r sefyllfa honno yn drwyadl gan adrodd yn ôl os oes unrhyw berygl i hynny

10. TAI HAF A CHYNLLUNIO

Cyflwynwyd gan Cyng. Gareth Griffith

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd i:

- I. Gytuno i'r Adran Amgylchedd, ar ran y Cyngor, i gaffael a chomisiynu gwaith ymchwil ar dai haf ar gyfer Gwynedd ond gyda chyd-destun cenedlaethol a chefnogaeth Sefydliad Cynllunio Tai Brenhinol Cymru, a chyrrff perthnasol eraill, i gynnwys ystyriaeth o'r materion yn rhan 3 o'r adroddiad.
- II. Cytuno i ddarparu hyd ar £80,000 o Gronfa Trawsfurfio'r Cyngor, i'w ryddhau mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid ar gyfer y gwaith.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adran yn gwneud cais am £80,000 o'r gronfa drawsffurfio er mwyn comisiynu gwaith ymchwil ar dai haf yng Ngwynedd. Mynegwyd fod nifer o bryderon wedi codi am nifer o dai haf yn ardal Gwynedd, a nodwyd y prif bryderon fel

- Y cyflenwad lleol o dai sydd ar gael i gwrdd â'r angen
- Yr effaith ar y gymuned leol, yr iaith Gymraeg a'r gwasanaethau sydd yn y gymuned
- Yr effaith posib ar brisiau tai
- Yr effaith ar fwynderau trigolion lleol
- Safonau diogelwch ar gyfer yr eiddo.

Mynegwyd fod yr adroddiad yn amlygu nad oes llawer o reolaeth gan y Cyngor ar y mater. Ychwanegwyd fod cymaint o amrywiol eiddo a niferoedd uchel tu hwnt o eiddo hunan ddarpariaeth.

Ychwanegodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Amgylchedd, fod enghreifftiau o reoliadau dros Dai Haf i'w gweld dros y byd, ond gobeithir drwy'r ymchwiliad newydd y bydd modd edrych mewn mwy o fanylder. Pwysleisiwyd y byddai angen tystiolaeth berthnasol er mwyn newid deddfwriaeth, a gall y gwaith ymchwil gyfrannu at hyn yn ogystal, ond bydd angen darlun Cymru gyfan. Manylwyd y bydd y gwaith ymchwil yn sylweddol a fydd yn cynnig opsiynau ar gyfer rheolaeth well. Ond i sicrhau hyn, ychwanegwyd, bydd angen tystiolaeth gadarn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod nifer tai haf yn bryder sydd wedi ei gweld dros y blynyddoedd. Mynegwyd fod ystadegau wedi cynyddu dros y blynyddoedd gan ychwanegu fod nifer o bobl leol yn manteisio ar gyfle. Ategwyd fod yr ymchwiliad sydd yn cael ei gomisiynu yn ymgais i geisio sefydlu ffeithiau.
- Dangoswyd cefnogaeth i'r ymchwil gan fynegi fod angen tystiolaeth a dealltwriaeth o'r deddfwriaethau sydd yn cael ei defnyddio ar draws y byd. Cydnabuwyd fod y maes yn un cymhleth ble na fydd ateb yn glir.
- Ategwyd fod twf wedi bod yn ddiweddar mewn eiddo 'AirBnB' felly mynegwyd y byddai'n dda cael data cadarn am yr eiddo. Ychwanegwyd fod y cwmni yn un byd eang ac yr angen i fod yn ymwybodol o beth mae triolion ei angen yn y cymunedau.
- Holwyd am amserlen a mynegwyd y bydd modd creu briff o fewn 2 fis nesaf ac o ganlyniad i hyn bydd amserlen fwy clir yn dilyn hyn.

11. PARATOI AR GYFER SEFYLLFA ARIANNOL 2020/21

Cyflwynwyd gan Dilwyn Williams

PENDERFYNIAD

Yn amodol ar y cyfyngiad a nodir yng Nghymal 15 yr adroddiad, er mwyn dygymod gyda'r sefyllfa ariannol 2020/21, bod y Cabinet yn mabwysiadu Opsiwn 3, gan ofyn i adrannau ddarganfod eu siâr nhw o'r isafswm o £2m fydd ei angen i gyfarch yr isafswm o ddiffyg adnoddau ar gyfer chwyddiant y mae'r Cyngor yn debygol o'i wynebu, gan ofyn i'r Pwyllgorau Craffu graffu cynigion yr adrannau yn yr Hydref.

Wrth adrodd dylai adrannau hefyd adrodd ar sut y maent yn bwriadu dygymod gydag unrhyw ddiffyg sydd angen ei gyfarch yn eu cynlluniau arbedion cyfredol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi os bydd goblygiadau gwaethaf sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad yn dod yn wir, y bydd y Cyngor mewn lle pur wael. Mynegwyd fod yr atodiad cyntaf yn nodi'r darlun hanesyddol, gan nodi nad yw'r grant a'r cynnydd treth Cyngor blynyddol wedi bod yn ddigon i dalu am y chwyddiant. Ychwanegwyd fod y Cyngor wedi arbed £65miliwn dros y ddeuddeg mlynedd diwethaf a llawer ohono drwy arbedion effeithlonrwydd, mynegwyd fod

dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd am fynd yn fwyfwy anodd i'r adrannau ddod o hyd iddynt.

Nodwyd er mwyn cynllunio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, bod 'Twmffat Tebygolrwydd' i'w gweld yn Atodiad 2. Mynegwyd ei bod yn syml mynd am y llinell ganol o ran arbedion, ond ychwanegwyd fod 50% o siawns y bydd y ffigur yn uwch. Ategwyd os yn cyfri y £2.2m o arbedion sydd wedi ei gynllunio ers y llynedd, ynghyd â chynnydd 3.5% yn y Dreth Cyngor, gall y bwlc ariannol fod rhwng £1.7m a £7.3m. Mynegwyd dros y blynyddoedd diwethaf fod y Cyngor wedi cynllunio ar gyfer y gwaethaf, ond ychwanegwyd fod trefn arbedion y llynedd wedi amlygu fod toriadau ei oses yn mynd i gael eu gwneud sydd am fod yn anodd i nifer o wasanaethau ac fe fydd unrhyw doriadau pellach yn anodd dros ben ac yn debygol o ddychryn pobl, boed yn drigolion a staff.

Amlygwyd tri opsiwn ar sut i symud ymlaen, a mynegwyd fod yr Aelod Cabinet dros Gyllid a'r Prif Weithredwr yn argymhell y trydydd opsiwn, sydd yn cynllunio i gwrdd â'r bwlc o £1.7m, i'w rowndio i fyny i £2m, yn y sefyllfa ganolig drwy rannu'r swm hwnnw ymysg yr holl adrannau (ac ysgolion), gan nodi mai cyfraniad at chwyddiant yw hyn, ac yna defnyddio balansau a/neu gynnydd uwch yn y Dreth Cyngor i gwrdd â'r bwlc uwchben y sefyllfa ganolrif i roi amser i ddod o hyd i ateb parhaol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod y sefyllfa yn codi ofn ac yn ddychrynlyd, gan bwysleisio blwyddyn ar ôl blwyddyn fod Aelodau yn gorfod mynd drwy'r drefn arbedion unwaith eto, ac nad oeddynt yn barod i'w wneud eto gan ei fod mor dorcalonnus.
- Pwysleisiwyd fod dadl yn amlwg i'w gweld rhwng blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Llundain.
- Nodwyd fod cyhoeddiad yn nodi fod codiad cyflog uwch am gael ei roi i Athrawon, sy'n uwch na'r rhagdybiaethau o godiad cyflog 2%. Ychwanegwyd fod cyfnod o warchod Addysg, Plant ac Oedolion bellach wedi mynd heibio a bydd yn anodd dod o hyd i arbedion heb effeithio ar y gwasanaethau hynny.
- Diolchwyd i swyddogion y Cyngor am eu gwaith i ragweld y sefyllfa tebygol, er pa mor anodd yw'r gwaith. Mynegwyd fod blaenoriaethau'r Llywodraethau ar Brexit a rhyfeloedd, gan bwysleisio nad y rhain yw blaenoriaethau trigolion Gwynedd. Ychwanegwyd fod yr adroddiad yn rhoi sylfaen rhesymegol i allu cynllunio ymlaen yn sgil y diffyg gwybodaeth sylfaenol sydd ar gael.

12. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GEFNOGAETH GORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL

Cyflwynwyd gan Cyng. Nia Jeffreys

PENDERFYNIAD

Nodi a derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r prif faterion sydd yn codi o berfformiad yr adran dros y misoedd diwethaf. Nodwyd fod nifer o brentisiaid newydd wedi eu penodi i'r cynllun prentisiaethau ac ategwyd fod 3 o'r 6 swydd wedi ei llenwi gan ferched a bod dau o'r rhain yn y maes peirianeg. Mynegwyd o ran cynllun Cadw'n Budd yn Lleol fod ffigyrau gwariant gyda chwmnïau sy'n lleol yn parhau'n weddol gyson a'r llynedd ond fod ffigyrau gariant wedi lleihau felly bydd yr adran yn cadw golwg ar y mater.

Nodwyd fod gwasanaeth Hunanwasanaeth ar-lein yn flaenoriaeth er mwyn cynnig y gwasanaeth gorau i bobl Gwynedd, a nodwyd fod 5 gwasanaeth yn derbyn mwy o geisiadau drwy hunanwasanaeth na sydd wedi ei derbyn dros y ffon. Ychwanegwyd fod gwaith yn cael ei wneud i edrych ar sut y bydd modd i ddefnyddio teclyn sgwrsio ar lein. Mynegwyd nad oes modd defnyddio system dadleniadau DBS drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod y Cyngor wedi hysbysu Comisiynydd y Gymraeg.

Ychwanegodd Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ers ysgrifennu'r adroddiad fod nifer y prentisiaethau bellach wedi codi i 10 swydd, a bod 6 yn cael ei hysbysebu dros yr haf ar gyfer yr Adran Oedolion ac a Gwasanaeth Ieuenctid. Ategwyd fod gan y Cynllun Prentisiaethau arian i hyd at 20 swydd prentisiaeth ac felly eu bod bron a chyrraedd y targed. Pwysleisiwyd fod y prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a bod y rhain yn golygu lleoliadau gwaith yn ogystal ar hyfforddiant.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd o ran ystadegau'r wefan bydd yr adran yn ymchwilio i mewn os yw'r ffigwr o 334,992 yn nifer o 'hits' neu unigolion penodol yn ymweld â gwefan y Cyngor

13. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS BLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD

Cyflwynwyd gan Cyng. Dilwyn Morgan

PENDERFYNIAD

Nodi a derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi y bydd yn crynhoi'r prif bethau sydd wedi eu codi o'r cyfarfodydd perfformiad yr adran. Ychwanegol ar y cyfan, fod yr Aelod Cabinet yn hapus a'r ffordd mae'r adran yn symud ymlaen, mynegwyd fod ychydig o fylchau o ran data ond fod yr adran ar daith er mwyn cael eu data ar flaenau eu bysedd.

Nodwyd o ran cynllun Cefnogi Llesiant Pobl fod gwaith yn cael ei gynnal ar hyn o bryd er mwyn mapio'r drefn bresennol. Mynegwyd fod hyfforddiant am agenda ACE wedi ei drefnu ar y cyd gyda'r Heddlu yn ystod mis Hydref. O ran Strategaeth Cefnogi Pobl, nodwyd fod y cynllun yn cefnogi rhieni a datblygu sgiliau rhiantu da. Ychwanegwyd y bydd Hwb Teulu Gwynedd yn cael i lansio yn y misoedd nesaf i roi gwybodaeth ar y we. Ategwyd fod gwaith yn cael ei wneud i gynllunio a chasglu gwybodaeth ar y cyfer y lansiad.

Tynnwyd sylw at ystadegau perfformiad a nodwyd fod llithriad wedi ei weld mewn canran cynadleddau amddiffyn plant dechreuol, mynegwyd oherwydd bod y tîm mor fach os un aelod o staff yn absennol mae hi yn anodd iawn i wella'r perfformiad yn dilyn hyn. Pwysleisiwyd fod cynnydd o 11% yn nifer y plant sydd mewn gofal ar ddiwedd Mawrth 2019. Pwysleisiwyd fod hyn yn her fawr sydd i'w gweld yn genedlaethol a bod trafodaethau yn cael ei gynnal a'r Llywodraeth i drafod y mater. Ategwyd mai nid cynnydd mewn niferoedd yw'r unig her ond fod yr anghenion sydd gan y plant yn llawer mwy cymhleth ac o ganlyniad fod lleoliadau maeth yn costio llawer yn uwch.

Nodwyd mai prif bryder yr Adran Plant yw'r broblem maent yn eu hwynebu i daro targed arbedion. Gyda chynnydd mewn costau lleoliadau i sicrhau gofal arbenigol, mae hyn yn cynyddu'r broblem. Ychwanegwyd fod yr Adran yn ceisio rhoi cynlluniau amgen eu lle fel eu bod yn cyrraedd y targed.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod cynnydd i'w gweld mewn niferoedd o blant mewn gofal dros Gymru a nodwyd y broses o osod plentyn mewn gofal. Pwysleisiwyd fod 95% o achosion wedi mynd drwy'r llys, a bod hyn yn amlygu fod proses gadarn yn eu lle a'r llys sydd yn penderfynu ar unigolion. Mynegwyd fod angen gweithio gyda theuluoedd i osgoi trefn gyfreithiol.

14. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ADDYSG

Cyflwynwyd gan Cyng. Cemlyn Williams

PENDERFYNIAD

Nodi a derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi y bydd yn cyfeirio at dair blaenoriaeth sydd i'w weld yng nghynllun y Cyngor. Mynegwyd o ran prosiect Cryfhau Arweinyddiaeth fod y Cyngor wedi cytuno ar gyfundrefn gyda GwE o ran trefniadau hyfforddi perthnasol. Ychwanegwyd mai cynllun cyntaf y prosiect hwn yw mynd i'r afael a heriau yn ymwneud â denu a recriwtio arweinyddion a rheolwyr canol yn Ysgolion Uwchradd Meirionydd.

Edrychwyd ar Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan nodi fod gwaith adeiladu wedi cychwyn ar greu ysgol newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd ym Mangor.

Nodwyd y bydd Ysgol Godre'r Berwyn yn agor ei ddrysau ar yr 2il Medi 2019; ychwanegwyd fod problemau wedi codi o ran cyllideb i'r ysgol newydd yn dilyn dyled oedd i'w gweld yn un o'r ysgolion, ond fod hyn bellach wedi ei datrys ac mae pawb yn disgwyl yn eiddgar i'r ysgol agor. Mynegwyd fod gwaith cychwynnol wedi cychwyn i edrych i adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth drwy drafodaethau cychwynnol gyda Chyrff Llywodraethol Ysgol Trefferthyr ac Ysgol Llanystumdwy.

Tynnwyd sylw at Drawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chymhwysiad, gan nodi fod prif ffocws y cynllun hwn yn canolbwyntio ar addasu'r gwasanaeth i ddygymod a newid yn Neddfwriaeth Adnoddau Dysgu Ychwanegol. Ychwanegodd fod yr Aelod Cabinet yn awyddus i weld ymyrraeth blyneddoddedd cynnar a'r ddarpariaeth 16-25 yn cael ei drafod gan y Bwrdd Cefnogi Pobl maes o law.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd beth oedd am ddigwydd i gynllun TRAC, cynllun llwyddiannus sydd yn cael ei ariannu drwy Gronfa Ewrop. Nodwyd fod y dyfodol yn aneglur ond fod cryfder yn y math yma o gynlluniau.

15. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS DAI

Cyflwynwyd gan Cyng. Craig ab Iago

PENDERFYNIAD

Nodi a derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod camau yn cael ei wneud i symud i drefn cwbl newydd a chyffroes gyda dyfodiad yr Adran, Pennaeth a Strategaeth Dai newydd. Mynegwyd fod yr adroddiad yn adlewyrchu profiad ac effeithlonrwydd y staff. Er hyn, ychwanegwyd, fod heriau yn wynebu'r adran newydd.

Nodwyd fod y staff yn rhagweithiol ac yn gweld yr adran newydd fel cyfle i wneud mwy. Diolchwyd i staff am eu gwaith.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.35 y.h.

CADEIRYDD

Adroddiad i Gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y Cyfarfod:	Medi 17, 2019
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Nia Jeffreys
Swyddog Cyswllt:	Geraint Owen
Rhif Ffon Cyswllt	32335
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Blynyddol Cyflogaeth

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cymeradwyaeth o'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2018/19.

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Ar gyfer adlewyrchu a chytuno ar y strategaeth corfforaethol yn y maes allweddol hwn i'r dyfodol

3 CYFLWYNIAD

Bwriad yr adroddiad hon yw cyflwyno diweddariad blynyddol o fanylion y gweithlu a'u cyflogaeth yn ogystal ag amlinellu amcanion ar gyfer datblygu'n gweithwyr a gosod cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

Fe'ch atgoffir bod y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol (sef y fforwm ar y cyd rhwng cynrychiolwyr undebau cydnabyddedig ac Aelodau etholedig) yn derbyn adroddiad blynyddol ar weithgaredd ym maes adnoddau dynol ond mae'r adroddiad honno yn canolbwyntio ar y berthynas weithredol rhwng y cyflogwr a chynrychiolwyr y gweithlu.

1. Gweithlu'r Cyngor

Nodir yma y niferoedd a gyflogwyd ar sail llawn-amser a rhan-amser o fewn y Cyngor am y dair blynedd diwethaf. Noder bod y niferoedd hyn yn cynnwys staff sy'n gweithio yn ein hysgolion ond nid y staff hynny a gyflogir yn achlysurol yn ystod cyfnodau gwyliau/salwch y gweithlu sefydlog.

	31/3/17	31/3/18	31/3/19
Llawn amser	2,847	2,953	3,011
Rhan amser	2,981	2,938	2,871
Cyfanswm	5,828	5,891	5,882


Mae'r manylion yn arddangos lleihad o 9 yn y nifer o unigolion a gyflogwyd gan y Cyngor ar ddiwedd Mawrth eleni o'i gymharu a'r un adeg yn 2018. Mae'r lleihad cymharol isel yma yn arwyddocaol, o ystyried yr her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn bresennol a'r pwysau y mae hynny yn ei roi ar y gyllideb staffio. Sylwer bod y nifer o staff a gyflogir yn llawn-amser wedi cynyddu gyda'r nifer a gyflogir ar sail rhan-amser yn gostwng. Mae'r nifer cynyddol o staff sy'n cael eu cyflogi ar oriau uwch nag yn y gorffennol yn fwyaf amlwg yn y maes gofal.

2. Rhaniad y Gweithlu yn ôl Rhyw

Yma gwelir dadansoddiad pellach o'r nifer dynion a merched a gyflogwyd yn llawn-amser ac yn rhan-amser yn ystod yr un cyfnod. Mae'r rhaniad dros y tair blynedd yn weddol sefydlog yng nghyswllt nifer o ferched a dynion a gyflogir ond sylwer eto ar y cynnydd yn y nifer o ferched sydd yn gweithio oriau llawn-amser a'r gostyngiad bras gyfatebol yn y nifer sy'n gweithio oriau rhan-amser. Mae'r manylion hyn yn atgyfnerthu'r datganiad blaenorol ynglŷn a'r cynnydd yn yr oriau a weithir, gan ferched yn bennaf, o fewn y maes gofal.

		2016/17	2017/18	2018/19
Llawn amser	Dynion	1,360	1,387	1,390
	Merched	1,487	1,566	1,621
Rhan amser	Dynion	327	312	303
	Merched	2,654	2,626	2,568
Cyfanswm	Dynion	1,687	1,699	1,693
	Merched	4,141	4,192	4,189
Cyfanswm %	Dynion	28.9%	28.8%	28.8%
	Merched	71.1%	71.2%	71.2%

Rhaniad merched / dynion staff Cyngor Gwynedd fesul Adran, 31 Mawrth 2019



Cyswllt:

01286 679868

01286 679490


cabinet@gwynedd.llyw.cymru



3. Proffil oedran staff y Cyngor


Nodir yma proffil oedran staff y Cyngor fel ag yr oedd yn ymddangos ar Fawrth 31^{ain} 2019. Mae'n arddangos bod 64.5% o weithlu presennol y Cyngor yn hŷn na 40 oed (64% yn 2017/18) tra bo 37.5% yn hŷn na 50 oed (36% yn 2017/18). Mae'r cynnydd bychan ond graddol hwn yn y nifer o staff sydd yn hŷn na 40 oed (a 50 oed) dros nifer o flynyddoedd bellach, ynghyd â'r ffaith bod gostyngiad mewn trosiant staff dros y ddwy flynedd blaenorol, yn ffactor pwysig i'w ystyried fel rhan o'r angen i roi sylw gwirioneddol i gynllunio'r gweithlu ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

Mae'r graff isod yn arddangos yr Adran gyda'r proffil oedran ieuengaf a'r Adran gyda'r proffil oedran hynaf yn ogystal a'r proffil oedran ar gyfer y Cyngor cyfan.



Gwelir isod dabl enghreifftiol sy'n darparu darlun clir o broffil oedran presennol y Grŵp Rheoli Corfforaethol (penaethiaid adran, y cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr).


**Nifer staff Cyngor Gwynedd fesul band oedran,
31 Mawrth 2019: Graddfa Penaethiaid ayb
(heb gynnwys athrawon)**



4. Trosiant Staff

Yn hanesyddol mae trosiant o fewn y Cyngor wedi bod yn gymharol sefydlog ond bu patrwm o gynnydd bychan dros y blynyddoedd hyd at 2015/16. Fodd bynnag, mae trosiant wedi gostwng yn y ddwy flynedd diwethaf gan sefydlogi ar ychydig uwch nac 8%. Mae hynny yn groes i'r patrwm a welir yn genedlaethol o fewn y sector gyhoeddus yn gyffredinol (y ffigyrau diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer y sector yn arddangos trosiant oddeutu 15% ar gyfartaledd).

Mae'r trosiant mwyaf i'w weld o fewn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd (17.7%) yr Adran Economi a Chymuned (16.4%) a Priffyrdd a Bwrdeistrefol (10.2%) tra bo trosiant ar ei isaf o fewn yr Adran Amgylchedd (6.0%) a'r Adran Addysg (6.4%).




Mae'r ffaith bod lefel trosiant yn gymharol isel (ac yn gostwng), ynghyd â'r wybodaeth bod y proffil oedran yn arddangos cynnydd, yn un elfen sydd angen cadw golwg arno yng nghyd-destun ein gallu i sicrhau parhad gwasanaeth yn y tymor canol a'r tymor hir.

Yn wyneb hynny, mae gwaith (ar y cyd efo'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth) yn cael ei gynnal yn bresennol er mwyn hwyluso mynediad rheolwyr at wybodaeth sy'n arddangos manylion trosiant ac oedran o fewn gwasanaethau unigol tra bo ffrwd gwaith arall yn canolbwyntio ar adnabod a datblygu talent o fewn y Cyngor yn ogystal a denu'r talent o du hwnt i'r gweithlu presennol e.e. cynlluniau prentisiaeth, arbenigwyr yfory a.y.b.

5. Absenoldebau Salwch

Bu i'r nifer o ddyddiau a gollwyd oherwydd salwch ar draws y Cyngor ostwng i 8.72 diwrnod y pen ar gyfartaledd yn 2017/18, o'i gymharu a chyfartaledd o 9 diwrnod y pen yn 2016/17 (8.44 diwrnod y pen yn 2015/16). Gwelwyd cynnydd i 9.45 diwrnod y pen ar gyfartaledd yn 2018/19, sef y lefel uchaf yn ystod y deg mlynedd diwethaf. Mae'r lefel hwn fodd bynnag yn parhau i fod gyda'r isaf ymysg awdurdodau lleol Cymru. Mae'r tabl dilynol yn arddangos lefelau yr absenoldebau salwch, fis wrth fis, yn ystod y flwyddyn.

Diwrnodau salwch fesul mis 2018/19



Mae absenoldeb salwch, yn 2018/19, ar ei uchaf o fewn y Gwasanaeth Preswyl a Dydd (17.03 diwrnod) Gwasanaeth Gofal Cymunedol (14.25 diwrnod), a'r Gwasanaeth Glanhau ac Arlwyyo - Addysg (13.03 diwrnod) tra bo absenoldeb salwch ar ei isaf o fewn Ymgynghoriaeth Gwynedd (4.78 diwrnod) a'r Adran Economi a Chymuned – heb gynnwys Hamdden (5.14 diwrnod).

Mae'n bwysig nodi yma na fu 41.4% neu 2,435 (2,542 yn 2017/18) o staff y Cyngor yn absennol o gwbl oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn diwethaf.


Mae gweithgor o swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu achosion unigol o absenoldeb ac yn naturiol yn canolbwyntio eu hymdrechion ar y gwasanaethau hynny ple bo lefelau salwch yn uchel. Cynhelir adolygiadau achosion rheolaidd o fewn y gwasanaethau gofal ple bo absenoldeb salwch ar ei uchaf gyda sylw penodol yn cael ei roi i dueddiadau, sydd wedi arwain at ymgyrchoedd ar y cyd rhwng yr Uned Iechyd Galwedigaethol a rheolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Profwyd peth ffrwyth o'r gwaith hwnnw yn ystod 2018/19 gan bod lefelau o absenoldeb salwch o fewn y Gwasanaeth Gofal Cymunedol, er yn parhau'n uchel, wedi gostwng.

Bydd angen dwysau'r ymdrechion hyn yn y flwyddyn i ddod ac ystyried beth yn ychwanegol y gellir ei wneud i hyrwyddo iechyd ymysg y gweithlu gofal yn bennaf.

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi ymhellach y math o salwch sydd wedi'i gofnodi ar gyfer absenoldebau dros y dair blynedd ddiwethaf. Defnyddir yr wybodaeth yma i lywio'r drafodaeth pan yn ystyried cynnwys y rhaglen hybu iechyd a llesiant yn flynyddol.

Dadansoddiad absenoldeb salwch fesul categori, 2016/17 i 2018/19



Mae'r ffaith bod y canran o absenoldebau salwch gaiff eu cofnodi fel "Sâl Arall" wedi cynyddu i bron 1 ymhob 4 achos yn bryderus, yn enwedig felly gan bod gostyngiad graddol wedi bod yn y defnydd o "Sâl Arall" cyn eleni (roedd y gyfradd cyn gymaint ag 1 ymhob 3 achos ychydig flynyddoedd yn ôl).

Adroddwyd y llynedd a'r flwyddyn cynt bod lleihau y nifer achlysuron salwch a gofnodir fel "Arall" yn un o'r amcanion yn y maes hwn ac fe lwyddwyd i wneud hynny. Mae'n anorod bod rhai mathau o salwch yn cael eu cofnodi fel "Arall" ond mae tystiolaeth bellach nad dyna yw yr eglurhad ar gyfer y mwyafrif o absenoldebau a gofnodir yn y modd yma. Bydd ymgyrch benodol gan y Gwasanaeth Cefnogol i herio pob salwch a gofnodir fel "Arall" yn ystod y flwyddyn i ddod ac hynny mewn ymgais i sicrhau bod staff yn derbyn y gynhaliath briodol pan yn sâl.

Mae amheuaeth yn parhau bod sawl achlysur o absenoldeb yn sgîl straen, yn cuddio o dan "Arall". Er hynny sylwer bod y ganran o absenoldebau a gofnodwyd oherwydd straen hefyd wedi cynyddu. Mae hynny, ynddo'i hun, yn cyfiawnhau yr ymdrechion a'r buddsoddiad amser presennol a wneir i ganolbwyntio ar les meddyliol yn y Cyngor. Bydd effaith y buddsoddiad amser hwnnw yn dod yn amlycach yn ystod y blynyddoedd nesaf ac yn arddangos os yw yr hyn a wneir i godi ymwybyddiaeth a rhannu arferion da am les meddyliol yn llwyddo ai peidio.

Cyswllt:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru



6. Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

Adroddwyd y llynedd bod y nifer o ddyddiau hyfforddi wyneb i wyneb a ddarperir gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu corfforaethol wedi gostwng yn raddol o 3,043 yn 2013-14 i 1,389 yn 2017/18. Yn 2018/19 bu i'r nifer o'r dyddiau hynny gynyddu i 3,383 ac hynny'n bennaf yn sgil y ffaith bod cynnydd sylweddol yn y nifer o weithdai a gynhelir gyda timau unigol, fel dilyniant i'r hyfforddiant a ddarparwyd i bob rheolwr ar "Ffordd Gwynedd". Mae'r gweithdai hynny wedi cynnwys cefnogi rheolwyr i gyflwyno elfennau penodol o'r "ffordd o weithio" i'w timau e.e. rheoli perfformiad a llif gwaith yn ogystal a gweithdai ar ymddygiadau, rheoli newid a datblygu tîm. Mae'r newid, o'i gymharu a'r blynyddoedd diweddar, yn un arwydd bod y gweithgaredd sydd ynghlwm a datblygu'r "ffordd o weithio" wedi cynyddu yn arwyddocaol ar draws y Cyngor. Rhagwelir bod y patrwm hwn yn parhau, yn ystod y flwyddyn i ddod, gyda'r ceisiadau am gymorth ar agweddau penodol o gyflwyno "Ffordd Gwynedd" i gynulleidfa ehangach yn dwysau.

Un cyfraniad arall arwyddocaol i'r nifer cynyddol o weithdai yn ystod 2018/19 yw y galw am uwch-raddio sgiliau technoleg gwybodaeth ymysg y gweithlu. Cynhaliwyd 23 o'r gweithdai hyn yn ystod y flwyddyn gyda rhagolygon y bydd y nifer yn cynyddu ymhellach yn ystod 2019/20. Mae'r cynnydd hwn, nid yn unig oherwydd y defnydd o dechnoleg a meddalwedd newydd ar draws y Cyngor ond hefyd oherwydd bod technoleg yn brysur dod yn rhan o waith pob aelod o staff.

Mae'r nifer o e-ddysgwyr (a ddefnyddiodd yr adnodd) eto wedi mynd yn groes i'r patrwm adroddwyd arno dros y blynyddoedd diwethaf h.y. wedi gostwng o 2,119 yn 2017/18 i 1,178 yn 2018/19. Roedd cynnydd sylweddol yn y nifer yn 2017/18 yn sgil ymgyrchoedd i annog staff i ymgymryd a'r hyfforddiant e-ddysgu mewn meysydd penodol ac yn hynny o beth nid yw'n syndod profi'r gostyngiad mewn niferoedd yn y flwyddyn diwethaf. Fodd bynnag, parheir i gredu bod hyfforddiant e-ddysgu yn parhau yn fodd effeithiol a hwylus o godi ymwybyddiaeth am faterion penodol ac yn un sy'n cyfrannu at ddatblygiad unigolion. Yn sgil hynny, mae'r gwaith o gynhyrchu pecynnau o safon yn parhau yn un o flaenoriaethau'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad gyda golwg i sicrhau bod y pecynnau hynny yn addas i bwrpas.

Un o flaenoriaethau presennol Cynllun y Cyngor yw rhoi Cynllun Prentisiaethau ar waith. Yn ystod y flwyddyn, llwyddwyd i sicrhau buddsoddiad o £300,000 gan y Cabinet er mwyn penodi o leiaf 20 prentis. Mae'r prentisiaid hyn i'w penodi mewn sawl maes ar draws y Cyngor gan gynnwys peirianeg, technoleg gwybodaeth a gofal. Ystyrir y Cynllun hwn yn un fydd nid yn unig yn gyfraniad at gyflogaeth lleol ond hefyd yn un fydd yn cyfrannu at sicrhau parhad gwasanaethau'r Cyngor i'r dyfodol.

Mae'r Cynllun hwn, ochr yn ochr a'n Cynlluniau Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory yn ogystal a'r pwyslais ar ddatblygu staff presennol, yn ffurfio rhan bwysig yn ein hymdrechion i adnabod a datblygu talent.

Cyswllt:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru



7. Strwythur Tâl a Chyflog Cyfartal

Cymeradwywyd y Polisi Tâl ar gyfer 2019/20 gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar Fawrth 7fed 2019. Bu i'r Cyd-Bwyllgor Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol ddod i gytundeb ar godiadau cyflog am y ddwy flynedd oddi ar y 1af o Ebrill, 2018, sydd wedi golygu bod isafswm cyflog y Cyngor, ers y 1af o Ebrill, 2019 wedi'i sefydlu ar £9.18 yr awr.

Golyga hynny bod isafswm cyflog y Cyngor erbyn hyn yn uwch na'r hyn a nodir fel Cyflog Byw gan y Sefydliad Cyflog Byw (£9 yr awr ers y 1af o Dachwedd, 2018). Mae'r newidiadau hyn ers Ebrill, 2019 wedi arwain at strwythur tâl diwygiedig o fewn y Cyngor (a phob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru a Lloegr). Llwyddwyd i weithredu'r trosglwyddiad o'r cyn-strwythur i'r strwythur newydd yn llyfn gyda chydweithrediad y Gwasanaeth Adnoddau Dynol, Gwasanaeth Cyflogau a chynrychiolwyr lleol yr undebau llafur.

Fel ag yr adroddwyd y llynedd, mae adolygiadau annibynnol dros y deg mlynedd diwethaf wedi datgan yn gyson bod y Cyngor yn talu cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal rhwng merched a dynion. Mae'r farn honno yn adlewyrchiad o'r ffaith bod gan y Cyngor gynllun cydnabyddedig ar gyfer arfarnu swyddi a bod meini prawf y Cynllun hwnnw yn parhau i gael eu gweithredu'n gyson. Mae adolygiad o'r meini prawf o fewn y Cynllun Arfarnu Swyddi yn cael ei gynnal yn bresennol mewn ymdrech i sicrhau bod y meini prawf hynny yn adlewyrchu'r "ffordd o weithio" sy'n cael ei arddel o fewn y Cyngor erbyn hyn. Cydnabyddir yr angen i weithredu'n bwyllog a gofalus yn hyn o beth er mwyn sicrhau na fyddwn yn tanseilio'r trefniadau cadarn sydd yn eu lle yn bresennol. Yn sgîl hynny, ni ragwelir cyflwyno Cynllun diwygiedig am beth amser eto.

Fodd bynnag, mae'r bwloch cyflog rhwng merched a dynion, sydd i'w weld yn gyffredinol o fewn cymdeithas, yn bodoli hefyd o fewn y Cyngor ac mae angen ystyried beth ellir ei wneud i ddylanwadu ar y sefyllfa honno. Mae Cynllun y Cyngor am y cyfnod 2018-23 yn nodi bod adnabod a cheisio dileu unrhyw rwystrau all fod yn atal merched rhag cyrraedd swyddi arweiniol a rheolaethol o fewn y Cyngor yn un o'i amcanion ar gyfer gwella. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi cychwyn ac yn un o'r blaenoriaethau pennaf yn y maes cyflogaeth yn ystod y blynyddoedd nesaf.

8. Datblygu'r Arweinyddiaeth

Mae'r prosiect ar ddatblygu'r arweinyddiaeth yn canolbwyntio ar ddatblygiad arweinyddion gwleidyddol ac hefyd (yn briodol i bwrpas yr adroddiad hon) ar ddatblygu arweinyddion o fewn ein hadrannau a'n gwasanaethau.

Atgyfodwyd y Rhwydwaith Rheolwyr yn ystod y flwyddyn – hyn yn dilyn y buddsoddiad a'r canolbwyntio a fu ar sicrhau bod pob rheolwr wedi derbyn hyfforddiant llawn ar gyflwyno y "Ffordd Gwynedd" o weithio dros y ddwy flynedd blaenorol. Mae'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau arwain o fewn y Rhwydwaith yn gam allweddol yn y newid o ddiwylliant "rheoli" i "arwain" o fewn y Cyngor. Cynhaliwyd y gyfres cyntaf o'r Rhwydwaith ar ei newydd wedd, ac hynny o dan arweiniad Grŵp o reolwyr eu hunain sy'n cydlynu trefniadau bellach, yn ystod Mawrth 2019, gydag ail gyfres wedi'i chynllunio ar gyfer yr Hydref 2019.

Cyswllt:

01286 679868

01286 679490

cabinet@gwynedd.llyw.cymru



Cynhaliwyd adolygiad o strwythurau rheolaethol y Cyngor yn ystod 2018/19. Prif yrrwyr yr adolygiad hwn oedd;

- i) adnabod y swyddi hynny sydd wirioneddol yn rhai rheolaethol ac yn arwain ar wasanaethau
- ii) ystyried a oedd gan y Cyngor ormod o reolwyr
- iii) sicrhau bod strwythur rheolaethol y Cyngor yn gyson hefo egwyddorion Ffordd Gwynedd

Arweiniodd y gwaith hwn at well adnabyddiaeth o ba swyddi sy'n gweithredu swyddogaeth reolaethol gan ddod i'r casgliad mai 111 o reolwyr a berthyn i strwythur y Cyngor mewn gwirionedd. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd hynny yn nifer gormodol o ystyried maint y gweithlu a'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir, a bod yr addasiadau strwythurol a gyflawnwyd fel rhan o'r adolygiad yn golygu bod ein trefniadau gwaith yn gyson hefo egwyddorion Ffordd Gwynedd.

O ganlyniad i gadarnhau'r swyddi hynny sy'n arddel rôl rheolwr, lluniwyd ac ymgynghorwyd ar gynnwys swydd-ddisgrifiad ddiwygiedig ar gyfer rheolwyr. Mae'r swydd-ddisgrifiad yn nodi'r disgwyliadau sy'n gyffredin i bob rheolwr sy'n arwain tîm o unigolion o fewn y Cyngor i'r dyfodol.

Fel ag y nodwyd eisoes, datblygiad pwysig arall yn y cyd-destun hwn yw sefydlu'r prosiect ar hyrwyddo rôl merched mewn arweinyddiaeth. Gosodwyd y sylfeini ar gyfer gyrru'r gwaith hwn yn ystod y flwyddyn gyda rhagolygon y byddwn yn gweld ffrwyth y gwaith hwnnw dros y ddwy flynedd nesaf.

9. Cynllunio'r Gweithlu

Mae cyswllt agos rhwng y gwaith hwn a'r cynlluniau y cyfeiriwyd atynt eisoes yng nghyd-destun adnabod a datblygu talent. Fodd bynnag, law yn llaw hefo datblygu talent, mae angen i bob rheolwr ganolbwyntio ar pa fylchau posib all godi o fewn ei th/dîm i'r dyfodol. Gall hynny fod yn fwlch mewn arbenigedd a/neu capasiti sy'n bodoli yn bresennol neu yn sefyllfa ple nad yw'r arbenigedd neu'r capasiti hwnnw yn bodoli ar hyn o bryd.

Cyflwynwyd eitem, ar y disgwyliad hwn o waith rheolwyr, yng nghyfes cyfarfodydd y Rhwydwaith Rheolwyr ym Mawrth 2019. Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol o ganlyniad yn cydweithio hefo nifer cynyddol o wasanaethau yn y Cyngor i ystyried a sefydlu beth yw'r anghenion ar gyfer cynllunio'r gweithlu ac yna eu cynorthwyo i fynd i'r afael a'r materion sy'n cael eu hamlygu.

10. Amodau Gwaith Lleol

Mae'r ymdrech i adolygu a sicrhau fod amodau gwaith staff yn adlewyrchu diwylliant y Cyngor yn un o'r blaenoriaethau o fewn Cynllun Ffordd Gwynedd. Mae'r Grŵp sy'n arwain y prosiect wedi treulio llawer o'r flwyddyn yn ymgynghori ar rai o'r amodau gwaith yn ogystal a sicrhau dealltwriaeth glir a gweithrediad cywir yr amodau hynny a ddiwygiwyd yn ystod y flwyddyn h.y. costau teithio, taliadau ar alwad, gweithio oriau anghymdeithasol a gwarchodaeth cyflog. Yn ogystal a hyn, diweddarwyd y polisi sy'n ymwneud a defnydd staff o'r cyfryngau cymdeithasol.

Cyswllt:

01286 679868

01286 679490

cabinet@gwynedd.llyw.cymru



Bydd côd ymddygiad newydd ar gyfer staff yn cael ei gyhoeddi yn fuan ynghyd â fframwaith rheoli newid ar gyfer ail-strwythuro gwasanaethau. Mae gwaith ymchwil ac ymgynghori pellach hefyd wedi'i gynnal ar ddatblygu'r polisïau "ar alwad" a gwarchodaeth cyflog, hynny yn unol ag un o'r addewidion a wnaed o fewn y gytundeb torfol ddiweddaraf efo'r undebau llafur yn lleol. Cyflawnwyd gwaith ar bolisïau newydd ym meysydd trawsrywedd a'r "menopause", na chynhwyswyd o fewn yr amodau lleol cyn hyn. Rhagwelir y bydd y polisïau hynny yn aeddfed i'w cyhoeddi yn ystod y flwyddyn i ddod.

11. Recriwtio a Penodi

Gwelir isod fanylion ystadegol ynglŷn a'r nifer o swyddi a hysbysebwyd gan y Cyngor yn ystod y bedair blynedd diwethaf ynghyd â'r nifer ceisiadau a dderbyniwyd ac hefyd y nifer o swyddi ple bu'n angenrheidiol ail-hysbysebu. Mae dadansoddi'r manylion hyn eto yn cyfrannu at ein gallu i adnabod meysydd ple bo angen i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt yng nghyswllt datblygu arbenigeddau a chynllunio'r gweithlu ar gyfer y dyfodol.

Blwyddyn	Nifer o swyddi hysbysebwyd	Nifer Ceisiadau	Nifer o swyddi a ail hysbysebwyd	Nifer ceisiadau am yr ail hysbyseb
2015	442	2525	30	106
2016	472	2312	47	179
2017	555	3281	57	240
2018	444	2293	70	187

Mae'r nifer o swyddi a hysbysebwyd yn 2018 wedi gostwng i lefel debyg i'r hyn a brofwyd yn ôl yn 2015. Fodd bynnag mae'r nifer ceisiadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r hysbysebion yn is ac hefyd mae'r nifer o swyddi ple bu gofyn ail-hysbysebu wedi cynyddu'n sylweddol.

Mae hyn yn adlewyrchu'r problemau a wynebir yn bresennol yng nghyswllt denu ymgeiswyr i weithio mewn rhai meysydd megis maes gofal, gwaith cymdeithasol, arlwy a glanhau yn ogystal ag yn y flwyddyn diwethaf y gwasanaeth ieuenctid.

Byddwch yn ymwybodol o'r ymdrechion a'r sylw sydd yn cael ei roi yn bresennol i'r prinder ymgeiswyr am swyddi yn y maes gofal. Mae'r sylw hwn wedi dwysau yn ystod y misoedd diwethaf gyda'r bwriad i leihau pryderon ynglŷn a pharhad gwasanaeth a'r gallu i recriwtio a chadw staff.

Bydd swyddogion yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn parhau i gydweithio'n agos efo'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol a'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad er mwyn cael y maen i'r wal yn hyn o beth.

Cyswllt:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru



12. Buddiannau Staff

Mae ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud yn ddiweddar i ymestyn y buddiannau a gynigir, o fod yn gweithio i'r Cyngor, ac i godi ymwybyddiaeth ymysg y gweithlu o'r buddiannau hynny. Erbyn hyn mae 1369 o staff yn aelodau o Gynllun Disgownt Vectis (sydd yn cynnig arbedion sylweddol ar nwyddau) tra bo 150 o fusnesau lleol eisoes yn cymryd rhan yn y Cynllun Disgownt Lleol.

Mae'r gwaith o dynnu sylw mwy o staff i'r cyfleon hyn, yn ogystal a cheisio cynyddu y nifer o fusnesau lleol sy'n rhan o'r Cynllun Disgownt, yn parhau gyda rhagolygon y bydd y niferoedd yn cynyddu ymhellach yn ystod y flwyddyn i ddod.

13. Cynllun Ffordd Gwynedd

Mae'r cam cyntaf o drwytho holl reolwyr y Cyngor yn egwyddorion sylfaenol Ffordd Gwynedd, er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r cysyniadau, wedi'i gyflawni i raddau helaeth. Bydd y rhan yma o'r Cynllun yn parhau ar gyfer rheolwyr newydd a darpar-reolwyr y dyfodol ond bydd y ffocws o hyn ymlaen ar yr ail ffordd, sef gweithredu ar raglen fydd yn arfogi timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol.

Mae darparu'r wybodaeth a'r sgiliau hyn i reolwyr yn allweddol i'n gallu i gyflawni ar gyfer pobl Gwynedd ond mae'n holl bwysig bod yr hyn sy'n ddisgwyliedig yn awr yn treiddio ymhellach i bob aelod o staff ar draws y Cyngor. Yn allweddol, byddwn yn edrych i fesur y newid yn nhermau ymddygiadau staff a'r diwylliant gwaith sydd ei angen er mwyn i'r "ffordd o weithio" wreiddio yn holl weithgaredd y Cyngor. Byddwn yn cyflawni hyn trwy gyfuniad o holi ac arsylwi gan asesu os yw staff yn perchnogi'r newid a'r cyfrifoldeb a berthyn i bob swydd.

Ymhellach mae rhaglen o gefnogaeth ac hyfforddiant wedi'u rhoi ar waith er mwyn ymestyn trefniadau sydd eisoes yn bodoli o fewn rhai gwasanaethau, ple bo pwyslais ar yr angen i reolwr ac aelod o'r tîm gynnal trafodaeth barhaus ar gyrhaeddiad, perfformiad a datblygiad personol ac hynny er mwyn sicrhau bod gwerthuso yn amserol ac effeithiol.

Fel ag y nodwyd eisoes, bydd pob unigolyn sy'n gweithio i'r Cyngor yn derbyn swydd-ddisgrifiad diwygiedig fydd yn cadarnhau'r disgwyliadau ohonynt yng nghydestun yr ymddygiadau a'r "ffordd o weithio" a berthyn i Ffordd Gwynedd. Bydd y drafodaeth werthuso parhaus yn canolbwyntio ar y disgwyliadau hynny o bob unigolyn.

Mae Cynllun Ffordd Gwynedd am y dair blynedd i ddod yn amlygu'r datblygiadau hyn fel congl feini ar gyfer sefydlu'r diwylliant priodol ar draws y Cyngor.

CASGLIADAU

Mae'r holl wybodaeth ystadegol a gynhwysir yma, o'i ddadansoddi yn ofalus, yn gymorth i reolwyr, a'r swyddogion hynny sydd yn eu cynghori, i gynllunio gwasanaeth ac adnabod yn amserol y materion hynny sydd angen ymchwilio a gweithredu ymhellach arnynt. Daw hyn yn gynyddol bwysig o fewn diwylliant gwaith ple bo seilio penderfyniadau ar dystiolaeth llawn a chadarn yn greiddiol.

Ymhellach, mae'r manylion eraill a gyflwynir, ynglŷn a chynnydd o fewn y gwahanol feysydd a flaenoriaethwyd, yn arddangos y camau sy'n cael eu cymryd, nid yn unig i gyfarch anghenion presennol o fewn y gweithlu ond hefyd yr hyn a ragwelir fel gofynion y dyfodol.

Mae yma negeseuon sydd angen eu cymryd o ddifri os am sicrhau'r defnydd gorau o'r adnodd pwysicaf sydd gan y Cyngor. Bydd y ffocws am y flwyddyn i ddod yn seiliedig ar y negeseuon hyn gyda'r amcan o nid yn unig gynnal gwasanaethau, ond hefyd i arddangos cynnydd a gwelliant parhaus yn yr hyn a gynigir i bobl Gwynedd.

Golyga hyn, yn unol a'r dystiolaeth a'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol bod angen i'n hymdrechion yn ystod 2019/20 ganolbwyntio ar;

- i) Gynllunio'r Gweithlu ar gyfer y dyfodol gyda sylw penodol i broblemau recriwtio ym maes gofal
- ii) Hyrwyddo lles meddyliol a iechyd staff yn gyffredinol
- iii) Atgyfnerthu'r diwylliant gwaith a'r ymddygiadau disgwylidiedig ar draws y Cyngor
- iv) Datblygu'r arweinyddiaeth bresennol ynghyd a chyflwyno camau yn annog mwy o ferched i ymgymryd a chyfrifoldebau uwch-reolaethol

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Mae'r adroddiad yn gyfle i'r Cabinet gymryd trosolwg o sefyllfa a phroffiliau staff y Cyngor. Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

Pennaeth yr Adran Cyllid:

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer ymdrin â materion cyflogaeth a datblygu gweithlu'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r penderfyniad gerbron i'r Cabinet ei gymeradwyo yn creu unrhyw ymrwymiad gwariant ychwanegol, felly nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

Cyswllt:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru



ADRODDIAD I'R CABINET

Dyddiad y cyfarfod:	17 Medi 2019
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams
Pwnc:	Ysgol Abersoch
Swyddog Cyswllt:	Gwern ap Rhisiart – Swyddog Ardal Addysg

Y penderfyniad a geisir a phwrpas yr adroddiad

Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio caniatâd y Cabinet i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Abersoch yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol.

1. Cefndir

- 1.1 Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli yng nghanol pentref Abersoch ger Pwllheli, ac yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3-8 oed. Mae gan yr ysgol gapasiti o 34 (Meithrin i Flwyddyn 3), ac ym mis Ionawr 2019, roedd ganddi 12 disgybl llawn amser, rhwng 4-8 oed, ynghyd ag 1 disgybl meithrin, rhan amser ar y gofrestr. Erbyn heddiw (Medi 2019), mae'r niferoedd wedi gostwng i 7 o ddisgyblion 4-8 oed, a 2 disgybl meithrin.
- 1.2 Ym mis Gorffennaf 2019, o ganlyniad i gwmp diweddar yn niferoedd Ysgol Abersoch, bu i swyddogion yr Adran Addysg gwrdd â chorff llywodraethol Ysgol Abersoch i drafod niferoedd isel yn yr ysgol ac i egluro mai'r cam nesaf fyddai ceisio caniatâd y Cabinet i gychwyn trafodaeth ffurfiol gyda'r corff llywodraethol a budd-ddeiliad perthnasol eraill, i ystyried yr opsiynau ar gyfer dyfodol yr ysgol.
- 1.3 Cafodd Ysgol Abersoch ei harolygu ddiwethaf ym Mehefin 2017, a daethpwyd i'r canlyniad fod perfformiad yr ysgol yn 'Dda'. Yn ogystal, yn Ionawr 2019, fel rhan o system genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer categoreiddio ysgolion, gosodwyd yr ysgol yng nghategori cymorth 'Melyn'. Diffiniad y Llywodraeth o ysgol categori 'Melyn' yw "ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac yn gwybod pa feysydd sydd angen iddi eu gwella".

2. Rhesymau dros yr angen am benderfyniad


- 2.1 Mae niferoedd yn yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn isel yn gyffredinol, er y mae cwmp diweddar wedi golygu mai 9 o ddisgyblion sydd bellach yn mynychu'r ysgol (2019-20).
- 2.2 Yn ogystal, rhagwelir y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf. Dengys rhagamcanion Medi 2018 ein bod yn rhagweld mai 9 disgybl fydd ar y gofrestr yn Medi 2021.
- 2.3 Oherwydd yr heriau hyn, ceisir caniatâd i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda'r corff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i ystyried opsiynau posibl ar gyfer dyfodol Ysgol Abersoch.

3. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymhell y 'penderfyniad a geisir'

3.1 Niferoedd isel a llefydd gweigion

- 3.1.1 Fe welir o'r graff isod fod gostyngiad wedi bod yn niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch dros y blynyddoedd diwethaf. Gyda 9 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Medi 2019, mae niferoedd yr ysgol wedi mwy na haneru

ers 2016. Gan gymharu niferoedd yr ysgol ers 1980, cawn weld fod niferoedd yr ysgol ar eu uchaf a'r ysgol yn llawn yn 1981, gyda 35 o ddisgyblion.



3.1.2 Erbyn Medi 2019, dim ond 9 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol, gostyngiad o 63% ers 2016. Gyda chapasiti o 34, golyga hyn fod yr ysgol yn 74% wag .

3.1.3 Yn ogystal, yn Medi 2018, allan o'r 34 o ddisgyblion rhwng 3 ac 8 oed sy'n byw yn nalgylch Ysgol Abersoch, roedd 24 (71%) yn dewis mynychu ysgolion cyfagos. Gan mai ysgol ar gyfer babanod a phlant hyd at 8 oed yw Ysgol Abersoch, mae'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion cynradd cyfagos ar ôl Blwyddyn 3. Yr ysgol agosaf yw Ysgol Sarn Bach, sef ysgol gynradd 3-11 oed sydd wedi ei lleoli ym mhentref Sarn Bach, tua milltir lawr y ffordd o Abersoch.

3.2 Rhagamcanion

3.2.1 Yn ôl rhagamcanion yr ysgol a grëwyd yn Medi 2018, pan oedd 13 disgybl ar gofrestr yr ysgol, rhagwelwyd y byddai'r niferoedd yn parhau'n isel mewn blynyddoedd i ddod. Gweler isod y rhagamcanion a grëwyd yn Medi 2018:

	Meithrin	0	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
Rhagamcan Medi 2019*	2	1	2	3	3	-	-	-	11*
Rhagamcan Medi 2020	2	2	1	2	3	-	-	-	10
Rhagamcan Medi 2021	2	2	2	1	2	-	-	-	9

*Gwir niferoedd disgyblion Medi 2019 = 9

4 Ystyriaethau Perthnasol

4.1 **Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018:** Bydd unrhyw broses yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018).

5. Camau nesaf ac Amserlen

5.1 Yn ddarostyngedig ar benderfyniad y Cabinet, dyma amserlen amlinellol gychwynnol ar gyfer trafodaethau:

Camau Nesaf	Amserlen Amlinellol
Cynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol Ysgol Abersoch i ystyried a llunio opsiynau posib.	Hydref 2019
Adrodd yn ôl i'r Cabinet yn dilyn adborth lleol. + <u>Yn ddibynnol ar qanlyniad y trafodaethau lleol</u> , ceisio caniatâd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad statudol ar yr opsiwn ffafriedig os bydd angen.	Tachwedd 2019

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

“Fe esbonnir yn yr adroddiad mai'r bwriad yw ceisio adnabod camau posib i gyfarch yr heriau sydd yn wynebu'r ysgol. Cydnabyddir hefyd fod ystod o faterion sydd angen eu cloriannu wrth geisio adnabod atebion posib a gweithrediad. Nodi'r hefyd fod darpariaethau Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018 yn mynd i fod a rôl ganolog yn y cloriannu ac y bydd opsiynau ar y ffordd ymlaen yn destun ystyriaeth pellach gan y Cabinet pan gwblheir y gwaith yma. O safbwynt priodoldeb mae'r hyn a gynigir yn briodol.”

Y Pennaeth Cyllid:

“Rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir yma.”

Barn yr Aelod Lleol:

“Mae’r amgylchiadau sydd wedi dod a rhifau’r disgyblion i lawr, ac felly’n dod a’r ysgol i sylw’r broses yma, wedi bod yn sydyn, a ddim i wneud ag ansawdd y ddarpariaeth addysg yn yr Ysgol, ac allan o ddwylo’r ysgol.

Mae’r adroddiad yn sôn fod y rhifau wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf ond ddim yn cydnabod y cynnydd yn y niferoedd rhwng 2013 i 2017 (sef cynnydd o 40%), sydd yn dangos fod rhifau yn gallu newid yn sydyn dros ddwy flynedd.

Rwyf yn teimlo ei fod yn bwysig amlygu hyn oherwydd fydd yr adroddiad yn un cyhoeddus, ac felly gall rhieni a all anfon disgyblion i Ysgol Abersoch gael yr argraff anghywir fod y sefyllfa yma wedi digwydd oherwydd perfformiad yr ysgol.

Mae’n bwysig i’r Aelod Cabinet a’r Adran Addysg fod yn ymwybodol o fy marn a fy mod yn disgwyl i’r Adran ddod a gwahanol opsiynau i’r bwrdd ar y cyd gyda Llywodraethwyr, Staff a Rhieni cyn penderfyniad terfynol ar y mater.

Rwyf yn hyderus yn dilyn cyflwyniad gan Swyddogion Adran Addysg yn yr ysgol y bydd hyn yn digwydd.

Mae’n debyg fod hyn yn crynhoi fy mhryder.”

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Dyddiad y Cyfarfod:	17 Medi 2019
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Catrin Wager
Swyddog Cyswllt:	Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Rhif Ffôn Cyswllt:	32402
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Ymchwiliad Craffu ar Orfodaeth Stryd

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1 Gweithredu argymhellion ymchwiliad gweithgor Pwyllgor Craffu Cymunedau (adroddiad yn atodol) sydd yn cynnwys y canlynol:
- 1.2 Defnyddio pwerau Deddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990) Adrannau 46 a 47 sy'n ymwneud â cynhwysyddion gwastraff, i ddirwyo trigolion a busnesau sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir fel mater o flaenoriaeth.
- 1.3 Ymgymryd ag ymgyrch hyrwyddo sirol i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau gwastraff ac ailgylchu gyda ffocws penodol ar Ddinas Bangor a chydabod y gwahaniaethau daearyddol a demograffig yn y sir ar wahanol adegau o'r flwyddyn.
- 1.4 Gosod sticeri "QR code" ar gynhwysyddion ailgylchu er mwyn darparu mynediad 24 awr i drigolion at eu diwrnodau casglu gwastraff ac ailgylchu a gwybodaeth am eitemau y gellir eu hailgylchu.
- 1.5 Ffurfioli trefniadau cydweithio rhwng Adrannau'r Cyngor.
- 1.6 Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Casgliadau Clinigol a'r Gwasanaeth Casglu Arbennig sydd ar gael i helpu pobl hŷn a phobl anabl i waredu eu gwastraff. Bydd modd gwneud hyn fel rhan o'r ymgyrch hyrwyddo ehangach.
- 1.7 Hyrwyddo rhwydwaith presennol o Ganolfannau Ailgylchu a chynnal ymgyrch benodol ar gyfer y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus.

2. CYFLWYNIAD

- 2.1 Yn dilyn cyflwyno Rhybudd o Gynnig y Cynghorydd Lesley Day i gyfarfod y Cyngor ar 2 Mawrth, 2017, bu i'r Cyngor fabwysiadu cynnig y cyn Aelod i ofyn i'r Aelodau Cabinet ystyried cyflwyno cosb fel mater o flaenoriaeth i drigolion a busnesau.
- 2.2 Yn unol â phrosesau Craffu'r Cyngor, cyfeiriwyd y mater i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a benderfynodd mai cynnal Ymchwiliad Craffu ar y mater fyddai'r ffordd orau ymlaen.
- 2.3 Amcan y Grŵp Ymchwiliad oedd llunio argymhelliad clir ar sail tystiolaeth gadarn er ystyriaeth gan yr Aelod Cabinet. Mae briff yr ymchwiliad i'w weld yn Atodiad 1 o'r Adroddiad Ymchwiliad Craffu sydd yn amgaeedig (Atodiad A).
- 2.4 Mae cefndir o'r sefyllfa bresennol wedi ei osod allan yn adroddiad a weler ym mhwynt 3 o adroddiad Ymchwiliad Craffu (Atodiad A).
- 2.5 Mae gwaith trylwyr wedi ei wneud er deall a dadansoddi'r sefyllfa bresennol, edrych yn fanwl ar ddeddfwriaeth presennol gan ymgysylltu gyda swyddogion sy'n gweithio yn y maes Cynllunio a Thrwyddedu landlordiaid.
- 2.6 Mae'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu ynghyd â Glanhau Stryd yn darparu gwasanaeth hynod o werthfawr i bobl Gwynedd ond o dan bwysau i ymateb i ofynion a disgwyliadau uchel yn enwedig mewn rhai ardaloedd.
- 2.7 Er sicrhau fod strydoedd Gwynedd yn lân ac yn daclus, mae'n hanfodol ein bod yn adeiladu partneriaeth dda rhwng y Cyngor a thrigolion a busnesau'r Sir.
- 2.8 Mae'r gwaith ymchwil a wnaed gan yr ymchwiliad yn dangos bod rhaid cymeryd agwedd mwy caled at droseddau amgylcheddol a symud i drefniadau caletach ar gyfer dirwyo.
- 2.9 Mae'r argymhellion yn gosod camau i wneud hyn gan gynnwys argymhelliad penodol i gyflwyno dirwy fel mater o flaenoriaeth i drigolion a busnesau sy'n gwaredu'r gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir.

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb fel rhan o'r Ymchwiliad Craffu. Bydd trefniadau gweithredol arfaethedig yn cadw at y dystiolaeth hon yn agos gan nad yw gorfodaeth yn debygol o fod yn briodol os ydi unigolyn yn agored i niwed, er enghraifft oherwydd afiechyd sy'n gysylltiedig ag oedran neu anabledd meddyliol neu gorfforol. Bydd angen datrys pob achos o'r fath gyda'r sensitifrwydd eithaf.

- 2.10 Gofynnir felly i gael mabwysiadu'r 6 argymhelliad er gallu gweithredu a'r faterion lle gweler trigolion a busnesau:
 - sy'n gwaredu eu hysbwriel ar y diwrnod anghywir
 - sy'n gwaredu eu hysbwriel yn y ffordd anghywir
 - sy'n gadael eu cynhwysydd allan ac ar y stryd drwy'r adeg.

3. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

3.1 Mae sawl cymuned yng Ngwynedd yn dioddef yn sgil problemau a achosir gan bobl sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir. Mae'r Cyngor yn delio gyda nifer uchel o gwynion gan y cyhoedd am y materion hyn.

3.2 Mae Adrannau 46 a 47 Deddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990) yn rhoi'r hawl i Gyngorau Sir gymryd camau gorfodi ar droseddau yn ymwneud â chasglu gwastraff a chyhoeddi dirwyon lle mae'r:

- Cynhwysydd yn cael ei adael allan ar y diwrnod anghywir,
- Cynhwysydd yn cael ei adael allan yn y lleoliad anghywir,
- Cynhwysydd yn cael ei adael allan ar y stryd yn barhaol,
- Gormod o wastraff i'r cynhwysydd,
- Gwastraff yn cael ei waredu yn y cynhwysydd anghywir.

Mae rhai Cyngorau eisoes yn defnyddio'r pwerau yma.

3.3 Y Drefn Bresennol

- Pan mae'r Cyngor yn dod yn ymwybodol o'r broblem, mae arolygiad yn cael ei gynnal sy'n cynnwys mewnbwn gan un o Wardeiniaid Gorfodaeth Stryd y Cyngor.
- Os yw unigolyn yn cydymffurfio, ni chymerir unrhyw gamau pellach.
- Os bydd yr unigolyn yn methu â chydymffurfio, bydd llythyr rhybudd anffurfiol yn cael ei anfon gan y Cyngor.
- Os yw'r unigolyn yn cydymffurfio, ni chymerir camau pellach.
- Os yw'r unigolyn yn methu â chydymffurfio am yr ail dro, nid yw'r polisi presennol yn caniatáu gweithredu'r Ddeddfwriaeth. Golygai hyn fod y biniau'n parhau i aros ar y stryd ac yn achosi rhwystr i lonydd a phalmentydd cyhoeddus gan ei wneud yn anodd eu defnyddio gan gerddwyr ac yn enwedig felly defnyddwyr cadeiriau olwyn a rhieni gyda phramiau. Mae hyn hefyd wrth gwrs yn creu delwedd anffafriol o gymunedau ledled y sir.
- Pe byddai'r Cyngor yn ymgorffori Deddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990), byddai modd cyflwyno rhybudd ffurfiol pe na fyddai unigolyn yn cydymffurfio ar ôl iddynt dderbyn llythyr anffurfiol. Byddai camau pellach wedyn yn arwain at achos Llws.

Atodiadau

Atodiad A – Adroddiad Ymchwiliad Craffu ar Orfodaeth Stryd – Pwyllgor Craffu Cymunedau (04.07.19)

4. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Mae'r adroddiad yn ffrwyth gwaith sylweddol o ochr craffu ac yn cyfleu'r argymhellion sydd yn deillio o hyn. Mae Gwasanaeth cyfreithiol wedi bod yn cynghori o ran agweddau gorfodaeth a disgwylir i hyn barhau wrth sefydlu'r gweithdrefnau angenrheidiol. Dim sylwadau pellach o ochr priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Nid yw'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn gofyn am gyllideb uniongyrchol i weithredu'r penderfyniad yma. Mae'r Adran wedi datgan eu bod nhw yn ffyddiog y byddant yn medru amsugno'r gwaith ychwanegol o hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o fewn yr adnoddau presennol sydd ganddynt yn eu timau gwastraff/algylchu a gorfodaeth stryd. Rhagwelir bydd oll o'r argymhellion wedi eu cyflawni o fewn 12 mis.

Adroddiad Ymchwiliad Craffu ar Orfodaeth Gwastraff

Aelodau'r Ymchwiliad

Y Cynghorydd Stephen Churchman (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Keith Jones

Y Cynghorydd Mike Stevens

Swyddogion

Jennifer Rao (Swyddog Arweiniol)

Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)

Peter Simpson (Rheolwr Gwasanaethau Stryd)

Lowri Evans (Swyddog Cefnogol)

Cyngor Gwynedd

Stryd y Jêl,

Caernarfon,

Gwynedd

LL55 1SH

Dyddiad: Gorffennaf 4ydd 2019



CYNNWYS

Rhagair y Cadeirydd	3
1. Argymhellion	4
2. Cyflwyniad	5
3. Cefndir a’r sefyllfa bresennol	6
4. Methodoleg	7
5. Y Dystiolaeth a ystyriwyd	10
6. Argymhellion	12
7. Casgliadau	15
Cydnabyddiaeth	17
Atodiadau:	18
Atodiad 1	Briff yr Ymchwiliad
Atodiad 2	Enghreifftiau o Dystiolaeth
Atodiad 3	Cyflwyniad ar Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990) a’r ddarpariaethau sydd o fudd i’r Cyngor wrth daclo problemau gwastraff
Atodiad 4	Cofnod Grŵp Ffocws gyda Myfyrwyr Prifysgol Bangor
Atodiad 5	Holiadur Gwastraff ac Ailgylchu
Atodiad 6	Canlyniadau’r Holiadur Gwastraff ac Ailgylchu
Atodiad 7	Cofnod o’r Grŵp Ffocws gyda’r Grŵp Atal Codymau a’r Grŵp Ffocws gyda’r Grŵp Dementia Go
Atodiad 8	Holiadur a Chanlyniadau’r Holiaduron gyda Landlordiaid
Atodiad 9	Siart Lif Gweithred Arfaethedig Adran 46 a 47
Atodiad 10	Asesiad Effaith Cydraddoldeb

RHAGAIR Y CADEIRYDD

Mae fy adroddiad yn nodi amryw faterion a chamau y gallai'r Cabinet eu cymryd er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog wrth gynllunio a darparu gwasanaethau casglu gwastraff ac wrth gyd-gynllunio a chyd-ddarparu'r gwasanaethau yma.

Mae'r Ymchwiliad yma yn cydnabod y gwaith aruthrol sy'n digwydd eisoes ac rydym felly wedi canolbwyntio ar awgrymiadau i gyflwyno gwelliannau pellach. Mae ein diolch i'r holl swyddogion sydd wedi cyfrannu at y gwaith a'n ceisiadau am ddata a gwybodaeth yn ddiffuant.

Er ein bod wedi ystyried yr elfen graidd o Orfodaeth Rheoli Gwastraff, rydym hefyd wedi nodi nifer o feysydd o fewn y gwasanaeth lle credwn y gallai newidiadau arwain at welliannau i'r gwasanaeth i gwsmeriaid a phoblogaeth ehangach Gwynedd.

Diolch yn fawr hefyd i Aelodau'r Gweithgor sydd wedi gweithio gyda mi ar yr Ymchwiliad yma gan wario oriau yn mynd dan wyneb y mater a chraffu'r maes yn drylwyr. Rydym yn diolch yn arbennig i'r rhai sydd wedi cyfrannu tystiolaeth a rhoi cefnogaeth barod i'r gwaith. Diolchir hefyd i'r Cyng. Catrin Wager am gadeirio'r Gweithgor nes iddi gael ei phenodi i'r Cabinet.

Cynghorydd Stephen Churchman (Ward Dolbenmaen)
Cadeirydd yr Ymchwiliad

Gorffennaf 2018

1. Argymhellion

1. Defnyddio pwerau Deddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990) Adrannau 46 a 47 sy'n ymwneud a cynhwysyddion gwastraff i gyflwyno trefn newydd lle a phryd a bo'r angen, i ddirwyo trigolion a busnesau sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir fel mater o flaenoriaeth.
2. Ymgymryd ag ymgyrch hyrwyddo sirol i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau gwastraff ac ailgylchu gyda ffocws penodol ar Ddinas Bangor a chydabod y gwahaniaethau daearyddol a demograffig yn y sir ar wahanol adegau o'r flwyddyn.
3. Gosod sticeri "QR code" ar gynhwysyddion ailgylchu er mwyn darparu mynediad 24 awr i drigolion at eu diwrnodau casglu gwastraff ac ailgylchu a gwybodaeth am eitemau y gellir eu hailgylchu.
4. Ffurfioli trefniadau cydweithio rhwng Adrannau'r Cyngor.
5. Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Casgliadau Clinigol a'r Gwasanaeth Casglu Arbennig sydd ar gael i helpu pobl hŷn a phobl anabl i waredu eu gwastraff. Bydd modd gwneud hyn fel rhan o'r ymgyrch hyrwyddo ehangach.
6. Hyrwyddo rhwydwaith presennol o Ganolfannau Ailgylchu a chynnal ymgyrch benodol ar gyfer y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus.

Gweler tudalen 12 am fwy o wybodaeth.

2. Cyflwyniad

2.1 Yn dilyn cyflwyno Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Lesley Day i gyfarfod y Cyngor ar 2 Mawrth 2017, bu i'r Cyngor fabwysiadu cynnig y cyn Aelod i ofyn i'r Aelodau Cabinet ystyried cyflwyno cosb fel mater o flaenoriaeth i drigolion a busnesau:

- sy'n gwaredu eu sbwriel ar y diwrnod anghywir,
- sy'n gwaredu eu sbwriel yn y ffordd anghywir,
- sy'n gadael eu cynhwysydd allan ar y stryd drwy'r adeg.

Mae briff yr Ymchwiliad i'w weld yn **Atodiad 1**.

2.2 Yn unol â phrosesau craffu'r Cyngor, cyfeiriwyd y mater i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a benderfynodd mai cynnal Ymchwiliad Craffu ar y mater fyddai'r ffordd orau ymlaen.

Penodwyd y canlynol gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn aelodau o'r Grŵp Ymchwiliad:

- Y Cynghorydd Stephen Churchman (Cadeirydd)
- Y Cynghorydd Keith Jones,
- Y Cynghorydd Mike Stevens,
- Y Cynghorydd Catrin Wager (hyd at Ebrill 1af 2019 pan benodwyd y Cynghorydd Wager i'r Cabinet).

2.3 Cytunwyd mai amcan y Grŵp Ymchwiliad fyddai llunio argymhellion clir ar sail tystiolaeth gadarn er ystyriaeth gan yr Aelod Cabinet a rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw rwystrau a sut y gellid eu datrys.

3. Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol

3.1 Mae sawl cymuned yng Ngwynedd yn dioddef yn sgil problemau a achosir gan bobl sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir. Mae'r Cyngor yn delio gyda nifer uchel o gwynion gan y cyhoedd am y materion hyn.

3.2 Mae Adrannau 46 a 47 Deddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990) yn rhoi'r hawl i Gyngorau Sir gymryd camau gorfodi ar droseddau yn ymwneud â chasglu gwastraff a chyhoeddi dirwyon lle mae'r:

- Cynhwysydd yn cael ei adael allan ar y diwrnod anghywir,
- Cynhwysydd yn cael ei adael allan yn y lleoliad anghywir,
- Cynhwysydd yn cael ei adael allan ar y stryd yn barhaol,
- Gormod o wastraff i'r cynhwysydd,
- Gwastraff yn cael ei waredu yn y cynhwysydd anghywir.

Nodwyd bod rhai Cyngorau eisoes yn defnyddio'r pwerau yma.

3.3 Y Drefn Bresennol

- i. Pan mae'r Cyngor yn dod yn ymwybodol o'r broblem, mae arolygiad yn cael ei gynnal sy'n cynnwys mewnbwn gan un o Wardeiniaid Gorfodaeth Stryd y Cyngor.
- ii. Os yw unigolyn yn cydymffurfio, ni chymerir unrhyw gamau pellach.
- iii. Os bydd yr unigolyn yn methu â chydymffurfio, bydd llythyr rhybudd anffurfiol yn cael ei anfon gan y Cyngor.
- iv. Os yw'r unigolyn yn cydymffurfio, ni chymerir camau pellach.
- v. Os yw'r unigolyn yn methu â chydymffurfio am yr ail dro, nid yw'r polisi presennol yn caniatáu gweithredu'r Ddeddfwriaeth. Golygai hyn fod y biniau'n parhau i aros ar y stryd ac yn achosi rhwystr i lonydd a phalmentydd cyhoeddus gan ei wneud yn anodd eu defnyddio gan gerddwyr ac yn enwedig felly defnyddwyr cadeiriau olwyn a rhieni gyda phramiau. Mae hyn hefyd wrth gwrs yn creu delwedd anffafriol o gymunedau ledled y sir.

- vi. Pe byddai'r Cyngor yn ymgorffori Deddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990), byddai modd cyflwyno rhybudd ffurfiol pe na fyddai unigolyn yn cydymffurfio ar ôl iddynt dderbyn llythyr anffurfiol. Byddai camau pellach wedyn yn arwain at achos Llys.

Fel Gweithgor, rydym yn ymwybodol ei bod hi'n bwysig cadw balans, mae'r drefn gorfodaeth angen ei ystyried; ond mae rhaid derbyn sefyllfaoedd lle nad oes datrysiadau ar gael ar gyfer pob elfen e.e. strydoedd cul a strydoedd cefn.

4. Methodoleg

4.1 Cynhaliwyd saith cyfarfod o'r Gweithgor Craffu rhwng Gorffennaf 2018 a Mehefin 2019 er mwyn casglu tystiolaeth a thrafod argymhellion. Cytunwyd ar raglen waith manwl i gyfarch y briff. Roedd sawl elfen wahanol i'r rhaglen waith:

4.2 Elfen 1 - Deall a dadansoddi'r sefyllfa bresennol. Bu cryn fewnbwn gan y Rheolwr Gwasanaethau Stryd (Priffyrdd a Bwrdeistrefol) i gynorthwyo aelodau'r Ymchwiliad i ddod i ddeall y maes.

- Derbyniwyd gwybodaeth allweddol am natur y gwasanaeth presennol;
- Trefnwyd dau ymweliad safle i gasglu tystiolaeth, un i Fangor ac un i Borthmadog. Derbyniwyd adborth gan Aelodau'r Gweithgor fod y profiad o ymweld â'r lleoliadau hyn wedi bod yn werthfawr iawn i'r ymchwiliad;
- Derbyniwyd cyflwyniad gan y Rheolwr Gwasanaethau Stryd ar y sefyllfa bresennol a oedd yn cynnwys tystiolaeth ffotograffig. Mae enghreifftiau o'r dystiolaeth a gasglwyd i'w gweld yn **Atodiad 2**.

4.3 Elfen 2 - Deddfwriaethau Perthnasol

- Derbyniwyd cyflwyniad gan Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr Cyngor Gwynedd) ar y Ddeddfwriaeth berthnasol sef Deddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990) ("Y Ddeddf"). Mae'r Ddeddf hon yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sydd o fudd i'r Cyngor wrth daclo problemau gwastraff ar dir yn gyffredinol, gan gynnwys:

- tipio slei bach (adran 33)
 - torri dyletswydd gofal mewn perthynas â gwastraff (adran 34)
 - cynhwysyddion gwastraff (adrannau 46, 47, 47ZA a 47ZB)
 - niwsans statudol (adrannau 79 ac 80).
- Dyma’r adrannau o’r Ddeddf sy’n ymwneud yn benodol hefo cynhwysyddion gwastraff ac felly sydd fwyaf perthnasol i waredu sbwriel ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir:
 - Adran 46: cynhwysyddion gwastraff tŷ
 - Adran 47: cynhwysyddion gwastraff masnachol neu ddiwydiannol
 - Adran 47ZA: rhybuddion cosb benodedig
 - Adran 47ZB: swm y rhybudd cosb o dan adran 47ZA

4.4 Efen 3 - Ymgysylltu gyda swyddogion sy’n gweithio yn y maes Cynllunio a Thrwyddedu Landlordiaid

- Derbyniwyd cyflwyniad gan Cara Owen (Rheolwr Cynllunio) ar y mater gorfodaeth gwastraff a threfniadau cynllunio. Trafodwyd ffyrdd y gall y Gwasanaeth Cynllunio gyfrannu at wella’r sefyllfa drwy sicrhau bod cyfleusterau storio digonol yn cael eu hystyried ar gyfer cynhwysyddion gwastraff ac ailgylchu wrth bennu ceisiadau cynllunio.
- Nodwyd na fyddai modd mynnu ar ofod storio o faint penodol, ond y gellid gofyn fod gofod digonol yn cael ei glustnodi.
- Ar gyfer compownd mewn unrhyw ddatblygiad (fflatiau) newydd, nodwyd y gellid gosod amod bod yr ardal yn cael ei rheoli gyda chynllun rheoli pwrpasol.
- Nodwyd bod angen rhoi ystyriaeth i faterion trafndiaeth o fewn datblygiadau tai - e.e. mynedfa addas ar gyfer cerbydau casglu gwastraff a lle i lorïau droi.

- Derbyniwyd cyflwyniad gan Carys Fôn Williams (Rheolwr Tai - Cyflenwad a Gorfodaeth) er mwyn rhannu gwybodaeth ar yr hawliau gorfodaeth sydd gan Swyddogion Adran Tai Cyngor Gwynedd i reoli gwastraff.
- Amlygwyd bod yr Adran Tai yn gweithredu canllawiau Deddf Tai (Cymru) 2014 ac yn unol â'r Ddeddf rhaid i bob landlord gofrestru a chyflwyno cais am drwydded. Un o ofynion y drwydded yw bod rhaid i'r landlord hysbysu'r tenantiaid o'r trefniadau ar gyfer casglu gwastraff ac ailgylchu. Os nad yw'r tenant yn cydymffurfio, gall swyddogion Y Gwasanaeth Tai ddefnyddio eu pwerau gorfodaeth (cyn belled a bod y gwastraff o fewn cwrtil yr eiddo).
- Nodwyd bod Swyddogion Gwastraff ac Ailgylchu yn sicrhau darpariaeth ddigonol o gynhwysyddion ar gyfer tai amlfeddiannaeth, hynny yw, biniau mwy ar gyfer tai mawr, ac yn ymweld â phob eiddo myfyrwyr yn ystod tymor cyntaf amserlen y Brifysgol.
- Nodwyd nad oedd gan y Swyddogion Tai yr hawl i gosbi landlord os mai'r tenant sydd ar fai. Er hynny, os bydd llanast yn y cwrtil bydd y swyddogion yn llythyru'r landlord neu yn ymweld â'r eiddo i geisio datrysiaid.

4.5 Ystyriwyd sylwadau gan rai Aelodau o'r Gweithgor a oedd wedi derbyn sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd am eu profiadau hwy o'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu. Roedd rhain yn cynnwys materion y tu allan i'r briff hwn, yn bennaf bod y casgliadau'n cael eu gwneud cyn 6yb ac y gallant fod yn anghyfleus ac yn swnllyd i breswylwyr. Fodd bynnag, mae'r Adran ar hyn o bryd yn y broses o gyflwyno newidiadau i'r trefniadau casglu er mwyn sicrhau gwelliannau.

5. Y Dystiolaeth a ystyriwyd

5.1 Bu i'r Grŵp Ymchwiliad Craffu ystyried tystiolaeth:

- Drwy dderbyn **cyflwyniad gan Peter Simpson (Rheolwr Gwasanaethau Stryd, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd) ar y sefyllfa bresennol ynghylch biniau allan ar y stryd yn barhaol.**
- Drwy dderbyn **cyflwyniad gan Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr Cyngor Gwynedd) ar Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990) a'r darpariaethau a allai fod o fudd i'r Cyngor wrth daclo problemau gwastraff.** Gweler **Atodiad 3.**
- **Ymweliad â Dinas Bangor er mwyn gweld maint a natur y problemau sy'n ymwneud â gorfodaeth gwastraff yn y Ddinas.** Cynhaliwyd yr ymweliad gan Peter Simpson (Rheolwr Gwasanaethau Stryd) a arweiniodd daith o amgylch ardal fasnachol y Ddinas (Y Stryd Fawr), ardaloedd preswyl gan gynnwys ardaloedd gyda dwysedd uchel o fyfyrwyr megis Bangor Uchaf (Ward Menai) a Chae Llepa (Ward Deiniol) ac ardaloedd preswyl preifat yn Ward Hirael.
- **Ymweliad â Thref Porthmadog er mwyn casglu tystiolaeth o'r problemau yn yr ardal.** Cynhaliwyd yr ymweliad gan John Clive Price (Swyddog Gorfodaeth Gwastraff a Strydoedd) ac Alan Hughes (Warden Gorfodaeth Stryd) a arweiniodd daith o amgylch y dref gan ganolbwyntio ar y lleoliadau gyda'r nifer fwyaf o broblemau gwastraff ac ailgylchu. Ymwelwyd ag ardaloedd preswyl a masnachol er mwyn casglu tystiolaeth berthnasol.
- Drwy dderbyn **cyflwyniad gan Carys Fôn Williams (Rheolwr Tai - Cyflenwad a Gorfodaeth, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd) ar y canllawiau ymarfer tai amlfeddiannaeth ("HMO's").**
- Drwy dderbyn **cyflwyniad gan Cara Owen (Rheolwr Cynllunio, Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd) ar orfodaeth gwastraff a threfniadau cynllunio.**

- Drwy gynnal grŵp ffocws gyda myfyrwyr Prifysgol Bangor yn gofyn iddynt am eu defnydd o'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu. Gweler **Atodiad 4**.
- Drwy ymgysylltu gyda myfyrwyr Prifysgol Bangor yn ystod Ffair Wythnos Groeso (Serendippedd) y Brifysgol ynghyd ac ymgysylltu gyda phobl Gwynedd yng Nghynhadledd Pobl Hŷn Gwynedd. Mae'r holiadur i'w weld yn **Atodiad 5**, gyda'r canlyniadau i'w gweld yn **Atodiad 6**.
- Drwy ymgysylltu â phobl Gwynedd a'u hannog i gwblhau holiadur ar eu defnydd o'r trefniadau gwastraff ac ailgylchu, unrhyw rwystrau y maent yn eu hwynebu a lle maent yn storio eu biniau ar y diwrnod pan nad ydynt yn cael eu casglu. Mae'r holiadur i'w weld yn **Atodiad 5**, a'r canlyniadau yn **Atodiad 6**.
- Drwy gynnal grŵp ffocws gyda'r grŵp Atal Codymau yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn **Atodiad 7**.
- Drwy gynnal grŵp ffocws gyda'r grŵp Dementia Go yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn **Atodiad 7**. Diolch i Gwenllian Roberts (Swyddog Ailgylchu) a Lois Owens (Swyddog Cefnogi Ymgysylltu) am gyfrannu i lwyddiant y sesiynau ymgysylltu.
- Drwy ymgysylltu gyda Cyng. Peter Read fel Pencampwr Anabledau Gwynedd a defnyddiwr cadair olwyn er mwyn darganfod a ellid gwneud unrhyw welliannau i'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu i gynorthwyo defnyddwyr cadeiriau olwyn i wneud defnydd llawn o'r gwasanaeth. Mae awgrymiadau a dderbyniwyd o'r ymgysylltiad hwn wedi'u cynnwys yn argymhellion yr adroddiad.
- Drwy ymgysylltu gyda landlordiaid sydd ag eiddo yng Ngwynedd drwy holiadur electronig er mwyn canfod eu barn am y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu. Mae copi o'r holiadur a'r canlyniadau i'w gweld yn **Atodiad 8**.

6. Argymhellion

- 6.1** Mae'r Ymchwiliad wedi adnabod nifer o argymhellion lle yr ystyrir bod lle i wella. Nid yw hyn yn feirniadaeth o gwbl o'r gwasanaeth sydd yn gyfrifol am y maes. Fodd bynnag, er mwyn gwella ymhellach ar ein hymateb i'r galw a cheisio ymateb i'r heriau sydd yn wynebu'r gwasanaeth i'r dyfodol, cynigir argymhellion gan y Gweithgor Craffu i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu a'r Aelod Cabinet.
- 6.2** **Argymhellir y dylid defnyddio pwerau o'r Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990), Adrannau 46 a 47 sy'n ymwneud a cynhwysyddion gwastraff lle a phryd a bo'r angen, i gyflwyno trefn newydd i ddirwyo trigolion a busnesau sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir fel mater o flaenoriaeth.**
- Drwy gydol yr ymchwiliad, casglwyd llawer o dystiolaeth sy'n dangos fod problem amlwg gyda biniau'n cael eu gadael allan ar y stryd drwy'r amser, a bod cynhwysyddion yn cael eu defnyddio'n anghywir. Trwy ddefnyddio pwerau'r Ddeddf, rhagwelir y gellir gwella'r sefyllfa yma. Mae siart llif sy'n dangos sut y byddem yn argymhell gweithredu'r Ddeddf i'w gweld yn **Atodiad 9**. Bydd gweithredu'r pwerau yn llwyddiannus yn dibynnu ar gymorth swyddfa gefn a meddalwedd effeithiol.
 - Mae'n bwysig nodi nad yw'n fwriad i ddechrau dirwyo pawb ar unwaith, ond bydd cyflwyno pwerau Adran 46 a 47 hefyd yn cynnwys ymgyrch hyrwyddo cynhwysfawr i newid ymddygiad. Fel rhan o'r Ymchwiliad, cwblhawyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac mae'r Asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Gweler yr adroddiad llawn yn **Atodiad 10**. Adolygir pob achos ar sail achos wrth achos ac ni wahaniaethir yn erbyn unrhyw un yn ôl eu nodweddion cydraddoldeb na'u hamgylchiadau.

6.3 Argymhellir y dylid ymgymryd ag ymgyrch hyrwyddo sirol i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau gwastraff ac ailgylchu gyda ffocws penodol ar Ddinas Bangor a chydabod y gwahaniaethau daearyddol a demograffig yn y sir ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

- Argymhellir y dylai Cyngor Gwynedd gydweithio'n agosach gyda Phrifysgol Bangor er mwyn gwella ansawdd yr amgylchedd lleol a chodi ymwybyddiaeth myfyrwyr o'r trefniadau gwastraff ac ailgylchu yn y Ddinas. Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor a'r Brifysgol berthynas waith da, ac yn cydweithio ar nifer o ymgyrchoedd e.e ymgyrch "Hei Pync, sortia dy jync" - sef ymgyrch diwedd tymor i waredu gwastraff mewn ffordd gyfrifol ac i leihau sbwriel ar strydoedd y ddinas.
- Er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl, argymhellir y dylid cynnal gweithgareddau hyrwyddo penodol ar wahanol gyfnodau o'r flwyddyn academaidd gan ddefnyddio ystod o wahanol ddulliau a chyfryngau, er enghraifft, ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol drwy ddefnyddio clipiau fideo, ymgyrchoedd o ddrws i ddrws gan y Swyddogion Ailgylchu, ac ymgyrchoedd ar-lein gan ddefnyddio gwefannau'r Cyngor a'r Brifysgol.

6.4 Argymhellir y dylid gosod sticeri "QR code" ar gynhwysyddion ailgylchu er mwyn darparu mynediad 24 awr i drigolion at eu diwrnodiau casglu gwastraff ac ailgylchu a gwybodaeth am eitemau y gellir eu hailgylchu.

- Ar hyn o bryd mae calendrau papur yn cael eu dosbarthu i bob cartref, ac mae manylion diwrnodau casglu ar gael ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw preswylwyr (yn benodol myfyrwyr) bob tro'n ymwybodol o'u dyddiadau calendr gwastraff ac ailgylchu.
- Argymhellir gosod sticeri gyda chodau "QR" ar gynhwysyddion, fydd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r tudalennau perthnasol ar wefan y Cyngor ble gall preswylwyr wirio eu dyddiad casglu a lawr llwytho copi o'u calendr drwy fewnbynnu eu cod post.

6.5 Argymhellir y dylid ffurfioli trefniadau cydweithio rhwng Adrannau'r Cyngor.

- Yn dilyn trafodaethau gyda'r Gweithgor, Y Rheolwr Gorfodaeth Stryd, Rheolwr Cynllunio a'r Rheolwr Tai, mae'n amlwg fod cyfleoedd amlwg i wella'r sefyllfa drwy gryfhau'r berthynas a'r cyfathrebu ar draws yr Adrannau a'r Gwasanaethau.
- Adran yr Amgylchedd: Mae cyfle amlwg i Adran Amgylchedd y Cyngor roi sylw manwl i bryderon yn ymwneud â datblygiadau llety amlfeddiannaeth (HMO's) anaddas mewn nifer o leoliadau ar draws Dinas Bangor. Yn hyn o beth, mae'r drefn a gyflwynwyd yn ddiweddar o dynnu sylw a chwestiynu ymgeiswyr am ystyriaethau storfa biniau mewn ceisiadau cynllunio i'w groesawu. Dylid hefyd ystyried materion trafndiaeth o fewn datblygiadau tai newydd, e.e. mynedfa addas a lle i lorïau droi. Gall hyn hefyd cael ei reoli gan y Gwasanaeth Cynllunio.
- Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol: Argymhellir fod yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn sefydlu blwch e-bost cyffredinol er mwyn derbyn ymgynghoriadau cynllunio ac yn cydweithio'n agosach gydag Adrannau a Gwasanaethau eraill o'r Cyngor er enghraifft gyda'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ynghylch sicrhau fod landlordiaid tai amlfeddiannaeth (HMO's) yn sicrhau bod darpariaeth ddigonol o gynhwysyddion e.e. drwy sicrhau biniau mwy ar gyfer tai mawr a gyda'r Adran Amgylchedd ynglŷn â'r ymgynghoriadau cynllunio.

6.6 Argymhellir y dylid cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Casgliadau Clinigol a'r Gwasanaeth Casglu Arbennig.

- Mae'r Gwasanaeth Casglu Arbennig ar gael i bobl sydd ddim yn gallu mynd â'u biniau neu focsys ailgylchu allan i'r man casglu oherwydd anabledd neu salwch.
- Yn ystod y grwpiau ffocws gyda'r bobl hŷn a'r bobl sy'n byw gyda dementia, nodwyd bod llawer o unigolion yn methu â mynd â'u cynhwysyddion i'r manau casglu e.e. oherwydd pwysau'r cynhwysyddion.

- Awgrymir bod yr Adran yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu y Cyngor i gynnal ymgyrch hyrwyddo er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau gwerthfawr yma.

6.7 Argymhellir y dylid hyrwyddo'r rhwydwaith presennol o Ganolfannau Ailgylchu (lleoliadau am amserau agor) a chynnal ymgyrch benodol ar gyfer y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus.

- Mae'r Canolfannau Ailgylchu yn adnodd sy'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan drigolion Gwynedd ac yn allweddol i'r ymdrech i leihau lefelau tipio anghyfreithlon yn y Sir. Mae'r Canolfannau Ailgylchu yn gwneud cyfraniad pwysig i lefelau ailgylchu y Sir gyda lefelau yn y Canolfannau yn uwch na'r lefelau ailgylchu ochr y ffordd.
- Awgrymir bod yr Adran yn ystyried gweithio gyda Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu y Cyngor i gynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau hyn.

7 Casgliadau

- 7.1** Mae'r Gweithgor o'r farn fod y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu yn darparu gwasanaeth hynod o werthfawr i bobl Gwynedd ond eu bod dan bwysau i ymateb i ofynion a disgwyliadau uchel yn enwedig mewn rhai ardaloedd.
- 7.2** Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Gwasanaeth fel gweddill yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi gorfod dygymod â thoriadau ariannol sy'n golygu eu bod wedi gorfod blaenoriaethu eu hadnoddau.
- 7.3** Os yr ydym am sicrhau fod strydoedd Gwynedd yn lân ac yn daclus, mae'n hanfodol ein bod yn adeiladu partneriaeth dda rhwng y Cyngor â thrigolion a busnesau'r Sir. Yn y gorffennol, mae ymgyrchoedd "newid ymddygiad" y Gwasanaeth wedi profi peth llwyddiant. Fodd bynnag, mae'r gofynion yn fawr a'r adnoddau ar gyfer eu cyfarch yn mynd yn fwy prin. I'r dyfodol, mae'n gwbl allweddol fod ffocws clir a chadarn ar godi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad yn ganolog i waith y Gwasanaeth.

- 7.4** Mae llawer o dystiolaeth bod Cyngor Gwynedd gyda phartneriaeth gyda'r Brifysgol wedi cymryd camau i ddelio gyda phroblemau gwastraff ac ailgylchu, a hynny drwy gynnal ymgyrchoedd 'blitz', cyhoeddusrwydd, ymgyrch "Hei pync, sortia dy jync" a chyd drafod gyda Swyddogion yr Undeb Myfyrwyr. O ganlyniad i'r grŵp ffocws gyda myfyrwyr Prifysgol Bangor, mae'n glir mai defnyddio cyfryngau cymdeithasol a gwefannau, yn ogystal â chnocio drysau llety myfyrwyr yw'r ffordd fwyaf effeithiol o godi ymwybyddiaeth.
- 7.5** Fel rhan o'r Ymchwiliad, gwnaethom ymgysylltu'n llwyddiannus â 26 o landlordiaid, a oedd yn onest ac yn agored am eu defnydd o'r gwasanaeth, eu rôl a'u hymgysylltiad â'u tenantiaid ar faterion gwastraff ac ailgylchu.
- 7.6** Mae gwaith ymchwil a wnaed gan yr Ymchwiliad wedi dangos rhaid cymryd agwedd mwy caled at droseddau amgylcheddol a symud i drefniadau caletach ar gyfer dirwyo. Mae'r argymhellion uchod yn cynnwys camau i wneud hynny gan gynnwys argymhelliad penodol i gyflwyno dirwy fel mater o flaenoriaeth i drigolion a busnesau sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir a hefyd argymhelliad i godi ymwybyddiaeth am trefniadau gwastraff ac ailgylchu fel bod pobl Gwynedd yn barod am y newid.
- 7.7** Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb fel rhan o'r Ymchwiliad. Mae'r Asesiad yn nodi nad yw'r argymhelliad o gyflwyno dirwy fel mater o flaenoriaeth i drigolion a busnesau sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir yn debygol o gael unrhyw effaith negyddol o sylwedd ar nodweddion cydraddoldeb cyn belled a bod gweithrediad i'r camau a nodwyd.

CYDNABYDDIAETH:

Mae aelodau'r Ymchwilaid Craffu yn dymuno diolch i'r canlynol wnaeth cyfrannu tystiolaeth a rhoi cefnogaeth werthfawr i'r ymchwiliad:

- Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)
- Peter Simpson (Rheolwr Gwasanaethau Stryd, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)
- Jennifer Rao (Swyddog Cefnogi Busnes, Swyddog Arweiniol yr Ymchwiliad, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)
- Lowri Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau, Swyddog Cefnogol yr Ymchwiliad, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)
- Y Cynghorydd Mair Rowlands, (Ward Menai ym Mangor)
- Y Cynghorydd Catrin Wager, (Ward Menai ym Mangor ac Aelod Cabinet dros yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)
- Y Cynghorydd Peter Read (Ward Abererch)
- Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr, Cyngor Gwynedd)
- Gwenllian Roberts (Swyddog Gwastraff ac Ailgylchu, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)
- John Clive Price (Swyddog Gorfodaeth Gwastraff a Strydoedd, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)
- Alan Hughes (Warden Gorfodaeth Stryd, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)
- Cara Owen (Rheolwr Cynllunio, Adran Amgylchedd)
- Carys Fôn Williams (Rheolwr Tai - Cyflenwad a Gorfodaeth, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
- Iwan Evans (Swyddog Iechyd Amgylchedd Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
- Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)
- Emma Quaeck (Rheolwr Rhaglen Dementia Go, Adran Oedolion Iechyd a Llesiant)
- Lois Owens (Swyddog Cefnogi Ymgysylltu, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)
- Delyth Gadlys Williams (Swyddog Polisi Corfforaethol, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)
- Uned Gyfieithu Cyngor Gwynedd
- Rhiannon Williams (Swyddog Marchnata, Rhentu Doeth Cymru)
- Gwen Holland (Swyddog Ymchwil Cynaliadwyedd a Chydlynnydd Gwastraff Campws, Prifysgol Bangor)

ATODIADAU

Atodiad 1 – Briff yr Ymchwiliad

Atodiad 2 – Enghreifftiau o Dystiolaeth

Atodiad 3 - Cyflwyniad gan Geraint Brython Edwards ar Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990) a'r darpariaethau sydd o fudd i'r Cyngor wrth daclo problemau gwastraff

Atodiad 4 – Cofnod Grŵp Ffocws gyda Myfyrwyr Prifysgol Bangor

Atodiad 5 – Holiadur Gwastraff ac Ailgylchu

Atodiad 6 – Canlyniadau'r Holiadur Gwastraff ac Ailgylchu

Atodiad 7 – Cofnod o'r Grŵp Ffocws gyda'r Grŵp Atal Codymau a'r Grŵp Ffocws gyda'r Grŵp Dementia Go

Atodiad 8 - Holiadur a Chanlyniadau'r Holiaduron gyda Landlordiaid

Atodiad 9 – Siart Llif ar Gweithred Arfaethedig Adran 46 a 47 Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990)

Atodiad 10 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Pwyllgor	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad	10 Hydref, 2017
Teitl	Gorfodaeth Gwastraff
Aelod Cabinet	Cynghorydd Gareth Wyn Griffith
Pwrpas	I sefydlu Tim Tasg o Aelodau'r Pwyllgor i ystyried y mater a chynghori'r Pwyllgor Craffu ar y ffordd ymlaen

1. CEFNDIR

- 1.1 Yn ei gyfarfod 2 Mawrth, 2017 bu i'r Cyngor fabwysiadu cynnig y cyn Aelod, y Cynghorydd Lesley Day, i ofyn i'r Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd i ystyried cyflwyno cosb fel mater o flaenoriaeth i drigolion sy'n gwaredu eu sbwriel ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir; a dylai'r mater gael ei adolygu gan y Pwyllgor Craffu erbyn mis Rhagfyr, 2017.
- 1.2 Yn ei ystyriaeth o'r cynnig, bu i'r cyn Aelod Cabinet, Cynghorydd John Wynn Jones nodi:
- bod rhaid bod yn ofalus iawn cyn cyflwyno dirwy neu gosb gan fod yna bobl sy'n oedrannus ac yn anghofus, neu ddim yn deall y system
 - bod gan y Cyngor hawl i ddirwyo pobl am roi'r deunydd anghywir yn y biniau anghywir neu am roi'r biniau allan ar y dyddiau anghywir, ond bod rhaid ystyried goblygiadau hynny i'r Cyngor
 - y byddai'n awgrymu bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar ei newydd wedd yn sefydlu ymchwiliad i'r mater fel un o'i swyddogaethau cyntaf.
- 1.3 Mae'r Adroddiad hwn i bwrpas cael cefnogaeth y Pwyllgor Craffu i sefydlu Tim Tasg o Aelodau'r Pwyllgor i edrych i mewn i'r mater ac i bwrpas cynghori'r Pwyllgor Craffu ar y ffordd ymlaen.

2. Y DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL

- 2.1 Mae'r hawl i gymeryd camau gorfodi ar droseddau yn ymwneud â chasglu gwastraff drwy ddefnydd cynhwysyddion eisioes wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol o dan Adrannau 46, 47, 47ZA a 47ZB o'r Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990.
- 2.2 O dan y Ddeddf, gellir cymeryd achos a gosod dirwyon lle mae:
- (i) cynhwysydd allan ar y diwrnod/amser anghywir
 - (ii) cynhwysydd allan yn y lleoliad anghywir
 - (iii) cynhwysydd allan ar y stryd drwy'r adeg
 - (iv) gormodedd o wastraff i'r cynhwysydd
 - (v) gwastraff yn y cynhwysydd anghywir.
- 2.3 Dylid nodi bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar yr Adrannau hyn o'r ddeddfwriaeth i bwrpas ei gwneud yn haws i'r Awdurdodau Lleol gymeryd camau gorfodaeth yn enwedig er mwyn sicrhau ailgylchu.

3. CYLCH GORCHWYL Y TÎM TASG

- 3.1 Bydd angen sefydlu cadeirydd a chytuno ar y cylch gorchwyl, ond awgrymir fel man cychwyn bod angen Tim Tasg o 3/4 Aelod o'r Pwyllgor Craffu i ymuno â swyddogion perthnasol i ystyried y mater mewn, dywed, 3 cyfarfod e.e.

Cyfarfod 1:	ystyried y ddeddfwriaeth, achosion hanesyddol, trefniadau siroedd eraill
Cyfarfod 2:	ymweld â lleoliadau problemus/enghreiffiau ar y stryd
Cyfarfod 3:	ystyried y dull priodol o weithredu, pryd i weithredu a phryd i beidio. Creu adroddiad ar y canlyniad i'r Pwyllgor Craffu

4. ARGYMHELLIAD

- 4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu am ei gefnogaeth i sefydlu Tim Tasg i'r pwrpas ac i enwebu Aelodau i'r Tim Tasg.

BINIAU ALLAN AR Y STRYD YN BARHAOL

Palmentydd cul - perygl i gerddwyr









Biniau allan ar strydoedd cefn preswyl distaw



Prif dramwyfeydd prysur - effaith negyddol ar ddelwedd ardal













Biniau masnachol o fewn ardaloedd twristiaeth a siopau - effaith negyddol ar ddelwedd ardal a'r economi leol





**CYFLWYNIAD I'R YMCHWILIAD CRAFFU GORFODAETH GWASTRAFF AR DDEDDFWRIAETH
YSTAFELL DWYRYD, PENRHYNDEUDRAETH, 6 GORFFENNAF 2018**

TROSOLWG

1. Pwrpas y cyflwyniad hwn yw darparu arweiniad ymarferol i aelodau pwyllgor craffu Cyngor Gwynedd ar y ddeddfwriaeth berthnasol mewn perthynas â'u hymchwiliad i orfodaeth gwastraff.
2. Mae'r ddeddfwriaeth ar orfodaeth gwastraff wedi ei chynnwys yn Neddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 ("y Ddeddf"). Mae'r Ddeddf hon yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sydd o fudd i'r Cyngor wrth daclo problemau gwastraff ar dir yn gyffredinol, gan gynnwys:
 - tipio slei bach (adran 33)
 - torri dyletswydd gofal mewn perthynas â gwastraff (adran 34)
 - cynhwysyddion gwastraff (adrannau 46, 47, 47ZA a 47ZB)
 - niwsans statudol (adrannau 79 ac 80)
3. Mae'r nodyn hwn yn canolbwyntio ar y broblem mae'r pwyllgor yn edrych arni, sef gwaredu sbwriel ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir. Tra bo posibilrwydd mewn egwyddor y gall digwyddiadau o'r fath arwain at gyflawni trosedd o dan adrannau 33 neu 34, neu fod yn gyfystyr â niwsans cyhoeddus o dan adrannau 79 y gellir erlyn yn ei gylch o dan adran 80, mae'r adrannau hynny yn rhai mwy cyffredinol sydd tu allan i sgôp y nodyn hwn. Yn hytrach, byddaf yn canolbwyntio ar y rhannau hynny o'r Ddeddf sydd wedi eu teilwra yn benodol i gyfarch y broblem dan ystyriaeth. Mae'r rhannau hynny yn ymdrin â "cynhwysyddion gwastraff", neu mewn iaith pob dydd, y biniau sbwriel rydych chi a fi yn gadael allan ar gyfer y dyn sbwriel unwaith yr wythnos/pythefnos/tair wythnos, yn ol yr achos.
4. Dyma'r adrannau o'r Ddeddf sy'n ymwneud yn benodol hefo cynhwysyddion gwastraff ac felly sydd fwyaf berthnasol i waredu sbwriel ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir:
 - Adran 46: cynhwysyddion gwastraff tŷ
 - Adran 47: cynhwysyddion gwastraff masnachol neu ddiwydiannol
 - Adran 47ZA: rhybuddion cosb penodedig
 - Adran 47ZB: swm y rhybudd cosb o dan adran 47ZA

ADRAN 46

5. Mae adran 46 yn ymdrin â chynhwysyddion gwastraff tŷ.
6. Mae isadran (1) yn dweud ble mae gan “awdurdod casglu gwastraff” (h.y. y Cyngor) ddyletswydd i gasglu gwastraff tŷ, gall roi rhybudd ffurfiol i’r preswilydd. Gall y rhybudd hwnnw ei wneud yn ofynnol i’r preswilydd roi ei wastraff allan ar gyfer casglu mewn cynhwysyddion. Gall hefyd nodi’r math a nifer o gynhwysyddion y mae gofyn eu defnyddio.
7. Mae isadran (2) yn dweud bod rhaid i’r math a nifer o gynhwysyddion sydd yn ofynnol o dan isadran (1) fod yn ddim mwy na’r hyn sy’n rhesymol. Er hynny, gall y gyfraith ei wneud yn ofynnol i’r preswilydd ddefnyddio cynhwysyddion arwahan neu cydrannau arwahan o’r un cynhwysydd ar gyfer gwastraff i’w ailgylchu a gwastraff na ailgylchir.
8. Mae isadran (3) yn dweud bod modd i’r awdurdod, pan yn gosod gofynion o dan isadran (1), benderfynu mai’r awdurdod sydd yn darparu’r cynhwysyddion (boed am ddim neu ar daliad) neu bod gofyn i’r preswilydd ddarparu’r cynhwysyddion eu hunain.
9. Mae isadran (4) yn darparu bod unrhyw rybudd o dan isadran (1) yn gallu cynnwys amodau o ran y canlynol:
 - maint, gwneuthuriad a gofynion cynnal a chadw’r cynhwysyddion;
 - lle dylid cadw’r cynhwysyddion at ddiben eu gwagio, a mynediad iddynt i’r diben hwnnw;
 - gosod cyhwysyddion at y diben hwnnw ar y briffordd;
 - y sylweddau neu eitemau y gellir ac na ellir eu rhoi mewn i gynhwysyddion neu gydrannau o gynhwysyddion, a’r rhagofalon y dylid eu cymryd ble rhoddir sylweddau neu eitemau penodol ynddynt;
 - y camau y dylai preswylwyr eu cymryd er mwyn hwyluso casglu gwastraff o’r cynhwysyddion.
10. Mae isadran (5) yn dweud na ellir gwneud gofyniad o dan isadran (1) i osod cynhwysyddion ar briffordd, oni bai bod yr “awdurdod priffyrdd” (h.y. y Cyngor eto) wedi rhoi caniatâd, a bod trefniadau yn eu lle o ran y cyfrifoldeb am unrhyw ddifrod a achosir yn sgil gosod y cynhwysyddion yno.
11. Mae isadran (6) yn ei wneud yn drosedd i berson sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un o’r gofynion a osodir gan y Cyngor o dan isadran (1), (3) neu (4). Y gosb uchafswm am y drosedd hon yw dirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol, h.y. £1000.

12. Mae isadran (7) yn dweud, lle mae gofyn i breswlydd ddarparu cynhwysyddion o dan isadran (1), gall y preswlydd hwnnw apelio yn erbyn y gofynion yn y Llys Ynadon ar y sail bod y gofyniad yn afresymol, neu bod y cynhwysyddion sydd ganddo yn addas.
13. Mae isadran (8) yn dweud bod angen cyflwyno apêl o fewn 21 diwrnod.
14. Mae isadran (9) yn dweud:
 - nid yw'r gofyniad sydd yn destun apêl yn weithredol tra bo'r apêl yn disgwyl penderfyniad;
 - mewn gwrandawriad apêl, gall y Llys naill ai ddiddymu'r gofyniad, neu ei wyro neu diddymu'r apêl (h.y gadael y gofyniad fel y mae);
 - nid yw afresymoldeb amod yn amddiffyniad mewn erlyniad am drosedd o dan isadran (6)
15. Mae isadran (10) yn darparu diffiniad ar gyfer rhai termau sy'n cael eu cynnwys yn adran 46.
16. Yn olaf, mae isadran (11) yn dweud bod dim gofyn i'r Cyngor gasglu gwastraff tŷ sydd yn cael ei osod ar gyfer casglu heb fod yn unol â gofynion adran 46.

ADRAN 47

17. Mae adran 47 yn ymdrin â cynhwysyddion gwastraff ar gyfer gwastraff masnachol neu ddiwydiannol.
18. Mae isadran (1) yn dweud bod modd i'r Cyngor, ar gais unrhyw berson, ddarparu'r person hwnnw hefo cynhwysyddion ar gyfer gwastraff masnachol neu ddiwydiannol y mae wedi gofyn i'r awdurdod eu casglu.
 - a. Os yw'r Cyngor yn darparu cynhwysydd o dan yr adran hon yna bydd gofyn iddo godi ffi (cyn belled ei fod yn resymol) am unrhyw gynhwysydd a ddarperir ar gyfer gwastraff diwydiannol.
 - b. Yn achos gwastraff masnachol, gall yr awdurdod godi ffi yn unol â'i ddisgresiwn.
19. Mae isadran (2) yn ymdrin â sefyllfa lle mae'n ymddangos i'r Cyngor bod gwastraff diwydiannol neu fasnachol yn cael ei gadw ar eiddo yn debygol o achosi niwsans neu beri niwed i amwynder y cylch os nad yw'n cael ei gadw mewn cynhwysydd arbennig. Yn yr amgylchiadau hynny gall y Cyngor gyflwyno rhybudd ar breswlydd yr eiddo yn gofyn iddo ddarparu cynhwysyddion ar gyfer cadw'r gwastraff.
20. Mae isadran (3) yn dweud bod rhaid i unrhyw ofyniad o dan isadran (2) o ran y math neu nifer o gynhwysyddion fod yn rhesymol.

21. Mae isadran (4) yn darparu bod unrhyw rybudd o dan isadran (2) yn gallu cynnwys amodau o ran y canlynol:
- maint, gwneuthuriad a gofynion cynnal a chadw'r cynhwysyddion;
 - lle dylid cadw'r cynhwysyddion at ddiben eu gwagio, a mynediad iddynt i'r diben hwnnw;
 - gosod cyhwysyddion at y diben hwnnw ar y briffordd;
 - y sylweddau neu eitemau y gellir ac na ellir eu rhoi mewn i gynhwysyddion neu gydrannau o gynhwysyddion, a'r rhagofalon y dylid eu cymryd ble rhoddir sylweddau neu eitemau penodol ynddynt;
 - y camau y dylai preswylwyr eu cymryd er mwyn hwyluso casglu gwastraff o'r cynhwysyddion.
22. Mae isadran (5) yn dweud na ellir gwneud gofyniad o dan isadran (2) i osod cynhwysyddion ar briffordd, oni bai bod yr awdurdod priffyrdd wedi rhoi caniatâd, a bod trefniadau yn eu lle o ran y cyfrifoldeb am unrhyw ddifrod a achosir yn sgil gosod y cynhwysyddion yno.
23. Mae isadran (6) yn ei wneud yn drosedd i berson sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion a osodir gan y Cyngor o dan isadran (2) neu (4). Y gosb uchafswm am y drosedd hon yw dirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol, h.y. £1000.
24. Mae isadran (7) yn dweud, lle mae gofyn i breswilydd ddarparu cynhwysyddion o dan isadran (2), gall y preswilydd hwnnw apelio yn erbyn y gofynion yn y Llys Ynadon ar y sail bod y gofyniad yn afresymol, neu bod y gwastraff yn anhebygol o achosi niwsans neu bod yn niweidiol i amwynderau'r cylch.
25. Mae isadran (8) yn dweud bod angen cyflwyno apêl o fewn 21 diwrnod.
26. Mae isadran (9) yn dweud:
- nid yw'r gofyniad sydd yn destun apêl yn weithredol tra bo'r apêl yn disgwyl penderfyniad;
 - mewn gwrandawriad apêl, gall y Llys naill ai ddiddymu'r gofyniad, neu ei wyro neu diddymu'r apêl (h.y gadael y gofyniad fel y mae);
 - nid yw afresymoldeb amod yn amddiffyniad mewn erlyniad am drosedd o dan isadran (6).
27. Mae isadran (10) yn darparu diffiniad ar gyfer rhai termau sy'n cael eu cynnwys yn adran 47.

ADRAN 47ZA

28. Mae adran 47ZA yn ymdrin â rhybuddion cosb penodol ar gyfer y troseddau o dan adrannau 46 a 47.
29. Mae isadran (1) yn dweud bod adran 47ZA yn berthnasol pryd bynnag fydd gan swyddog awdurdodedig reswm i gredu bod person wedi cyflawni trosedd o dan naill ai adran 46 neu 47.
30. Mae isadran (2) yn dweud bod modd i'r swyddog awdurdodedig gynnig i'r person y mae wedi ei ddal gyfle i waredu ar unrhyw gyfrifoldeb am gollfarn drwy talu cosb benodedig i'r Cyngor.
31. Mae isadran (3) yn dweud na all y Cyngor ddwyn achos erlyn yn erbyn person sydd wedi cael cynnig cosb benodedig tan 14 diwrnod ar ol dyddiad y rhybudd, ac ni all y person hwnnw gael ei ganfod yn euog o'r drosedd os yw'n talu'r gosb benodedig o fewn y cyfnod hwnnw.
32. Mae isadran (4) yn dweud bod rhaid i gosb benodedig gynnwys gymaint o fanylion ag yn anghenrheidiol er mwyn rhoi hysbysiad rhesymol o'r drosedd.
33. Mae isadran (5) yn dweud bod rhaid i gosb benodedig nodi'r cyfnod pa na fydd achos llys yn cael ei ddwyn ynglyn a'r achos, swm y gosb, a'r person a'r cyfeiriad y dylid gyrru'r taliad iddo.
34. Mae isadrannau (6) a (7) yn galluogi person i dalu'r swm drwy yrru taliad drwy'r post.
35. Mae isadran (8) yn ymdrin a ffurf y rhybudd cosb benodedig.
36. Mae isadran (9) yn galluogi'r prif swyddog cyllid i lunio tystysgrif yn cadarnhau os yw person heb dalu rhybudd cosb benodedig erbyn dyddiad cau penodol.
37. Mae isadran (10) yn darparu diffiniad ar gyfer rhai termau sy'n cael eu cynnwys yn yr adran. Mae hyn yn cynnwys beth yw "swyddog awdurdodedig" at ddibenion cyhoeddi rhybudd cosb benodedig. Yn gryno, gall gynnwys cyflogai o'r Cyngor, neu asiant allanol, neu cyflogai i'r asiant hwnnw, cyn belled a bod gan y cyflogai/asiant ayyb awdurdod ysgrifenedig y Cyngor i ymgymryd a'r swyddogaeth o gyhoeddi rhybuddion cosb.

ADRAN 47ZB

38. Mae adran 47ZB yn ymhelaethu ar faint o swm y gellir ei godi am rybudd cosb penodedig. Dyma'r ddau ddarn pwysicaf:
- a. Mae isadran (2) yn cadarnhau mai swm y gosb benodedig yw pa bynnag swm a bennir gan y Cyngor, neu os nad oes swm wedi ei nodi, £100.

- b. Mae isadran (3) yn caniatáu i'r Cyngor drin rhybudd cosb penodedig fel petai wedi cael ei dalu'n llawn os telir swm llai cyn diwedd cyfnod a nodir gan y Cyngor.

**GERAINT BRYTHON EDWARDS
GWASANAETHAU CYFREITHIOL
CYNGOR GWYNEDD
6 GORFFENNAF 2018**

Grŵp Ffocws Myfyrwyr Prifysgol Bangor: Ymchwiliad Craffu ar Orfodaeth Gwastraff (23/01/19)**8 Mynychwyr****Problemau gyda Thai Amlfeddiannaeth (HMOs)**

- Nid yw rhai preswylwyr yn ailgylchu mewn tai a rennir. Ymysg yr anawsterau o fyw gyda phobl newydd yw bod rhai yn gydwybodol ac eraill ddim - pwy sy'n cymryd cyfrifoldeb wedyn am ailgylchu a'r biniau?
- Problemau / cwestiynau ynglŷn â HMOs:
 - Sut fyddai'r Cyngor yn gwybod pwy sydd ddim yn ailgylchu'n iawn os oes 5-7 o bobl yn byw yn yr un fflat ac yn rhannu bin?
 - A fyddai'r Cyngor yn dirwyo'r eiddo neu'r unigolyn/unigolion?
 - Dylid cynnwys y landlord yn hyn os yw'r un tŷ yn parhau i dramgwyddo. Rhaid i'r landlord gymryd cyfrifoldeb am ddarparu'r biniau a rhoi gwybod i'w tenantiaid am drefniadau gwastraff ac ailgylchu.
 - Roedd y Grŵp yn anghytuno gyda dirwyo landlordiaid yn unig. Credir y byddai landlordiaid yn didynnu'r swm o'r blaendal ac na fyddai myfyrwyr yn gwybod tan ddiwedd tymor - sy'n golygu na fyddent yn dysgu o unrhyw gamgymeriadau.

Adran 46/47 Deddf yr Amgylchedd

- Nodwyd bod y myfyrwyr yn ffafrio gorfodaeth casglu sbwriel yn hytrach na dirwyon (a ddefnyddir fel math o wasanaeth cymunedol). Gallai weithio mewn ffordd debyg i ddirwyon goryrru e.e. gallwch dalu dirwy neu gymryd rhan mewn cyrch casglu sbwriel neu gellir gorfodi cyrch casglu sbwriel a rhoi dirwy. Fodd bynnag, a yw hyn yn bosib gyda deddfwriaeth? Nid yw myfyrwyr yn ystyried dirwy ariannol fel "cosb" oherwydd gellid disgwyl y byddent yn gofyn i'w rhieni dalu ar eu rhan. Awgrymwyd y byddai system orfodaeth sydd o fudd i'r gymuned yn well.
- Dylid cloriannu'r drosedd dros gyfnod o chwe mis fel bod gan bobl amser i gael trefn ar unrhyw broblemau. Awgrymwyd y dylai pobl dderbyn tri "rhybudd" cyn derbyn dirwy / gwasanaeth cymunedol.
- Mae problem gyda phobl yn cerdded heibio ac yn defnyddio biniau pobl eraill yn anghywir e.e. bocsys Kebab a bocsys pítsa ar ôl nosweithiau allan. Byddai'n annheg cosbi'r preswylwyr gan nad ydynt yn rhoi'r eitemau yn y cynwysyddion anghywir.
- Cwestiynwyd moeseg y Gwasanaeth. Mae yna wahaniaeth rhwng cosbi rhywun sy'n gadael eu biniau allan bob dydd o'i gymharu â rhywun sy'n gwneud ei orau ond yn rhoi'r eitemau anghywir yn y bin weithiau. Eglurwyd y byddai pob achos o droseddu yn cael ei ystyried yn unigol.
- Cwestiynwyd a ddylai'r Cyngor fod yn chwilota drwy finiau personol? A ddylai'r Cyngor hysbysu pobl y bydd Swyddogion ailgylchu allan rhwng dyddiad X ac Y ac yn targedu ardaloedd yn lle pobl?
- Nodwyd y dylid rhoi atgyfnerthiad cadarnhaol ar waith yn hytrach na chosbi. Byddai'n syniad gwobrwyo pobl gyda phwyntiau am ailgylchu'n gywir a rhoi eu henwau mewn het am gyfle i ennill gwobr bob rhyw ddeufis?
- Gallai pwysau grŵp cyfoedion helpu os oes un unigolyn yn achosi'r broblem - ceisio annog newid ymddygiad.

Problemau gyda Landlordiaid / Asiantaethau Landlord

- Nodwyd na ddarperir unrhyw finiau yn aml mewn llety preifat ac na ddarperir unrhyw wybodaeth ynglŷn â threfniadau gwastraff ac ailgylchu.
- Nododd myfyrwyr fod landlordiaid yn aml yn dweud wrth y Cyngor eu bod wedi darparu gwybodaeth ond ni throsglwyddir y wybodaeth hon yn aml i fyfyrwyr.

Calendrau

- Roedd y Myfyrwyr yn teimlo y dylai Bangor gael calendrau blynyddol (yn hytrach na chalendrau dwy flynedd) oherwydd bod myfyrwyr yn symud allan yn yr haf yn aml yn camleoli / colli calendrau. Yn anffodus, golyga hyn fod y tenantiaid newydd yn aml ddim yn ymwybodol o'r trefniadau gwastraff ac ailgylchu.
- Awgrymwyd y byddai sicrhau bod y calendrau ar gael drwy *App* yn syniad da, ond byddai angen hysbysebu hyn yn uniongyrchol i'r myfyrwyr. Pryder y byddai rhai yn lawrlwytho'r *app* i gael gwybodaeth benodol ac yna'n ei ddileu oherwydd problemau gyda storfa ffôn.
- Dylid targedu digwyddiadau megis Serendippedd, *Halls 2 Houses* er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r trefniadau.

Addysg

- Roedd teimlad y dylid rhoi mesurau yn eu lle i addysgu pobl - a thargedu'r ardaloedd sy'n tramgwyddo fwyaf yn gyntaf.
- Cydnabuwyd bod y rhai sy'n peidio cadw at y trefniadau yn y modd cywir yn ei wneud oherwydd eu bod yn anwybodus / ddim yn trafferthu ac nad ydynt yn ei wneud yn faleisus. Teimlwyd mai'r prif resymau am beidio â defnyddio'r trefniadau gwastraff ac ailgylchu'n gywir oedd oherwydd eu bod yn anwybodus / rhy ddiog i ailgylchu / ar frys ac ati.
- Nodwyd bod rhai pobl yn cael trafferth gyda phlastigion ac ymwybyddiaeth o beth ellir ac na ellir ei ailgylchu.

Myfyrwyr Tramor

- Nodwyd y gallai ailgylchu fod yn anodd i fyfyrwyr tramor. Byddai hyn yn bennaf oherwydd y ffaith bod y trefniadau yn newydd iddynt ac efallai na fyddent yn ymwybodol o beth ellir ei ailgylchu a gallai'r ieithoedd a ddefnyddir eu hystyried yn rhwyrstr hefyd. Fodd bynnag, petai'r Cyngor yn dechrau cyfieithu'r calendrau i ieithoedd amrywiol, byddai'n anodd penderfynu ar ba ieithoedd.
- Nodwyd hefyd na ddylai myfyrwyr tramor fod angen cyfieithiadau i'w ieithoedd cyntaf oherwydd eu bod yn astudio eu cwrs prifysgol yn y Saesneg ac yn gwybod mwy na'r hanfodion.

Syniadau Eraill

- Nodwyd y dylid cael cysylltiadau cryfach rhwng y Cyngor a'r Brifysgol.
- Gofynnwyd a yw'r Cyngor angen gorfodi Adran 46 os yw targedau ailgylchu'n cael eu diwallu ar hyn o bryd. Teimlwyd y dylid canolbwyntio ar wella sbwriel ar y stryd.
- Awgrymwyd y dylid hyrwyddo mwy / cynnal mwy o ymgyrchoedd er mwyn i unigolion weld y budd o personoli eu biniau.

Rhai ardaloedd lle adroddwyd problemau:

- **Stryd y Mynydd Bangor** – gallu bod yn anodd cadw biniau oddi ar y ffordd gan fod gan yr eiddo risiau sy'n atal pobl rhag symud y biniau.
- **Min yr Allt Bangor** - biniau yn aml yn cael eu gadael allan am ddyddiau ar ôl casgliad. Mae hyn yn achosi problemau blocio'r mynediad sydd ar rodfa esgynnol.
- **Y Cilgant Bangor** - problem gyda biniau yn cael eu dwyn.

Holiadur Gwastraff ac Ailgylchu

Bydd eich ymateb yn cael ei drin yn gyfan gwbl gyfrinachol yn unol â Deddf Diogelu Data (2018) ac ni fydd yn bosib eich adnabod o'ch ymatebion.

Os oes gennych gwestiynau pellach ynglŷn â'r holiadur yma, cysylltwch gyda Jennifer Rao ar (01766) 771000 / eichbarn@gwynedd.gov.uk



Rydym eisiau annog mwy o bobl y Sir i wneud defnydd llawn o'r gwasanaeth ailgylchu a chompostio am dri brif reswm:

- Yn bennaf, i leihau effaith negyddol ar ein hamgylchedd.
- Er mwyn lleihau costau i'r Cyngor gan fod ailgylchu a chompostio yn rhatach na chladdu mewn safleoedd tirlenwi.
- Er mwyn osgoi dirwyon a chostau sylweddol gan y Llywodraeth am gladdu sbwriel mewn safleoedd tirlenwi ac am fetu targedau ailgylchu a chompostio cenedlaethol.

Ar hyn o bryd mae rhaid i gynghorau Cymru ailgylchu neu gompostio 58% o'r holl wastraff sy'n cael ei gasglu o'n cartrefi. Bydd targed nesaf yn 64% erbyn Mawrth 2020.

Bellach mae rhaid i Gyngor Gwynedd annog llawer mwy ohonom i ailgylchu a chompostio ein gwastraff neu fel arall, gallai Cyngor Gwynedd gychwyn derbyn dirwyon ariannol sylweddol iawn.

1) Ydych chi'n defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu?

- Ydw
- Nac Ydw*

*Os yn ateb "Nac Ydw", nodwch pam os gwelwch yn dda:

2) Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu? – sef y cartgylchu neu bocs glas, y bin bach brown ar gyfer bwyd, y bin mawr brown ar gyfer gwastraff gardd, a'r bin mawr gwyrdd ar gyfer y gwastraff gweddilliol.

- Pob wythnos
- Weithiau*
- Ychydig iawn o ddefnydd*
- Dim defnydd*

***Os nad ydych yn gwneud defnydd llawn, beth sy'n eich rhwystro rhag gwneud defnydd llawn o'r gwasanaeth ailgylchu a chompostio wythnosol?**

(dewisiwch bob un sy'n berthnasol)

- Gormod o drafferth / dim amser _____
- Ailgylchu ddim yn bwysig i ni _____
- Trefn ddim yn addas ar gyfer ein cartref ni (tŷ teras/ grisiau/ dim lle i gadw'r 3 / 4 bin _____)
- Ddim yn deall y drefn _____
- Arall, nodwch os gwelwch yn dda _____

3) Ble ydych chi'n cadw'ch biniau ar ddiwrnodau pan nad ydynt yn cael eu casglu?

4) A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w wneud ynglŷn â'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu?

Mae'r cwestiynau nesaf yn ymwneud a'ch nodweddion cydraddoldeb. Mae'r holiadur yn ddiennw felly ni fydd yn bosib adnabod unrhyw un ac mi fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth er mwyn gweld a oes patrymau yn yr atebion gan e.e. bobl hŷn, neu bobl anabl. Mae croeso i chi dewis "gwell gennyf beidio â dweud" ar gyfer unrhyw un o'r cwestiynau.

1) Ydych chi'n ...

Dyn / Gwryw

Dynes / Benyw

Arall

Gwell gennyf beidio â dweud

2) Nodwch eich grŵp oedran os gwelwch yn dda:

16 - 24

25 – 44

45 – 64

65 – 84

85+oed

Gwell gennyf beidio â dweud

3) Nodwch eich cod post os gwelwch yn dda: _____

4) Mae Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod anabledd gan unigolyn os:

- a. Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a
- b. Bod gan y nam effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Gan ddefnyddio'r ddiffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?

Ydw

Nac Ydw

Gwell gennyf beidio â dweud

Diolch yn fawr am cwblhau'r holiadur.

Holiadur Gwastraff ac Ailgylchu

1. Ymatebion i'r holiadur


Derbyniwyd 23 o ymatebion i'r holiadur.

1.1. Cwestiwn 1: Ydych chi'n defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu?

Gweler fod y mwyafrif o ymatebwyr yn defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu (83%, N=19).

Gofynnwyd i'r rhai oedd wedi nodi 'na' (N=3) egluro eu hateb. Nododd 2 eu bod yn byw yn neuaddau'r Brifysgol, ac 1 ddim yn defnyddio'r trefniadau am eu bod yn cael traferth efo'r casgliadau ailgylchu.

Graff 1




1.2. Cwestiwn 2: Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu? - sef cartgylchu neu bocs glas, y bin bach brown ar gyfer bwyd, y bin mawr brown ar gyfer gwastraff gardd, a'r bin mawr gwyrdd ar gyfer y gwastraff gweddilliol.

Gweler fod y mwyafrif o ymatebwyr yn defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu **pob wythnos** (83%, N=19).

Gofynnwyd i'r rhai oedd ddim yn gwneud defnydd llawn o'r trefniadau (N=3) egluro eu hateb. Y rhesymau a roddwyd oedd:

- Byw yn safle Ffriddoedd, Prifysgol Bangor (1)
- Dim ond yn rhoi'r cartgylchu allan pan maent yn llawn (1)
- Colli bin / cartgylchu (1)

Graff 2



1.3. Cwestiwn 3: Ble ydych chi'n cadw'ch biniau ar ddiwrnodau pan nad ydynt yn cael eu casglu?

Derbyniwyd ymatebion amrywiol i'r cwestiwn yma.

Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn cadw'r biniau cefn neu ochr y tŷ (N=11).

Dyma oedd y problemau a nodir gan 2 o'r ymatebwyr:

- Dydi'r myfyrwyr ddim yn gwneud - tai / mynedfa / gardd / grisiau anaddas. (1)
- Grisiau yn broblem, dim lle i'w gadael a phasio, felly (cadw'r biniau) ar y stryd. (1)

Tabl 1

	Nifer
Cefn / ochr y tŷ	11
Blaen y tŷ	5
Nodi problem (gweler 1.3 uchod)	2
Ar y grisiau	1
Darn o dir	1
Safle ger y Neuadd (Prifysgol Bangor)	1
Dim ateb	2
Cyfanswm	23

1.4. Cwestiwn 4: A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w wneud ynglŷn â'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu?

Derbyniwyd ymatebion amrywiol i'r cwestiwn yma. Mae'r atebion wedi grwpio mewn i themâu penodol isod.

Tabl 2


Ansicr o ddeunyddiau i'w ailgylchu
Plastigion du
Batris
Rhai ddim yn siŵr o ganiau / plastig / gwydr
Problemau hefo'r cartgylchu / bocs
Dŵr yn mynd mewn i'r bocs ailgylchu
Gwydnwch y cart
Bin bwyd 23ltr ddim yn addas
Angen ffrâm newydd i'r cart
Angen biniau
Angen cart newydd
Trio ein gorau ond dyluniad y gardd / eiddo yn rhwystr
Pobl ddim yn cadw biniau
Rhaid gwneud rhywbeth am y biniau sydd ddim yn cael eu tynnu nôl fewn. Deall nad yw'n bosib casglu o'r cefn heb gael cerbydau newydd.
Arall / Amrywiol
Angen defnyddio'r ganolfan ar gyfer trefniadau diwedd tymor - llygod mawr yn broblem
Sbwriel ar ôl casglu (Llithfaen)
Mae pobl sy'n cerdded heibio yn defnyddio'r biniau

2. Ymatebwyr yn ôl oedran

2.1 Trosolwg

Mae nifer uwch o ymatebwyr **16-24** (N=11) a **65-84** (N=6) wedi ateb yr holiadur. Y rheswm dros hyn yw bod y grwpiau oedran yma wedi cael ei dargedu drwy Brifysgol Bangor a Chynhadledd Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd.

Graff 3



2.2 Cwestiwn 1

Er bod y sampl yn fach, roedd y **3** ymatebwyr wnaeth nodi nad oeddent yn defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu yn perthyn i'r grŵp oedran **16-24**.


2.3 Cwestiwn 2

Er bod y sampl yn fach, roedd pob un o'r ymatebwyr **65-84** (N=6) yn nodi eu bod yn defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu **pob wythnos**.

3. Ymatebwyr yn ôl Ardal Llesiant

3.1 Trosolwg

Mae nifer uchel o ymatebwyr (N=15) o ardal **Bangor** yn dilyn targedu myfyrwyr drwy'r Brifysgol.



3.2 Cwestiwn 1

Er oedd y sampl yn fach, roedd y **3** ymatebwyr wnaeth nodi nad oeddent yn defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu yn byw ym Mangor.

3.3 Cwestiwn 2

Nid oedd patrwm i'w nodi.

Grwpiau Ffocws Atal Codymau a Dementia Go: Ymchwiliad Craffu ar Orfodaeth Gwastraff**(08/02/19)****26 Mynychwyr****Cynhwysion / bocsys**

- Nododd nifer fawr o'r grŵp eu bod wedi sylwi bod y staff sy'n gwagio'r cartgylchu yn gosod y blwch uchaf y tu mewn i'r blwch canol unwaith y mae'r cart wedi ei wagio, a gofynnwyd pam bod hyn yn digwydd. Nodwyd fod y bocsys uchaf yn aml yn mynd yn sownd ac nid ydynt yn ddigon cryf i'w tynnu felly gofynnwyd a fyddai'n bosib i'r staff peidio â gwneud hyn? Awgrymwyd hefyd y gellid defnyddio sticer ar gyfer y rheiny nad ydynt am i'r cartgylchu gael ei gadael yn y ffordd yma ar ôl cael eu gwagio.
- Awgrym arall gan aelodau'r grŵp oedd y gellid cynnwys sticer / rhywbeth gweledol ar y cartgylchu a'r biniau i hysbysu'r staff casglu bod gan y cartrefi hyn broblemau meddygol / symudedd.
- Nododd nifer o unigolion nad ydynt yn gwybod sut i archebu biniau / cynhwysion ailgylchu newydd. Nid oeddent hefyd yn ymwybodol y gallant archebu blychau glas a chaeadau net.
- Nodwyd bod y biniau'n / cartgylchu'n fregus ac yn aml yn torri, a gofynnwyd faint mae hyn yn costio i'r Cyngor?
- Gofynnwyd un unigolyn os yw'n bosib cael mwy nag un bin gardd brown.

Deunyddiau Ailgylchu

- Nid oedd nifer yn siŵr o ble i roi rhai eitemau e.e. ym mha bos mae foil yn mynd? Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynghylch cartonau, potiau blodau a phlastigion du.
- Nodwyd fod pawb yn y grŵp yn defnyddio'r bin gwastraff bwyd a'r bocsys ailgylchu.
- Codwyd nifer o gwestiynau ynglŷn â phlastigion meddal. Roeddent yn ymwybodol na ellir ailgylchu plastig meddal a gofynnwyd a oes gan y Cyngor unrhyw syniadau neu fentrau ar gyfer y rhain yn hytrach na gwaredu yn y bin gwastraff gweddilliol.
- Roeddent yn hoffi'r taflenni gwybodaeth wedi'u lamineiddio oedd ar gael yn y sesiynau ac roedd yr unigolion yn y grŵp DementiaGo yn teimlo bod y rhain yn arbennig o ddefnyddiol gan eu bod wedi colli eu cof tymor byr.

Holiadur Landlordiaid

1. Ymatebion i'r holiadur

Derbyniwyd 26 o ymatebion i'r holiadur.

1.1. Cwestiwn 1: Sut ydych chi'n sicrhau bod eich tenantiaid yn gwneud defnydd llawn o Wasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Gwynedd?


Derbyniwyd ymatebion amrywiol i'r cwestiwn yma. Mae'r atebion wedi grwpio mewn i themâu penodol isod.

Dewisodd 26 o unigolion ymateb i'r cwestiwn yma (gyda rhai sylwadau yn disgyn i mewn i ddau themâu neu fwy).

	Nifer
Darparu biniau cywir / calendrau gwastraff	11
Cyfarfod wyneb yn wyneb / darparu pecyn croeso ar y cychwyn	4
Ddim yn gyfrifoldeb ar y landlordiaid	3
Tenant yn y tŷ ers blynyddoedd	3
Annog ailgylchu / gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol	3
Eu hatgoffa drwy ddefnyddio Grŵp Facebook	1
Cwmni allanol yn gyfrifol am rhentu	1
Sylw ddim yn berthnasol	3
Cyfanswm	29


1.2. Cwestiwn 2: A ydych chi'n ymwybodol y gellir gosod dirwyon am beidio ag ailgylchu'n gywir?

Er ei fod yn agos, gweler fod nifer uwch o'r ymatebwyr (N=14, 54%) yn ymwybodol y gellir gosod cosb am beidio ag ailgylchu'n gywir.



1.3. Cwestiwn 3: A ydych chi'n rhoi cyfarwyddiadau clir i'ch tenantiaid ar y rheolau ar gyfer ailgylchu a pha mor bwysig yw hi i gadw atynt?

Gweler fod y mwyafrif o ymatebwyr (N=16) wedi nodi eu bod yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'w tenantiaid.



Gofynnwyd i'r rhai oedd wedi ateb 'Ydw' (N=16) egluro eu hateb. Mae'r atebion wedi grwpio mewn i themâu penodol isod (gyda rhai sylwadau yn disgyn i mewn i ddau themâu neu fwy).

	Nifer
Cyfarwyddiadau llafar	9
Gwybodaeth ysgrifenedig / pamffled neu galendr Cyngor Gwynedd	6
Eu hatgoffa drwy tudalen Facebook	1
Cytundeb Tenantiaid	1
Dylai'r Cyngor ddarparu pamffled gwybodaeth	1
Cyfanswm	18


1.4. Cwestiwn 4: Ble mae eich tenantiaid yn cadw eu biniau / troli ar ddiwrnodau pan nad ydynt yn cael eu casglu, ac a oes gan eich eiddo lle penodol ar gyfer cadw biniau / troli?

Derbyniwyd ymatebion amrywiol i'r cwestiwn yma. Mae'r atebion wedi grwpio mewn i themâu penodol isod. (gyda rhai sylwadau yn disgyn i mewn i ddau thema neu fwy).

	Nifer
Cefn y tŷ / gardd gefn	10
Blaen y tŷ / gardd blaen	6
Shêd / garej / man penodol ar gyfer y biniau	6
Cegin / tu mewn i'r fflat	2
Probleu gyda lle cadw biniau	1
Sylw ddim yn berthnasol	3
Cyfanswm	28


1.5. Cwestiwn 5: A ydych yn ymwybodol y gellir gosod cosb ar gyfer gadael biniau / troliau allan ar y palmant ar ddiwrnodau pan nad ydynt yn cael eu casglu?

Er ei fod yn agos, gweler fod nifer uwch o'r ymatebwyr (N=14, 54%) yn ymwybodol y gellir gosod dirwy ar gyfer gadael biniau / troliau ar y palmant ar ddiwrnodau pan nad ydynt yn cael eu casglu.



1.6. Cwestiwn 6: A yw'ch tenantiaid yn cysylltu â chi ynglŷn â'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu?

Gweler fod y mwyafrif o ymatebwyr (N=25, 96%) yn nodi nad oedd eu tenantiaid yn cysylltu gyda hwy ynglŷn â'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu.




Gofynnwyd i'r sawl oedd wedi ateb 'Ydy' (N=1) egluro pa fath o ymholiad sydd ganddynt. Dyma oedd yr ymholiad:

“Pam mai dim ond unwaith pob tair wythnos mae'r Cyngor yn casglu gwastraff?” (Mae'r ymatebwr yn nodi ei fod yn egluro wrth y tenantiaid os ydyn nhw'n ailgylchu pob peth yna mae unwaith pob tair wythnos yn ddigon).”

1.7. Cwestiwn 7: Fel landlord, ydych chi'n ymwybodol bod Cyngor Gwynedd yn cynnig Gwasanaeth casglu gwastraff swmpus lle byddwn yn casglu eitemau mawr fel sofffa, rhewgell am ffi fach?

Gweler fod y mwyafrif o ymatebwyr (N=23) yn ymwybodol bod Cyngor Gwynedd yn cynnig Gwasanaeth casglu gwastraff swmpus.



1.8. Cwestiwn 8: A oes gennych unrhyw welliannau ar gyfer y gwasanaeth gwastraff ac ail-gychu? Nodwch eich sylwadau isod os gwelwch yn dda.

Dewisodd 14 o unigolion ymateb i'r cwestiwn yma.

Mae'r atebion wedi grwpio mewn i themâu penodol isod (gyda rhai sylwadau yn disgyn i mewn i ddau thema neu fwy).

	Nifer
Staff ddim gwagio/ malu'r biniau / problemau blerwch ar ôl y casgliad	5
Problemau gyda'r biniau – safon, angen labeli clir ag ansawdd y bagiau bin bwyd	3
Angen gwell trefniadau i ailgylchu plastig	2
Gwell cyfarwyddiadau / gwybodaeth ar bamffledi	1
Cosbi pobl / 'bin checks'	1
Hapus efo'r gwasanaeth	1
Angen Polisi diwrnod gwyntog	1

Oriau agor y canolfannau ailgylchu yn anaddas (10yb – 4yp)	1
Problem gyda'r bin yn bell o'r tŷ (ar ffarm)	1
Cyfanswm	16

1.9. Cwestiwn 9: A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w wneud ynglŷn â'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu? Nodwch eich sylwadau isod os gwelwch yn dda.

Dewisodd 10 o unigolion ymateb i'r cwestiwn yma.

Mae'r atebion wedi grwpio mewn i themâu penodol isod (gyda rhai sylwadau yn disgyn i mewn i ddau thema neu fwy)


	Nifer
Staff yn flêr / blerwch ar ôl casgliadau	3
Cyfrifoldeb y tenant i ailgylchu – nid y landlord	3
Gwasanaeth da yn Canolfan Ailgylchu Pwllheli	2
Anghytuno gyda tâl gwastraff gardd	2
Gellir casglu ailgylchu llai aml	1
Anodd ailgylchu a dim cymorth gan y Cyngor	1
Cyfanswm	12

2. Lleoliad a nifer o eiddo gan yr ymatebwyr

2.1 Lleoliad

Roedd nifer uchel o'r ymatebwyr (N=5) yn landlordiaid ar dai yn ardal Caernarfon.


Roedd y sampl yn rhy fach i'w gymharu yn llawn ond ar y cyfan ni welwyd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng ymatebion i'r holiadur o wahanol ardaloedd.



2.2 Nifer o eiddo

Roedd yr ateb yn amrywio rhwng 1 i 5 eiddo. Nododd y mwyafrif (N=11) mai un eiddo oedden nhw'n rhentu.

Roedd y sampl yn rhy fach i'w gymharu yn llawn ond ar y cyfan ni welwyd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng ymatebion i'r holiadur yn ôl nifer yr eiddo oeddent yn ei rhentu.



Yr Holiadur

Mae Cyngor Gwynedd eisiau annog mwy o bobl y Sir i wneud defnydd llawn o'r gwasanaeth ailgylchu a chompostio am dri brif reswm:

- Yn bennaf, i leihau effaith negyddol ar ein hamgylchedd.
- Er mwyn lleihau costau i'r Cyngor gan fod ailgylchu a chompostio yn rhatach na chladdu mewn safleoedd tirlenwi.
- Er mwyn osgoi dirwyon a chostau sylweddol gan y Llywodraeth am gladdu sbwriel mewn safleoedd tirlenwi ac am fethu targedau ailgylchu a chompostio cenedlaethol.

Ar hyn o bryd mae rhaid i gynghorau Cymru ailgylchu neu gompostio 58% o'r holl wastraff sy'n cael ei gasglu o'n cartrefi. Bydd targed nesaf yn 64% erbyn Mawrth 2020.

Bellach mae rhaid i Gyngor Gwynedd annog llawer mwy o drigolion i ailgylchu a chompostio ein gwastraff neu fel arall, gallai Cyngor Gwynedd gychwyn derbyn cosb ariannol sylweddol iawn.

Gofynnwn yn garedig i chi ateb y cwestiynau isod **fel landlord** gydag eiddo yng Ngwynedd.

- 1) Sut ydych chi'n sicrhau bod eich tenantiaid yn gwneud defnydd llawn o Wasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Gwynedd?
- 2) A ydych chi'n ymwybodol y gellir gosod dirwyon am beidio ag ailgylchu'n gywir?

Ydw / Nac Ydw

- 3) A ydych chi'n rhoi cyfarwyddiadau clir i'ch tenantiaid ar y rheolau ar gyfer ailgylchu a pha mor bwysig yw hi i gadw atynt?

Ydw / Nac ydw

Os ydych, sut ydych chi'n gwneud hyn?

- 4) Ble mae eich tenantiaid yn cadw eu biniau / troli ar ddiwrnodau pan nad ydynt yn cael eu casglu, ac a oes gan eich eiddo lle penodol ar gyfer cadw biniau / troli?
- 5) A ydych yn ymwybodol y gellir gosod dirwyon ar gyfer gadael biniau / troliau allan ar y palmant ar ddiwrnodau pan nad ydynt yn cael eu casglu?

Ydw / Nac Ydw

- 6) A yw'ch tenantiaid yn cysylltu â chi ynglŷn â'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu?

Ydy / Nac Ydy

Os Ydy, pa fath o ymholiadau sydd ganddynt?

- 7) Fel landlord, ydych chi'n ymwybodol bod Cyngor Gwynedd yn cynnig Gwasanaeth casglu gwastraff swmpus lle byddwn yn casglu eitemau mawr fel soffa, rhewgell am ffi rhesymol?


Ydw / Nac Ydw

- 8) A oes gennych unrhyw welliannau ar gyfer y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu? Nodwch eich sylwadau isod os gwelwch yn dda.

- 9) A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w wneud ynglŷn â'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu? Nodwch eich sylwadau isod os gwelwch yn dda.

Nodwch leoliad(au) eich eiddo, e.e Bangor, Tywyn a nifer yr eiddo rydych chi'n eu rhentu allan os gwelwch yn dda.

DEDF AMDDIFFYN YR AMGYLCHEDD 1990 - GWEITHRED ADRAN 46 a 47 - Arfaethedig



Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar, est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach

I Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Ymchwiliad Craffu ar Orfodaeth Gwastraff

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal ymchwiliad craffu i ystyried cyflwyno dirwy i drigolion a busnesau sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir ac sy'n gadael y cynhwysydd/biniau gwastraff ac ailgylchu allan ar y stryd drwy'r adeg. Mae sawl rhan o Wunedd yn dioddef yn sgil problemau a achosir gan bobl sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir.

Mae'r ddeddfwriaeth ar orfodaeth gwastraff wedi ei chynnwys yn Neddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 ("y Ddeddf"). Mae'r Ddeddf hon yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sydd o fudd i'r Cyngor wrth daclo problemau gwastraff ar dir yn gyffredinol, gan gynnwys cynhwysyddion gwastraff (adrannau 46, 47, 47ZA a 47ZB).

Dyma'r rhannau o'r Ddeddf sy'n ymwneud yn benodol hefo cynhwysyddion gwastraff ac felly sydd fwyaf perthnasol i waredu sbwriel ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir:

- Adran 46: cynhwysyddion gwastraff tŷ
- Adran 47: cynhwysyddion gwastraff masnachol neu ddiwydiannol
- Adran 47ZA: rhybuddion cosb benodedig
- Adran 47ZB: swm y rhybudd cosb o dan adran 47ZA

Mae gan y Cyngor hawl i gymryd camau gorfodi ar droseddau yn ymwneud â chasglu gwastraff o dan Adrannau 46/47 o'r Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990. O dan y Ddeddf, gellir cymryd achos a gosod dirwyon lle mae:

- i) Cynhwysydd allan ar y diwrnod anghywir
- ii) Cynhwysydd allan yn y lleoliad anghywir
- iii) Cynhwysydd allan ar y stryd drwy'r adeg
- iv) Gormod o wastraff i'r cynhwysydd
- v) Gwastraff yn y cynhwysydd anghywir.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Steffan Jones, Pennaeth yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Tachwedd 2018.
Fersiwn I

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

- Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau
- Cyngorwyr Cyngor Gwynedd
- Trigolion Gwynedd
- Busnesau Gwynedd

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?

Fel rhan o'r ymchwiliad, mae'r Gweithgor wedi cynnal ymweliadau safle er mwyn casglu tystiolaeth o'r sefyllfa bresennol. Wrth gasglu tystiolaeth, rydym hefyd wedi ymgysylltu gyda myfyrwyr Prifysgol Bangor, pobl sy'n byw gyda dementia, a phobl hŷn.

Hefyd mae'r Cyngor wedi cynnal ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus "Beth sy'n bwysig i chi" ac wedi ymgysylltu gyda nifer o grwpiau gyda nodweddion cydraddoldeb fel rhan o'r prosiect yma. Derbyniwyd nifer o sylwadau gan pobl Gwynedd ar y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu ac mae canlyniadau'r ymarferiad i'w gweld [yma](#)

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Fel Cyngor, rydym wedi casglu rhywfaint o wybodaeth ynglŷn â barn trigolion ar y trefniadau gwastraff ac ailgylchu, a gasglwyd fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu "Beth sy'n bwysig i chi" yn ystod Hydref 2018.

Derbyniwyd 2,478 o ymatebion gan unigolion i'r holiadur a fanteisiodd 38 o sefydliadau / busnesau ar y cyfle i lenwi holiadur. Cyflwynwyd 59 o opsiynau i'w gosod mewn un o 5 categori sef mwyaf pwysig, pwysig iawn, pwysig, eithaf pwysig a lleiaf pwysig. Er mwyn dadansoddi'r dewisiadau, rhoddwyd sgôr o 5 i'r gwasanaethau "mwyaf pwysig" i lawr i sgôr o 1 i'r gwasanaethau roedd wedi cael eu sgorio'r lleiaf pwysig. Cymerwyd sgôr cyfanswm yr holl ymatebion ar gyfer pob gwasanaeth i'n galluogi i'w rhoi mewn trefn yn ôl pwysigrwydd.

Mae trefn y gwasanaethau yn ôl pwysigrwydd pobl Gwynedd yn dangos bod "Casglu Gwastraff ac Ailgylchu" yn drydydd yn ôl eu cyfanswm sgôr.

Hefyd, roedd cyfle i ymatebwyr nodi unrhyw sylwadau pellach mewn blwch agored ar ddiwedd yr holiadur. Derbyniwyd 90 o sylwadau (yr ail mwyaf) ynghylch "angen gwell gwasanaeth hel sbwriel / baw ci / ailgylchu". Mae canlyniadau'r ymgynghoriad i'w gweld [yma](#)

Fel rhan o'r Ymchwiliad Craffu ar Orfodaeth Gwastraff, cynhaliwyd grŵp ffocws gyda myfyrwyr o Brifysgol Bangor i drafod eu defnydd o'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu. Nodwyd nid yw rhai myfyrwyr yn ailgylchu mewn tai a rennir. Ymysg yr anawsterau o fyw gyda grŵp o bobl newydd yw bod rhai yn gydwobodol ac eraill ddim. Nodwyd for problem gyda phobl yn cerdded heibio ac yn defnyddio biniau pobl eraill yn anghywir e.e. bocsys pítsa ar ôl nosweithiau allan. Yn ychwanegol, y neges a gafwyd yn gryf oedd nad yw landlordiaid yn cymryd cyfrifoldeb am rannu gwybodaeth am y trefniadau ailgylchu gyda myfyrwyr ac nad ydynt yn darparu digon o gyfleusterau ailgylchu. Roedd teimlad y dylid rhoi mesurau yn eu lle i addysgu pobl - a thargedu'r ardaloedd sy'n tramgwyddo fwyaf yn gyntaf. Cydnabuwyd bod y rhai sy'n peidio cadw at y trefniadau yn y modd cywir yn ei wneud oherwydd eu bod yn anwybodus / ddim yn trafferthu a nodwyd bod rhai pobl yn cael trafferth gyda phlastigion ac ymwybyddiaeth o beth ellir ac na ellir ei ailgylchu. Nodwyd y gallai ailgylchu fod yn anodd i fyfyrwyr tramor. Byddai hyn yn bennaf oherwydd y ffaith bod y trefniadau yn newydd iddynt ac efallai na fyddent yn ymwybodol o beth ellir ei ailgylchu a gallai'r iaith ffurfiol a ddefnyddir eu hystyried yn rhwystr hefyd.

Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda grŵp o unigolion sydd yn mynychu sesiynau DementiaGo yng Nghanolfannau Byw'n lach Gwynedd a grŵp ffocws gyda unigolion sy'n mynychu sesiynau atal codymau. Nododd nifer fawr o'r grŵp eu bod wedi sylwi bod y staff sy'n gwagio'r cartgylchu yn gosod y blwch uchaf y tu mewn i'r blwch canol unwaith y mae'r cart wedi ei wagio, a gofynnwyd pam bod hyn yn digwydd. Nodwyd fod y bocs uchaf yn aml yn mynd yn sownd ac nid ydynt yn ddigon cryf i'w tynnu felly gofynnwyd a fyddai'n bosib i'r staff peidio â gwneud hyn? Awgrymwyd hefyd y gellid defnyddio sticer ar gyfer y rheiny nad ydynt am i'r cartgylchu gael ei gadael yn y ffordd yma ar ôl cael eu gwagio. Nododd nifer nad oeddent yn siŵr o ble i roi rhai eitemau e.e. ym mha focs mae foil yn mynd?

Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynghylch cartonau, potiau blodau a phlastigion du. Nodwyd fod pawb yn y grŵp yn defnyddio'r bin gwastraff bwyd a'r bocsys ailgylchu. Codwyd nifer o gwestiynau ynglŷn â phlastigion meddal. Roeddent yn ymwybodol na ellir ailgylchu plastig meddal a gofynnwyd a oes gan y Cyngor unrhyw syniadau neu fentrau ar gyfer y rhain yn hytrach na gwaredu yn y bin gwastraff gweddilliol. Roeddent yn hoffi'r taflenni gwybodaeth wedi'u lamineiddio oedd ar gael yn y sesiynau ac roedd yr unigolion yn y grŵp DementiaGo yn teimlo bod y rhain yn arbennig o ddefnyddiol gan eu bod wedi colli eu cof tymor byr.

Hefyd fel rhan o'r ymchwiliad, dosbarthwyd holiadur yn ystod Ffair Groeso Prifysgol Bangor ac yng Nghynhadledd Pobl Hŷn Gwynedd a derbyniwyd 23 o ymatebion i'r holiadur.

Noder fod y mwyafrif o ymatebwyr yn defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu (83%, sef 19 o bobl). Penderfynwyd un ymatebydd i beidio ateb y cwestiwn.

Gofynnwyd i'r rhai oedd wedi nodi 'na' (3 o bobl) egluro eu hateb. Nododd 2 person eu bod yn byw yn neuaddau'r Brifysgol, ac eu bod nhw ddim yn defnyddio'r trefniadau am eu bod yn cael traferth efo'r casgliadau ailgylchu.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr "Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu?" - sef cartgylchu neu focs glas, y bin bach brown ar gyfer bwyd, y bin mawr brown ar gyfer gwastraff gardd, a'r bin mawr gwyrdd ar gyfer y gwastraff gweddilliol.

Noder fod y mwyafrif o ymatebwyr yn defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu pob wythnos (83%, sef 19 o bobl). Gofynnwyd i'r rhai oedd ddim yn gwneud defnydd llawn o'r trefniadau (3 o bobl) egluro eu hateb. Y rhesymau a roddwyd oedd: Byw yn safle Ffriddoedd, Prifysgol Bangor (1), Dim ond yn rhoi'r cartgylchu allan pan maent yn llawn (1), Colli bin / cartgylchu (1).

Gofynnwyd i'r ymatebwyr "Ble ydych chi'n cadw eich biniau ar ddiwrnodau pan nad ydynt yn cael eu casglu?" Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn cadw'r biniau cefn neu ochr y tŷ (11 o bobl). Derbyniwyd nifer o ymatebion i'r cwestiwn yma:

	Nifer
Cefn / ochr y tŷ	11
Blaen y tŷ	5
Nodi problem <ul style="list-style-type: none"> Dydi'r myfyrwyr ddim yn gwneud - tai / mynedfa / gardd / grisiau anaddas. (1) Grisiau yn broblem, dim lle i'w gadael a phasio, felly (cadw'r biniau) ar y stryd. (1) 	2
Ar y grisiau	1
Darn o dir	1
Safle ger y Neuadd (Prifysgol Bangor)	1

Dim ateb	2	
Cyfanswm	23	

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae'r Gweithgor wedi casglu dystiolaeth o nifer o ardaloedd ac wedi gwneud ymweliadau safle ym Mangor ac ym Mhorthmadog.

Nodwyd gan Aelodau'r Gweithgor fod y profiad o gael ymweld â gwahanol leoliadau wedi bod yn un gwerthfawr iawn i'r ymchwiliad. Nodwyd fod Bangor yn amlwg yn sefyllfa unigryw, bryderus. Porthmadog wedi amlygu "y norm".

Sylwadau am ymweliadau pellach:

- Gwastraff Gwledig – awgrym i gofnodi problemau a thynnu lluniau yn hytrach nag ymweld. Problemau yn codi ar hap, dim yr un dwysedd a Bangor.
- Bod 146 o leoliadau biniau cymunedol (ym Meirionnydd fwyaf). Y drefn ar y cyfan yn gweithio. Ymddengys cynnydd o ddefnydd yn yr Haf.
- Bod mwy o gwynion yn cael eu derbyn o dipio slei bach.

Cwblhawyd holiadur gyda myfyrwyr yn ystod yr wythnos groeso "wythnos y glas".

Gofynnwyd i'r myfyrwyr am eu hymwybyddiaeth o'r gwahanol liwiau ar y biniau ac os oeddent yn gwybod pa fathau o wastraff sy'n mynd ym mhob bin. Gofynnwyd hefyd a oeddent yn gwahanu eu gwastraff, os oeddent yn gwybod pryd y casglir eu biniau a hefyd gofynnwyd iddynt ble roedd eu biniau'n cael eu cadw ar ddiwrnodau pan nad yw'r biniau yn eu casglu.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Beth yw'r effaith fydd y polisi / gwasanaeth newydd neu'r newidiadau yn y polisi neu wasanaeth yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb.

Nodweddion	Sut fath o effaith? (dylech ddileu'r rhai amherthnasol)	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Negyddol	Negyddol - mae nifer o fyfyrwyr o dramor, sydd ddim yn defnyddio Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf yn byw yn ardal Bangor. Ar hyd o bryd, nid ydym yn creu taflenni a chalendrau mewn ieithoedd gwahanol ond byddwn yn gweithio gyda'r Undeb Myfyrwyr er mwyn sicrhau bod myfyrwyr o dramor yn deall y trefniadau gwastraff ac ailgylchu.
Yr iaith Gymraeg	Dim	Dim effaith, bydd popeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Anabledd	Positif a negyddol	<p>Negyddol - gallai gosod dirwyon heb ystyried anghenion gwahanol achosi problemau i bobl anabl sy'n ei chael yn anodd symud y biniau neu ddim yn deall y trefniadau. Hefyd mae angen ystyried pobl sy'n defnyddio BSL a'r rhai sydd yn methu defnyddio'r gwasanaeth yn y ffordd gywir oherwydd salwch.</p> <p>Positif - mae'r ymchwiliad yn cynnwys defnyddio pwerau ar gyfer y rhai sy'n gadael eu biniau allan ar y stryd trwy'r amser. Mae pobl anabl, yn arbennig defnyddwyr cadair olwyn yn cael hi'n anodd defnyddio'r palmentydd pan mae biniau'n achosi rhwystr. Dylai defnyddio'r hawliau achosi llai o rwystrau i'r bobl yma.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Casglu Arbennig ar gael yn bresennol i bobl sydd ddim yn gallu mynd â'u biniau neu focsys ailgylchu allan i'r man casglu oherwydd anabledd neu salwch. Mae trefniadau arbennig mewn lle ar gyfer casglu gwastraff clinigol yn wythnosol.</p> <p>Argymhellir y dylid cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Casgliadau Clinigol a'r Gwasanaeth Casglu Arbennig sydd ar gael i helpu pobl hŷn a phobl anabl i waredu eu gwastraff. Bydd modd gwneud hyn fel rhan o ymgyrch hyrwyddo ehangach.</p>
Rhyw	dim	Nid ydym wedi adnabod effaith
Oedran	Positif	<p>Positif - Mae'r ymchwiliad yn cynnwys defnyddio pwerau ar gyfer y rhai sy'n gadael eu biniau allan ar y stryd trwy'r amser. Mae rhai pobl hŷn a rhieni hefo pramiau yn cael hi'n anodd defnyddio'r palmentydd pan mae biniau'n achosi rhwystr. Dylai defnyddio'r hawliau achosi llai o rwystrau</p> <p>Gweler hefyd yr adran ar anabledd gan fod pobl hŷn yn fwy tebygol o fod yn anabl.</p>
Cyfeiriadedd rhywiol	dim	Nid ydym wedi adnabod effaith
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	dim	Nid ydym wedi adnabod effaith
Ailbennu rhywedd	dim	Nid ydym wedi adnabod effaith

Beichiogrwydd a mamolaeth	dim	Nid ydym wedi adnabod effaith. Mae trefniadau arbennig mewn lle ar gyfer casglu clytiau yn wythnosol.
Priodas a phartneriaeth sifil	dim	Nid ydym wedi adnabod effaith

3.2 Ydi'r polisi neu wasanaeth yn cael effaith ar eu Dyletswyddau Cyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith? (Dylid dileu'r rhai amherthnasol)	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Ydi	<p>Positif - mae'r sefyllfa bresennol yn dangos bod nifer o drigolion a busnesau yn gadael biniau allan yn barhaol ac yn achosi rhwystr ar ffyrdd a phalmentydd.</p> <p>Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd ac weithiau'n amhosibl i ddefnyddwyr cadair olwyn a phobl â phramiau i ddefnyddio'r palmentydd.</p> <p>Negyddol - mae rhaid rhoi rhywbeth yn ei le i sicrhau fod rhai grwpiau e.e. pobl anabl, pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg a Saesneg fel iaith gyntaf, pobl hŷn ddim yn cael eu heffeithio'n negyddol drwy derbyn dirwyon oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o'r trefniadau yn hytrach na diffyg cydymffurfio.</p>
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Fel yr uchod
Meithrin perthnasau da	Ydi	Bydd hyn yn cryfhau'r berthynas rhwng y grwpiau hefo nodweddion cydraddoldeb sy'n cael eu heffeithio gan y biniau allan ar y strydoedd drwy'r amser, a'u cymdogion ayyb.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

--

Ydy. Mae'r sefyllfa bresennol yn dangos bod nifer o drigolion a busnesau yn gadael biniau allan yn barhaol ac yn achosi rhwystr ar ffyrdd a phalmentydd.

Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd ac weithiau'n amhosibl i ddefnyddwyr cadair olwyn a phobl â phramiau i ddefnyddio'r palmentydd.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

Efallai na fydd rhai trigolion yn deall y trefniadau oherwydd bod y pamffledi a chalendrau yn anodd eu deall. Mae rhaid ystyried bod unigolion sydd â salwch penodol hefyd yn ei chael hi'n anodd dilyn y trefniadau. Byddwn yn ymgysylltu gyda phobl sy'n byw gyda dementia er mwyn darganfod be yw'r rhwystrau presennol.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewisiwch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	√
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

4.4 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd yr Adran yn ymgymryd ag ymgyrch hyrwyddo sirol i godi ymwybyddiaeth cyn gweithredu unrhyw newidiadau. Mae'n bwysig sicrhau fod pobl yn gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael yn barod e.e. y gwasanaeth casglu arbennig.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Byddwn yn diweddarau'r asesiad yn ôl yr angen wrth lunio'r polisi.

Eitem 9

ADRODDIAD I'R CABINET

Dyddiad	17 Medi 2019
Aelod Cabinet	Y Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid
Pwnc	Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Swyddog Cyswllt	Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2019/20 a blynyddoedd blaenorol.

1. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

Mae'r adroddiad yma yn adroddiad trosolwg rheolaidd am sefyllfa arbedion yn dilyn adroddiadau perfformiad yr Aelodau Cabinet unigol a gyflwynwyd yng Ngorffennaf.

Yn Strategaeth Ariannol y Cyngor ers 2015/16, mae gwerth £32m o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu yn ystod y cyfnod 2015/16 i 2019/20. Adroddir yma ar arbedion 2019/20, sydd werth £3,085,330 ynghyd a'r arbedion sydd eto i'w cyflawni o flynyddoedd blaenorol.

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, ac mae adroddiadau perfformiad yr Aelodau, sy'n cael eu cyflwyno yn rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet, yn manylu ar gynnydd y cynlluniau arbedion unigol o fewn eu portffolios, fel y mae'r sefyllfa ar y pryd. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

2. CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 – 2018/19

2.1 Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion oedd wedi ei osod iddynt o 2015/16 – 2018/19, cyfanswm o bron i £27m. Mae'n galonogol i mi allu adrodd bod dros £25m, neu 96%, o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu, a dim ond ychydig o lithriad gyda'r gweddill.

2.2 Mae'r llithriad yma yn bennaf ar rhai o gynlluniau 2017/18. Bu cynnydd yn ddiweddar gyda rhai o'r cynlluniau ond mae'r her o wireddu eraill yn parhau.

2.3 Mae dau gynllun sydd werth £205k gan yr Adran Addysg yn destun pryder, sef *Lleihau amser a/neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brechwast am ddim* ac hefyd *Cynyddu pris prydau ysgolion cynradd o £2.30 i £2.50*. Nid yw'r arbedion yn cael eu gwireddu ar y lefel yr oedd yr Adran wedi ei ragweld, ac mae'r Pennaeth a'r Aelod Cabinet yn ymwybodol o'r angen iddynt ddarganfod arbediad amgen.

- 2.4 Rhagwelir risgiau efo cyflawni gweddill yr arbedion ar bedwar o gynlluniau yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant sef *Awtomeiddio prosesau cyllidol yr Adran, Gwella effeithlonrwydd gweithwyr maes a Chomisiynu'n ddoeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl*. Yn ogystal, mae'r cynllun *Adolygu'r strwythurau a lleoliadau presennol y Gwasanaeth Tai* yn achosi pryder i gyflawni gweddill arbedion y cynllun. £181k yw cyfanswm targed sy'n weddill ar y pedwar cynllun. Bydd yn rhaid i'r Pennaeth a'r Aelod Cabinet ystyried cynnig cynlluniau arbedion amgen.
- 2.5 Mae risgiau sylweddol i gyflawni arbedion 2018/19 a'r blynyddoedd dilynol ar un cynllun gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd sef *Adolygiad Dechrau i'r Diwedd*. Mae'r cynllun wedi bod yn destun adolygiad gan ail ymweld â thybjaethau'r model 'Dechrau i'r Diwedd' gwreiddiol gan ei bod yn ymddangos fod arbedion ariannol o'r cynllun wedi bod yn rhy uchelgeisiol yn sgil newid yn yr hinsawdd bresennol yn y maes plant. Gyda phroffil poblogaeth plant mewn gofal wedi newid, cyfartaledd cost lleoliadau preswyl wedi cynyddu, ynghyd â chymhlethdod achosion. Mae yna gost ariannol uchel i'r Cyngor i gyllido lleoliadau preswyl i blant y tu allan i'r Sir oherwydd fod eu hanghenion yn gymhleth a dwys, ac nad oes modd adnabod lleoliadau i gyfarfod yr anghenion yn lleol ym mhob achos. Bydd angen i'r Adran ystyried newid trywydd canolbwyntio er mwyn ceisio datrsiad.

3. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2019/20

- 3.1 Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2019/20. O'r 123 o gynlluniau sydd wedi eu proffilio am y flwyddyn, mae 68 (gwerth dros £1.9m neu 36%) wedi eu gwireddu a 28 (gwerth £1.8m neu 34%) pellach ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae 24 o gynlluniau unai yn llithro neu gyda rhai risgiau i gyflawni a 3 cynllun sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet.
- 3.2 Nid yw'r cynllun *Cynyddu'r ffi am y clwb gofal cyn ysgol o £0.80 i £1* sydd gan yr Adran Addysg, yn gwireddu'r arbedion ar y lefel oedd yr Adran yn ei ragweld, gyda'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu diffyg o oddeutu £10k yn yr incwm.
- 3.3 Mae'r Adran Amgylchedd yn rhagweld y bydd rhai risgiau i gyflawni arbedion ar ddau gynllun sef *Cynyddu'r nifer meysydd parcio talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio* ac hefyd *Lleihau'r adnodd o fewn y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd*.
- 3.4 Mae gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gwerth £1m o gynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni. Bu oediad gyda 6 cynllun, gwerth £300k, ond bellach maent yn symud yn eu blaen. Mae'r Adran yn rhagweld rhai risgiau i gyflawni arbedion dau gynllun sef *Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn* (£510k) ac *Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwen ar draws y gwasanaeth* (£133.5k). Mae adnodd ychwanegol wedi ei roi mewn 3 ardal ac yn gobeithio penodi ymhellach trwy ddefnyddio adnodd y Bwrdd Iechyd a Chronfa Gofal Integredig (ICF), i gefnogi a chryfhau'r gwaith yma. Yn ogystal mae yna risgiau sylweddol i gyflawni arbedion y cynllun *Gwella effeithlonrwydd Gweithwyr Maes* (£75k) ac mae her sylweddol i gyflawni'r arbedion ar y cynllun *Comisiynu'n ddoeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl* (£60k). Er yr ymdrechion i gefnogi unigolion a

theuluoedd yn fwy effeithiol, mae'r galw am wasanaethau cefnogol yn cynyddu. Ar hyn o bryd mae'n edrych yn annhebygol y bydd y ddau gynllun yma yn cyflawni'r arbedion yn y dyfodol agos ac os o gwbl.

- 3.5 Un cynllun efo peth risg o gyflawni'r arbedion sydd gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yw'r cynllun *Cynyddu incwm gorfodaeth stryd drwy ddirwyo mwy o unigolion sy'n gollwng sbwriel*, gwerth £10k yn 2019/20. Mae gwaith pellach angen ei wneud er mwyn gweithredu'r cynllun.
- 3.6 Yn gyffredinol, mae'r cynnydd sydd wedi ei wneud i wireddu cynlluniau arbedion 2019/20 yn dderbyniol, ond mae arwyddion fod rhai trafferthion cyflawni yn cael eu hamlygu. Gan ein bod yn ceisio effeithio ar drigolion Gwynedd cyn lleied a phosib drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd, mae'n llawer anoddach na thorri gwasanaethau.

4. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2020/21 YMLAEN

- 4.1 Er gwybodaeth rhestrir arbedion newydd 2020/21 ymlaen, fesul Adran yn **Atodiad 3**. Bydd y cynlluniau unigol yn cael eu monitro yn ystod y flwyddyn, ond yn gynamserol i adrodd ar hyn o bryd.

5. CASGLIAD

- 5.1 Er bod rhai adrannau wedi gwireddu eu holl gynlluniau arbedion, mae'n anrffod bod gwireddu bron i £27.5m o arbedion ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol. Mae angen mwy o amser i gynllunio a gweithredu'n briodol ar rai cynlluniau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, rwyf yn fodlon gyda'r cynnydd sydd wedi ei wneud i wireddu cynlluniau arbedion y cyfnod hwn ac yn ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i geisio gwireddu'r cynlluniau sydd wedi llithro, a bydd yr holl Aelodau Cabinet yn parhau i fonitro'r sefyllfa, gan weithredu fel bo angen er sicrhau'r nôd.
- 5.2 Yn yr Hydref, bydd yr adrannau yn adrodd i'w Pwyllgor Craffu perthnasol ar sut y maent yn bwriadu dygymod gydag unrhyw ddiffyg sydd angen ei gyfarch yn eu cynlluniau arbedion.
- 5.3 Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion.

Barn yr Aelod Lleol

Dim yn berthnasol

Barn y Swyddogion Statudol

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau:

Atodiad 1 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 - 2018/19 fesul Adran

Atodiad 2 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2019/20 fesul Adran

Atodiad 3 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2020/21 ymlaen fesul Adran

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2018/19 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro £ - nifer		Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni £ - nifer		Cynlluniau sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet £ - nifer	Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Addysg Tud. 116	1,207,310	973,629	28,681	1	205,000	2	-	Mae bid wedi ei gyflwyno ar gyfer adnoddau ychwanegol i gyflymu'r gwaith ar gynllun <i>Ffordd Gwynedd - Uned Cyflogau a Chontractau</i> , ond yn y cyfamser mae'r Adran yn pontio'r diffyg o (£28,681). Nid yw'r cynllun i <i>Leihau amser a / neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brechwast am ddim i blant ysgolion cynradd</i> wedi ei wireddu, ac felly yn gorwario ac nid oes cynllun mewn lle i ariannu'r bwch. O ran y cynllun <i>Cynyddu pris pryddau ysgolion cynradd o £2.30 i £2.50</i> , mae'r sefyllfa diweddaraf yn awgrymu fod na ddiffyg gan fod niferoedd sy'n archebu cinio wedi gostwng ers i'r pris godi ym Medi 2017, ac felly nid yw'r cynllun yn gwireddu'r arbedion disgwylidig.
Ysgolion	4,037,000	3,738,010	298,990	1	-	-	-	Mae arbedion o £298,990 o arbedion 2017/18 wedi eu pontio am ddwy flynedd i'r ysgolion uwchradd gyda'r arbedion i'w gwireddu yn 2019/20.
Amgylchedd	2,334,323	2,334,323	-	-	-	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Cefnogaeth Gorfforaethol	1,707,178	1,707,178	-	-	-	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Cyllid	1,027,256	1,027,256	-	-	-	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Economi a Chymuned	2,394,432	2,394,432	-	-	-	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2018/19 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion	Cynlluniau wedi eu gwireddu	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro		Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni		Cynlluniau sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
			£	£	£ - nifer		£ - nifer		
Oedolion, Iechyd a Llesiant Tud. 117	5,579,141	5,348,141	50,000	1	181,000	4	-		Mae'r cynllun <i>Awtomeiddio prosesau cyllidol yr Adran</i> wedi rhan-gyflawni ac er mwyn cwrdd â'r diffyg o £64k mae angen ystyried os oes modd cyflawni'r arbediad trwy ddulliau amgen. O ran y cynllun <i>Gwaith effeithlonrwydd gweithwyr maes</i> gwerth cyfanswm o £113k (£38k yn 2017/18) efo risgiau sylweddol o gyflawni, ac mae penderfyniad wedi ei wneud i gadw staff ymlaen i wireddu arbedion ehangach. Mae yna risgiau sylweddol o wireddu arbedion y cynllun <i>Comisiynu'n ddoeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl</i> sef cyfanswm o £100k (£40k yn 2018/19), mae bwriad i adolygu'r sefyllfa pan fydd yr Adran yn ystyried ail-broffilio neu gyflwyno dulliau amgen o gyflawni. Yn y maes Tai mae'r cynllun <i>Adolygu'r strwythurau a lleoliadau presennol</i> wedi ei gyflawni'n rhannol, ond mae risgiau sylweddol i'w gyflawni'n llawn.
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2,301,798	2,051,518	-		250,280	1	-		Mae'r cynllun <i>Dechrau i'r Diwedd</i> wedi bod yn destun adolygiad. Gwelwyd newid dros y blynyddoedd diwethaf yn y math o achosion ac felly yr anghenion, a lleihad yng nghyfraniadau iechyd, gan nad yw'r mathau o achosion yn gymwys. Mae'r ffactorau yma wedi arwain at gynnydd yn y gôst net ar y Cyngor. Gwelwyd lleihad yn y nifer y nosweithiau plant mewn gofal sydd yn unol â'r rhagolygon hyd at ddiwedd 2017/18. Ond ers 2018/19 bu cynnydd yn y tueddiad ynghyd â newid yn natur yr angen ac felly mae risgiau sylweddol i gyflawni arbedion 2018/19 ymlaen. Bydd angen i'r Adran ystyried newid trywydd canolbwyntio er mwyn ceisio datrysiad.
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	5,044,250	4,926,250	33,000	1	-		85,000	1	Mae un cynllun yn llithro, gyda cynllun amgen i ail-strwythuro'r gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng yn cyfarch y gwahaniaeth. Mae'r cynllun <i>Trefniadau Fflyd</i> gwerth £85k, eto i dderbyn cymeradwyaeth y Cabinet.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2018/19 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion	Cynlluniau wedi eu gwireddu	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro		Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni		Cynlluniau sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
	£	£	£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		
Ymgynghoriaeth	387,000	387,000	-		-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	179,070	165,270	13,800	1	-		-		Mae llithriad ar y cynllun <i>Arbedion yng nghyllideb y Crwner</i> gwerth £13.8k gan ei fod yn seiliedig ar ragamcaniad a wnaethpwyd rhai blynyddoedd yn ôl ond sydd heb ddigwydd eto.
Is-gyfanswm	26,198,758	25,053,007	424,471	5	636,280	7	85,000	1	
Arbedion Rheolaethol	434,960	434,960	-		-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
CYFANSWM	26,633,718	25,487,967	424,471	5	636,280	7	85,000	1	Yn nhermau ariannol (£), mae 96% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2018/19 wedi eu gwireddu.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2019/20 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2019/20		Cynlluniau wedi eu gwireddu		Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol		Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni		Cynlluniau sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
	£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		
Addysg	314,840	4	23,970	2	247,870	1	43,000	1	-		Nid yw'r cynllun <i>Cynyddu'r ffi am y clwb gofal cyn ysgol o £0.80 i £1 gwerth £43k</i> , yn gwireddu'r arbedion ar y lefel oedd yr Adran wedi ei ragweld, gyda'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu diffyg o oddeutu £10k yn yr incwm.
Amgylchedd	451,560	18	234,060	11	47,500	4	40,000	2	130,000	1	Mae'r Adran yn rhagweld risgiau i gyflawni y cynllun arbedion <i>Cynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio</i> gwerth £37.5k, yn 2019/20 ac hefyd cynllun <i>Lleihau'r Gyllideb o fewn y Gwasanaeth Polisi Cynllunio</i> gwerth £2.5k. Mae'r cynllun <i>Teithio Staff</i> gwerth £130k, eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet.
Cefnogaeth Gorfforaethol	405,450	13	375,450	12	-		-		30,000	1	Mae'r cynlluniau arbedion sydd wedi eu proffilio ar gyfer 2019/20 eisioes wedi eu gwireddu gyda'r cynllun <i>Uno Dysgu a Datblygu ac Uned Datblygu Gweithlu</i> gwerth £30k, eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet.
Cyllid	558,650	19	285,210	13	269,690	5	3,750	1	-		Mae mwyafrif o gynlluniau'r Adran unai wedi eu gwireddu neu ar drac i gyflawni'n amserol cyn ddiwedd y flwyddyn ariannol gyda un cynllun sef <i>Trefn slipiau electronig cyflog i bawb</i> gwerth £3.75k, yn symud yn ei flaen.
Economi a Chymuned	311,080	12	211,080	6	37,500	1	62,500	5	-		Mae amrediad o gynlluniau'r Adran unai wedi eu gwireddu neu ar drac i gyflawni'n amserol cyn ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r 5 sy'n weddill, sef 3 cynllun sy'n ymwneud â pharcio (<i>Cysoni ffioedd i safleoedd newydd, sefydlu ffioedd yn Dinas Dinlle ac hefyd Adolygu ffioedd a threfniadau yn Storiell</i>), <i>Cynyddu'r ffi i ysgolion am y gwasanaeth Archifau a Dileu 1 swydd o Wasanaeth Twristiaeth a Marchnata</i> i gyd yn symud yn eu blaen.

Adran	Cyfanswm Arbedion 2019/20		Cynlluniau wedi eu gwireddu		Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol		Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni		Cynlluniau sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
	£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		
Oedolion, Iechyd a Llesiant	1,465,000	16	335,000	4	51,500	2	1,078,500	10	-		Bu oediad gyda 6 cynllun, gwerth £300k, ond bellach yn symud yn eu blaen. Mae'r Adran yn rhagweld rhai risgiau i gyflawni arbedion dau gynllun sef <i>Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn</i> (£510k) ac <i>Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwen ar draws y gwasanaeth</i> (£134k). Yn ogystal mae yna risgiau sylweddol i gyflawni arbedion y cynllun <i>Gwella effeithlonrwydd Gweithwyr Maes</i> (£75k) a'r cynllun <i>Comisiynu'n ddoeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl</i> (£60k).
Plant a Chefnogi Teuluoedd	272,790	9	146,820	6	6,150	2	119,820	1	-		Mae 6 cynllun wedi eu gwireddu'n llawn a 2 ar drac i gyflawni'n amserol. Mae'r <i>Cynllun Dechrau i'r Diwedd</i> yn llithro, ac felly bydd yr Adran angen ystyried newid trywydd canolbwyntio er mwyn ceisio datrysiaid.
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	485,850	14	85,000	4	305,350	5	47,500	4	48,000	1	Llithrad mewn cyflawni arbedion 3 cynllun ond yn symud yn eu blaen ac yn gobeithio gwireddu'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r Adran yn rhagweld rhai risgiau i gyflawni arbedion ar y cynllun <i>Cynyddu incwm gorfodaeth stryd drwy ddirwyo mwy o unigolion sy'n gollwng sbwriel</i> , gwerth £10k yn 2019/20. Mae gwaith pellach angen ei wneud er mwyn gweithredu'r cynllun yma. Mae'r cynllun <i>Trefniadau Fflyd</i> gwerth £48k, eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet.
Ymgynghoriaeth	126,500	7	34,500	2	92,000	5	-	-	-	-	Mae 2 gynllun wedi eu gwireddu'n llawn ac mae'r 5 sy'n weddill ar drac i gyflawni'n amserol.
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	188,310	8	188,310	8	-	-	-	-	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Arbedion Rheolaethol	765,400	3	-	-	765,400	3	-	-	-	-	Yr arbedion ar drac i gyflawni'n amserol.
CYFANSWM	5,345,430	123	1,919,400	68	1,822,960	28	1,395,070	24	208,000	3	Yn nhermau ariannol (£), mae 36% o gynlluniau arbedion 2019/20 eisioes wedi eu gwireddu a 34% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2020/21 YMLAEN FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2020/21 ymlaen £ - nifer		Proffil							
			2020/21 £ - nifer		2021/22 £ - nifer		2022/23 £ - nifer		2023/24 £ - nifer	
Addysg	280,560	3	215,560	2	65,000	1	-		-	
Amgylchedd	449,080	23	306,950	16	129,630	6	12,500	1	-	
Cefnogaeth Gorfforaethol	413,250	11	195,500	7	117,750	3	100,000	1	-	
Cyllid	236,800	10	111,800	6	100,000	3	25,000	1	-	
Economi a Chymuned	380,000	11	175,000	8	166,250	2	38,750	1	-	
Oedolion, Iechyd a Llesiant	1,427,380	16	953,250	10	274,130	5	200,000	1	-	
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,113,520	7	326,310	3	483,620	2	279,750	1	23,840	1
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	1,125,000	26	326,250	15	611,250	7	187,500	4	-	
Ymgynghoriaeth	59,500	3	59,500	3	-		-		-	
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	19,060	3	19,060	3	-		-		-	
CYFANSWM	5,504,150	113	2,689,180	73	1,947,630	29	843,500	10	23,840	1

Eitem 10

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	17 Medi 2019
Aelodau Arweiniol:	Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddogion Cyswllt:	Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid
Teitl:	Cytundeb Cyllideb Gyfun ar gyfer Llety Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn 2019-2020

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Mae'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y camau a gymerwyd yn rhanbarthol i sicrhau cydymffurfriad â'r gofyniad cyfreithiol i sefydlu a chynnal cronfa gyfun ('pooled fund') ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal i bobl hŷn.
- 1.2 Mae'n ceisio sicrhau cymeradwyaeth yr Aelodau i sefydlu un gronfa gyfun ranbarthol nad yw'n rhannu risg ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal i bobl hŷn, i gael ei letya gan Gyngor Sir Ddinbych am dair blynedd.
- 1.3 Mae'n ceisio sicrhau awdurdodiad i gadarnhau a llofnodi ar ran y Cyngor, gytundeb cyfreithiol a baratowyd am dymor o dair blynedd i adlewyrchu'r trefniadau cytûn i sefydlu, gweinyddu a llywodraethu'r gronfa gyfun.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Cynghori ar y dull rhanbarthol arfaethedig o gyflawni'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â sefydlu a chynnal cronfa gyfun ranbarthol ar gyfer llety cartrefi gofal yn unol â'r dyletswyddau a osodwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") a Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 ("rheoliadau 2015").
- 2.2 Mae angen penderfyniad sy'n cefnogi'r dull rhanbarthol o sefydlu cronfa gyfun nad yw'n rhannu risg (i'w letya gan Sir Ddinbych ar ran chwe Chyngor Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) o ran gwariant rhanbarthol ar swyddogaethau llety cartrefi gofal i bobl hŷn.

2.3 O ystyried gwerth y gronfa gyfun, mae angen awdurdod y Cabinet i'r Awdurdod Lleol gadarnhau ac ymrwymo i'r cytundeb a baratowyd i reoleiddio ein perthynas barhaus â'n Partneriaid o ran sefydlu a gweithredu'r gronfa gyfun.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod cynnwys yr adroddiad hwn yn cael ei nodi.

3.2 Bod yr Aelodau'n nodi'r cynnydd a wnaed yn rhanbarthol o ran bodloni gofynion Rhan 9 Deddf 2014, sy'n cynnwys gofyniad cyfreithiol i sefydlu cronfa gyfun ranbarthol ar gyfer llety cartrefi gofal i bobl hŷn.

3.3 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo sefydliad cronfa gyfun nad yw'n rhannu risg ar gyfer llety cartrefi gofal i bobl hŷn fel y nodir yn yr adroddiad hwn, gyda Chyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel awdurdod lletya, ac i'r trefniadau fod yn weithredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.

3.4 Bod yr Aelodau'n rhoi cymeradwyaeth i'r Cyngor ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chwech awdurdod lleol Gogledd Cymru, i reoleiddio sefydliad, gweithrediad a threfniadau llywodraethu'r gronfa gyfun am gyfnod o dair blynedd.

4. **Manylion yr adroddiad**

4.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod Rhan 9 o Ddeddf 2014 yn darparu bod rhaid sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd y Byrddau hyn yn dod ag iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a phartneriaid eraill ynghyd i ddatblygu integreiddiad effeithiol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Er y bydd gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyfrifoldebau strategol a goruchwylio mewn perthynas â hyrwyddo'r defnydd o drefniadau'r gronfa gyfun, cyfrifoldeb y partneriaid eu hunain yw sefydlu, datblygu a gweithredu unrhyw drefniadau cyllideb gyfun.

4.2 Bydd yr Aelodau'n cofio bod Cytundeb Integreiddio eisoes wedi cael ei gefnogi gan Gyngor Gwynedd a Chynghorau eraill Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Nod y Cytundeb Integreiddio yw nodi dull y partneriaid o weithio'n integredig a darparu fframwaith sy'n amlinellu sut y gellir cyflawni integreiddiad yn y rhanbarth (gan gynnwys cyfuno unrhyw gronfeydd). Cyfuno cronfeydd ar gyfer comisiynu llety cartrefi gofal (nyrsio a phreswyl fel ei gilydd) yw un o'r meysydd a nodwyd ar gyfer integreiddio a chyfuno cronfeydd o fewn y Cytundeb Integreiddio.

- 4.3 Mae Rheoliadau 2015 wedi bod yn destun newidiadau a diwygiadau gan Lywodraeth Cymru ers eu deddfiad gwreiddiol. Mae'r rheoliadau'n gofyn i gyrff partner wneud cyfraniad bob blwyddyn ariannol (gan gychwyn gyda'r flwyddyn ariannol sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2019) i gronfa gyfun ranbarthol, mewn perthynas ag ymarfer eu swyddogaethau llety cartrefi gofal i bobl hŷn. Rhaid i'r cyfraniadau hyn fod yn gymesur â gwariant blynyddol disgwylidig pob Partner ar leoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal.
- 4.4 Diben y trefniadau cronfeydd cyfun yw annog Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gydweithio er mwyn dylanwadu cymaint ag sy'n bosib ar ddatblygiad gwasanaethau yn y dyfodol, a sicrhau bod y gwasanaethau'n gynaliadwy yn y tymor hir ac yn gallu ymateb yn hyblyg i alw lleol.
- 4.5 Mae Swyddogion Cyllid y chwech Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd wedi symud ymlaen gyda'r gwaith o ddatblygu cyllideb gyfun nad yw'n rhannu risg ar gyfer Gogledd Cymru. Bydd y gronfa gyfun yn canolbwyntio ar gostau llety gofal i bobl hŷn (dros 65 oed, ac eithrio gwasanaethau mewnol). Cadarnhawyd mai gwariant cyffredinol y rhanbarth yn 2018/2019 oedd £111m (£90m wedi tynnu ffioedd a chyfraniadau).
- 4.6 Ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-2020, cynigir sefydlu un gyllideb gyfun ranbarthol nad yw'n rhannu risg ar gyfer Gogledd Cymru. Byddai'r trefniant yn mynd ar waith o 1 Ebrill 2019 ymlaen. Cytunwyd y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn lletya'r trefniadau, felly'n gweithredu'r gronfa gyfun ar ran y partneriaid i gyd.
- 4.7 Ni fydd unrhyw swyddogaethau'n cael eu dirprwyo fel rhan o'r trefniant cronfa gyfun. Golyga hyn y bydd pob partner yn cadw cyfrifoldeb unigol llawn am gyflawni eu dyletswyddau statudol o ran comisiynu a darparu gwasanaethau llety cartrefi gofal. Bydd pob Partner yn parhau i fod yn gyfan gwbl gyfrifol am eu cyllidebau a'u gwariant eu hunain yn hyn o beth. Fodd bynnag, bydd y gronfa gyfun yn adlewyrchu gwariant gwirioneddol pob partner ar swyddogaethau llety cartrefi gofal drwy drafodion chwarterol, pan fydd gwariant pob partner dros y chwarter hwnnw'n cael ei godi ar y gyllideb gyfun a'i wrthbwysu yn erbyn cyfraniadau pob partner i'r gronfa bob chwarter.
- 4.8 Bydd trefniadau adrodd am weithrediad y gyllideb gyfun yn cynnwys adroddiad chwarterol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a bydd pob sefydliad partner yn pennu eu trefniadau adrodd mewnol eu hunain.
- 4.9 Mae cytundeb cyfreithiol ysgrifenedig wedi cael ei ddatblygu i danategu'r trefniadau cronfa gyfun arfaethedig ar gyfer llety cartrefi gofal i bobl hŷn, fel y'i amlinellir yn yr adroddiad hwn. Mae pob un o chwech awdurdod lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhan o'r Cytundeb, gyda Chyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel partner lletya sy'n gweinyddu'r gronfa gyfun. Mae'r Cytundeb yn amodi bod rhaid cyflwyno adroddiad ariannol chwarterol i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Bydd rhaid i bob sefydliad gadarnhau a gweithredu'r Cytundeb yn unol â'u trefniadau llywodraethu mewnol eu hunain.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae sefydlu cronfa gyfun arfaethedig a chytuno i'r cytundeb cyfreithiol a baratowyd yn cefnogi'r blaenoriaethau corfforaethol canlynol:

- (a) Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid;
- (b) Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion;
a
- (c) Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo a chanddynt y sgiliau i wneud hynny.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig ag ymrwymo i'r cytundeb. Mae'r cytundeb yn darparu'r fframwaith rheoleiddiol a llywodraethu ar gyfer sefydlu un gronfa gyfun ranbarthol ar gyfer Gogledd Cymru am gyfnod o dair blynedd. Bydd y trefniant yn golygu bod pob sefydliad partner yn darparu cyfraniadau i'r gronfa gyfun sy'n gyfwerth â'r costau y maent yn mynd iddynt. Felly ni fydd risgiau'n cael eu rhannu ym mlwyddyn gyntaf y trefniant hwn, nac unrhyw draws-gymhorthdal rhwng y partneriaid.

6.2 Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel awdurdod lletya ar gyfer y gronfa gyfun ranbarthol am gyfnod y cytundeb. Bydd y trefniadau lletya yn cael eu hadolygu gan y partneriaid, yn unol â thelerau'r cytundeb cyfreithiol, fel rhan o ddatblygiad trefniadau'r gronfa gyfun ar gyfer blynyddoedd ariannol i ddod.

6.3 Bydd cyfraniad o £20k o gronfa drawsnewid a weinyddir yn rhanbarthol yn cael ei dalu i Sir Ddinbych i gydnabod cost lletya'r gronfa ar ran y partneriaid.

7. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

7.1 Mae Swyddogion Cyllid wedi bod yn gweithio'n rhanbarthol ers rhai misoedd yn casglu gwybodaeth ariannol berthnasol gan bob partner, ac yna'n datblygu model cyllideb gyfun nad yw'n rhannu risg. Mae'r trafodaethau wedi cynnwys swyddogion cyllid statudol pob partner, sydd wedi cytuno ar y ffordd ymlaen arfaethedig.

7.2 Mae Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ar ddatblygiad y trefniant cronfa gyfun.

7.3 Mae'r cytundeb arfaethedig wedi cael ei ddosbarthu i gynrychiolwyr cyfreithiol pob partner i'w ystyried.

7.4 Rhaid i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, sydd â chyfrifoldebau goruchwylio strategol am drefniadau partneriaeth o dan Ddeddf 2014, hefyd hyrwyddo sefydliad cronfeydd gyfun lle bo hynny'n briodol.

8. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 8.1 Mae'r gofyniad i sefydlu a chynnal cronfa gyfun ranbarthol yng Ngogledd Cymru ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal yn ofyniad cyfreithiol sydd wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth, sef Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") a Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 ("rheoliadau 2015").
- 8.2 Mae'r cytundeb atodol yn darparu fframwaith sy'n cynnig cysondeb, eglurder a diogelwch i bob Partner mewn perthynas â sefydlu, gweithredu a llywodraethu'r gronfa gyfun, na fydd, ar hyn o bryd, yn rhannu risg. Mae'r Cytundeb yn para am gyfnod o dair blynedd o'i gychwyn ac felly bydd angen i'r trefniadau gael eu hadolygu'n drylwyr cyn diwedd y tymor o dair blynedd. Yn unol â hynny, bydd y partneriaid yn elwa ar fframwaith clir i weithredu o'i fewn am gyfnod o dair blynedd, ond mae ganddynt hefyd gyfle i ddatblygu'r trefniant ymhellach yn y dyfodol gyda chytundeb rhwng y partneriaid.

9. Grym i wneud y Penderfyniad

- i. Adrannau 166-167 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- ii. Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015
- iii. Rhan 9 Canllaw Statudol (Trefniadau Partneriaeth)
- iv. Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000

Barn Swyddog Cyllid Statudol:

Mae datblygu cronfa nad yw'n rhannu risg, sy'n cynnwys trafodion ariannol, yn cael ei gynnig er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol.

Barn y Swyddog Monitro:

Mae'r gofyniad i sefydlu a chynnal cronfa gyfun ar gyfer swyddogaethau llety gofal yn ofyniad cyfreithiol sydd wedi ei osod drwy ddeddfwriaeth ar y Cyngor. Fel y nodir, mae'r adroddiad yn argymhell mabwysiadu cyfundrefn sydd yn cyfarch y gofyn statudol yma. Mae'r hyn a argymhellir wedi ei gytuno rhwng y partneriaid fel modd o ymateb i'r gofyn heb fynd dros y trothwy i orfod creu cyfundrefnau llywodraethiant lled sylweddol all ddeillio o fodolau eraill. Deallir fod cydsyniad y Llywodraeth ar gyfer y modd yma o weithredu. Nodir fod y drefn yn cael ei gosod mewn lle ar gyfer tair blynedd.

Atodiad:

Cytundeb Partneriaeth yn rheoleiddio'r gwaith o gyfuno cyllid ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn.



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE**

DYDDIEDIG

2019

CYNGOR Bwrdeistref Sirol Conwy

a

CHYNGOR Sir Ddinbych

a

CHYNGOR Sir y Fflint

a

CHYNGOR Gwynedd

a

CHYNGOR Sir Ynys Môn

a

CHYNGOR Bwrdeistref Sirol Wrecsam

a

BWRDD IECHYD Prifysgol Betsi Cadwaladr

**CYTUNDEB PARTNERIAETH YN RHEOLEIDDIO'R GWAITH O GYFUNO CYLLID
AR GYFER SWYDDOGAETHAU LLETY CARTREFI GOFAL AR GYFER POBL HŶN**

Fel y cyfarwyddyd dan Ran 169 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a
Rhan 9 y Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth) Cysylltiedig

Cynnwys

DYDDIAD Y CYTUNDEB HWN	3
PARTÏON	3
CEFNDIR	3
1. DIFFINIAD A DEHONGLIAD	5
2. DECHRAU A HYD	7
3. YMESTYN Y CYFNOD CYCHWYNNOL	7
4. TREFNIADAU PARTNERIAETH	8
5. TALIADAU I MEWN AC ALLAN O'R GRONFA GYFUN	8
6. LLYWODRAETHU RHEOLI PARTNERIAETH	8
7. MONITRO, ADOLYGU AC ADRODD	9
8. AMRYWIADAU	9
9. DYLETSWYDDAU CYDRADDOLDEB	9
10. RHYDDID GWYBODAETH	9
11. DIOGELU DATA A RHANNU GWYBODAETH	10
12. CYFRINACHEDD	10
13. ARCHWILIO	11
14. YSWIRIANT	11
15. INDEMNIADAU	12
16. DYLEDION	12
17. DATRYS ANGHYDFOD	12
18. TERFYNU	13
19. CANLYNIADAU TERFYNU	15
20. HAWLIAU TRYDYDD PARTI	15
21. HYSBYSIAD	15

22. CYTUNDEB CYFAN	16
23. NEWIDIADAU I DDEDDFWRIAETH	16
24. CYFRAITH LYWODRAETHOL AC AWDURDODAETH	16

ATODLEN 1: TALIADAU I MEWN AC ALLAN O'R GRONFA GYFUN

PARTIÖN:

- 2.1 CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU ("CBSC")
- 2.2 CYNGOR SIR DDINBYCH, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1YN ("CSDd")
- 2.3 CYNGOR SIR Y FFLINT, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NB ("CSFf")
- 2.4 CYNGOR GWYNEDD, Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH ("CG")
- 2.5 CYNGOR SIR YNYS MÔN, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW ("CSYM")
- 2.6 CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM, Neuadd Y Dref, Wrecsam, LL11 1AY ("CBSW")
- 2.7 BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR, Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2PW ("y Bwrdd Iechyd")

CEFNDIR

Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ("y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol"), yn cynnwys CBSC, CSDd, CSFf, CG, CSYM, CBSW a'r Bwrdd Iechyd, yn unol â'r rheoliadau statudol a wnaed dan Rannau 166-169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ("y Ddeddf GCLI"). Mae'r rhain yn cynnwys 'Cyrff Partneriaeth' fel y diffiniwyd yn Rheoliad 1 o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 (fel y'i diwygiwyd) ("y Rheoliadau Partneriaeth") a wnaed o dan y Ddeddf GCLI ac maent hefyd yn rhan o'r Cytundeb hwn.

Yn unol â Rheoliad 10(c) y Rheoliadau Partneriaeth, un o amcanion y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw yr angen i 'hyrwyddo sefydlu cronfeydd cyfun lle bo hynny'n briodol'. Yn unol â Rheoliad 19(1)(a), mae gofyniad statudol ar y Cyrff Partneriaeth i sefydlu a chynnal cronfa gyfun mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau llety cartref gofal. Daeth y gofyniad statudol hwn i rym ar 6 Ebrill 2018.

Yn unol â hynny, er mwyn parhau â'u rhwymedigaethau dan Reoliad 19(1)(a) o'r Rheoliadau Partneriaeth, mae'r Partneriaid yn dymuno sefydlu cronfa gyfun fel y manylwyd yn y Cytundeb hwn. At ddibenion y Cytundeb hwn, mae CSDd wedi cytuno i weithredu fel yr Awdurdod Cynnal ar ran ei hun, CBSC, CSFf, CG, CSYM, CBSW a'r Bwrdd Iechyd.

- (A)** Mae'r Partneriaid yn ymroddedig i wella integreiddiad rhwng gwasanaethau, fel sydd wedi'i nodi yn y Cytundeb Integreiddiad, sydd yn cynnwys datblygu cronfa gyfun ar gyfer comisiynu a llety cartref gofal (preswyl a nyrsio) fel un o'r prosiectau a nodwyd, ac maent yn dymuno gwneud trefniadau dan y Cytundeb hwn.

(B) Gwneir y Cytundeb hwn dan y pwerau a nodwyd isod a'r holl bwerau galluogi eraill sydd bellach wedi eu breinio i'r Partneriaid:-

Mae Rhan 162 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn nodi bod rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng yr awdurdod lleol a phartneriaid perthnasol yr awdurdod, dylid gwneud y trefniadau gyda'r bwriad o wella lles oedolion sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr.

Mae Rhannau 166-169 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cynnwys trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol.

Mae Rheoliad 19(1) o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 (fel y'i diwygiwyd) - yn gofyn bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn sefydlu ac yn cynnal cronfa gyfun mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau llety cartref gofal.

Mae Rheoliad 19(2) o'r rheoliadau uchod yn diffinio "swyddogaethau llety cartref gofal" ac mae hynny'n cynnwys:-

- (a) Pan benderfynir diwallu anghenion yr oedolyn drwy ddarparu neu drefnu i ddarparu llety mewn cartref gofal o dan ran 35 a 36 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant;
- (b) swyddogaethau Bwrdd Iechyd Lleol dan ran 3 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 mewn perthynas ag oedolyn, mewn achosion
 - (i) pan fo gan yr oedolyn angen sylfaenol am ofal iechyd a phenderfynwyd diwallu anghenion yr oedolyn drwy drefnu darpariaeth llety mewn cartref gofal ('gofal iechyd parhaus y GIG'), neu
 - (ii) dim ond yr awdurdod lleol all ddiwallu anghenion yr oedolyn drwy drefnu i ddarparu llety, ynghyd â gofal nyrsio (Gofal Nyrsio wedi'i Ariannu').

Mae Rhan 2 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol wneud unrhyw beth y credant a fydd yn debygol o gyflawni un neu fwy o'r buddion canlynol: hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal.

Mae Rhan 111 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i awdurdod lleol gael pŵer i wneud unrhyw beth sy'n cael ei bennu i hwyluso, neu sy'n ffafriol neu'n ddamweiniol, i gyflawni ei swyddogaethau.

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf Awdurdod Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970 yn cynnwys y pŵer i fynd i gytundeb er diben unrhyw un o'r canlynol, sef, cyflenwad gan Awdurdod Lleol o nwyddau a deunyddiau, gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol, defnydd o gerbydau, peiriannau neu gyfarpar neu waith cynnal a chadw mewn cysylltiad â thir neu adeiladau.

(C) Cedwir pob Partner ei gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'i swyddogaethau llety cartref gofal.

(D) Mae pob Partner wedi sicrhau'r awdurdodiad angenrheidiol i ymrwymo i'r Cytundeb hwn yn unol â'i drefniadau llywodraethu mewnol, unigol ei hun.

TERMAU CYTUNEDIG

1. DIFFINIAD A DEHONGLIAD

1.1 Yn y Cytundeb hwn, ystyr y geiriau a'r ymadroddion canlynol yw:

Ystyr "**Cytundeb**" yw'r Cytundeb hwn a'r Atodlen sydd ynghlwm

Ystyr "**Swyddogaethau Llety Cartref Gofal**" yw'r swyddogaethau a nodir dan Reoliad 19(2) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 i'r graddau y maent yn berthnasol i oedolion 65 oed neu hŷn oni bai y nodir fel arall dan y Cytundeb hwn.

Ystyr "**Dyddiad Dechrau**" yw dyddiad y Cytundeb hwn.

Ystyr "**Gwybodaeth Gyfrinachol**" yw unrhyw wybodaeth, ddata neu ddeunydd o unrhyw natur sydd:

- a) wedi'i ddynodi'n gyfrinachol gan Bartner yn ysgrifenedig; neu
- b) byddai rhyddhau'r wybodaeth, y data neu'r deunydd yn debygol o ragfarnu buddion masnachol Partner; neu
- c) y dylid ei ystyried yn gyfrinachol (waeth sut y gaiff ei gyfleu neu ei storio)

yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r busnes, materion, eiddo, asedau, arferion masnachu, gwasanaethau, datblygiadau, cyfrinachau masnach, Hawliau Eiddo Deallusol, gwybodaeth ymarferol arbennig, personél, cwsmeriaid a chyflenwyr unrhyw un o'r Partneriaid, yr holl ddata personol a'r data personol sensitif o fewn ystyr y Ddeddf Diogelu Data 2018 (fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd), yn amodol ar y darpariaethau a nodwyd yng nghymal 12 (Cyfrinachedd) a chymal 10 (Rhyddid Gwybodaeth).

Ystyr "**Cynghorau**" yw CBSC, CSDd, CSFf, CG, CSYM a CBSW a'u holynwyr statudol.

Ystyr "**Deddfwriaeth Diogelu Data**" yw Deddf Diogelu Data 2018 a'r holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol sy'n ymwneud â phrosesu data personol a phreifatrwydd, yn cynnwys, lle bo'n berthnasol, y canllawiau a'r codau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu adran berthnasol o'r Llywodraeth mewn perthynas â deddfwriaeth o'r fath;

Ystyr "**Gweithdrefn Datrys Anghydfod**" yw'r weithdrefn a nodir yng nghymal 17.

Ystyr "**RhGA**" yw Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Ystyr "**Cyfraniadau Ariannol**" yw'r taliadau Chwarterol a wneir i'r Gronfa Gyfun gan y Partneriaid fel y diffinnir ymhellach dan gymal 2 o Atodlen 1.

Ystyr "**Blwyddyn Ariannol**" yw o 1 Ebrill i 31 Mawrth.

Ystyr "**DRhG**" yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Ddeddf honno o bryd i'w gilydd ynghyd ag unrhyw ganllawiau neu god ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu'r adran berthnasol y Llywodraeth mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth.

Ystyr y "**Bwrdd Iechyd**" yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'i olynydd statudol.

Ystyr yr “**Awdurdod Cynnal**” yw Cyngor Sir Ddinbych yn ystod y Cyfnod Cychwynnol , ac wedi hynny bydd yn golygu'r Awdurdod Cynnal fel y pennir yn unol â darpariaethau cymal 4.1.3.

Ystyr “**Gwybodaeth**” yw'r hyn a nodir dan Ran 84 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Ystyr “**Cyfnod Cychwynnol**” yw'r cyfnod sy'n cychwyn ar y Dyddiad Dechrau ac yn dod i ben wedi blwyddyn i'r Dyddiad Dechrau yn amodol ar yr hawl i ymestyn.

Ystyr “**Cytundeb Integreiddio**” yw'r cytundeb a wnaed rhwng y Partneriaid ar 17 Ionawr 2018 yn nodi sut y maent yn bwriadu gweithredu gofynion Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015.

Ystyr “**Y Gyfraith**” yw unrhyw ddeddf, statud, is-ddeddf, gorchymyn, canllawiau polisi rheoleiddiol neu god diwydiant, dyfarniad y llys, cyfarwyddbau neu ofynion unrhyw Gorff Rheoleiddio, is-ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth ddirprwyedig, neu hysbysiad unrhyw Gorff Rheoleiddio.

Ystyr “**Partner**” yw pob un o'r Cynghorau a'r Bwrdd lechyd sydd wedi'u cynnwys yn y Cyrff Partneriaeth ac sydd yn rhan o'r Cytundeb hwn a bydd y “Partneriaid” yn cael eu dehongli yn unol â hynny.

Ystyr “**Trefniadau Partneriaeth**” yw'r trefniadau a wnaed rhwng y Partneriaid dan y Cytundeb hwn fel y manylwyd yng Nghymal 4.

Mae “**Cyrff Partneriaeth**” yn cynnwys CBSC, CSDd, CSFf, CG, CSYM, CBSW a'r Bwrdd lechyd sydd yn rhan o'r Cytundeb hwn.

Ystyr “**Rheoliadau Partneriaeth**” yw'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, fel y'i diwygiwyd.

Ystyr “**Data Personol**” yw data personol fel y'i ddiffiniwyd gan Ddeddf Diogelu Data 2018.

Ystyr “**Cronfa Gyfun**” yw'r gronfa a sefydlwyd gan y Partneriaid, ac, o fewn paramedrau'r Cytundeb hwn, a weinyddwyd gan yr Awdurdod Cynnal ar ran y Partneriaid, gwneir taliadau gan y Partneriaid a'r Awdurdod Cynnal yn unol â darpariaethau'r Cytundeb hwn.

Ystyr “**Chwarter**” yw un o'r cyfnodau canlynol ym mhob Blwyddyn Ariannol:-

- (a) 1 Ebrill i 30 Mehefin (“Chwarter 1”);
- (b) 1 Gorffennaf i 30 Medi (“Chwarter 2”);
- (c) 1 Hydref i 31 Rhagfyr (“Chwarter 3”); a
- (d) 1 Ionawr i 31 Mawrth (“Chwarter 4”).

Ystyr y “**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**” neu'r “**BPRh**” yw Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn cynnwys CBSC, CSDd, CSFf, CG, CSYM, CBSW a'r Bwrdd lechyd, a sefydlwyd yn unol â Rheoliad 4 y Rheoliadau Partneriaeth, mae'r amcanion at ddibenion y Cytundeb hwn wedi'u nodi yn y rhan CEFNDIR (B) uchod.

Ystyr “**Corff Rheoleiddio**” yw'r adrannau llywodraeth hynny a'r endidau, pwyllgorau a'r cyrff rheoleiddio, statudol ac eraill sydd â hawl, boed a ydynt dan statud, rheolau, rheoliadau, codau

ymarfer neu fel arall, i reoleiddio, ymchwilio neu ddylanwadu ar y materion a ymdrinnir â hwy dan y Cytundeb hwn.

Ystyr “**Gwasanaethau**” yw'r gwasanaethau llety cartref gofal a gomisiynwyd gan Bartner mewn perthynas â Swyddogaethau Llety Cartref Gofal y Partner unigol.

Ystyr “**Cyfnod**” yw hyd y Cyfnod Cychwynnol gellir amrywio hyn drwy (i) unrhyw estyniad i'r Cytundeb hwn sydd wedi'i gytuno dan Gymal 3.1 neu (ii) derfyniad cynnar y Cytundeb hwn yn unol â'i delerau.

1.2 Ni fydd penawdau Cymalau, Atodlenni a pharagraffau yn effeithio ar ddehongliad y Cytundeb hwn.

Mae'r Atodlen yn llunio rhan o'r Cytundeb hwn a bydd mor effeithiol â phe bai wedi'i chynnwys yng nghorff y Cytundeb hwn. Mae unrhyw gyfeiriad at y Cytundeb hwn yn cynnwys yr Atodlen.

1.3 Mae geiriau unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb.

1.4 Mae cyfeiriad at un rhyw yn cynnwys cyfeiriad at rywiau eraill.

1.5 Mae cyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol yn gyfeiriad ati gan ei bod mewn grym am y tro, gan ystyried unrhyw ddiwygiad, estyniad neu ailddeddfiad ac mae hefyd yn cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed oddi tani tra ei bod mewn grym.

1.6 Mae cyfeiriad at ysgrifennu neu wedi'i ysgrifennu yn cynnwys ffacs ac e-bost ac yn cynnwys trosglwyddo gwybodaeth yn electronig.

1.7 Mae unrhyw rwymedigaeth o fewn y Cytundeb hwn ar unigolyn i beidio â gwneud unrhyw beth yn cynnwys rhwymedigaeth i beidio â chytuno neu ganiatáu i rywbeth gael ei wneud.

1.8 Mae cyfeiriad at ddogfen yn gyfeiriad at y ddogfen honno, fel yr amrywiwyd neu arall, (ym mhob achos, ar wahân i achos o dorri darpariaethau'r Cytundeb hwn) ar unrhyw adeg.

Mae cyfeiriadau at gymalau a'r Atodlen yn ymwneud â chymalau ac Atodlen y Cytundeb hwn. Mae cyfeiriadau at baragraffau yn ymwneud â pharagraffau'r atodlen berthnasol.

2. DECHRAU A HYD

2.1 Bydd y Cytundeb hwn yn dod i rym ar y Dyddiad Dechrau a bydd yn parhau am y Cyfnod, i'w adolygu ymhen blwyddyn i'r Dyddiad Dechrau neu ar ddyddiad arall os y cytunwyd arno yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn.

3. YMESTYN Y CYFNOD CYCHWYNNOL

- 3.1 Gall y Partneriaid gytuno'n unfrydol i ymestyn y Cytundeb hwn am gyfnod neu gyfnodau cytunedig o 12 mis ac ar delerau amrywiol, y tu hwnt i'r Cyfnod Cychwynnol, yn amodol ar gymeradwyaeth prosesau cymeradwyo mewnol y Partner unigol.
- 3.2 Mae'r Partneriaid yn cydnabod bod y trefniadau dan y Cytundeb hwn yn datblygu ac efallai y bydd rhaid addasu neu ddisodli'r Cytundeb hwn er mwyn adlewyrchu sut y mae'r trefniadau'n datblygu a bod y Partneriaid yn cytuno i gydweithio yn ddidwyll.

4. TREFNIADAU PARTNERIAETH

- 4.1 Mae'r Partneriaid wedi cytuno y byddant, o'r Dyddiad Dechrau, yn rhoi'r trefniadau canlynol ar waith:-
 - 4.1.1 sefydlu Cronfa Gyfun (fel y manylwyd yn y Cytundeb hwn) i'w gweinyddu gan yr Awdurdod Cynnal;

Bydd pob Partner yn cadw ei gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'i Swyddogaethau Llety Cartref Gofal. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd bob Partner yn gyfrifol am yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'i ddarpariaeth o'r Gwasanaethau a / neu unigolion a leolir gan y Partner perthnasol yn unol â'i Swyddogaethau Llety Cartref Gofal.

Bydd Cyngor Sir Ddinbych ("CSDd") yn gweithredu fel Awdurdod Cynnal yn ystod Cyfnod Cychwynnol y Cytundeb hwn. Pe bai'r Cytundeb yn cael ei ymestyn yn unol â darpariaethau cymal 3.1, bydd y Partneriaid yn penderfynu'n unfrydol, cyn diwedd y Cyfnod Cychwynnol a, lle bo'n berthnasol, unrhyw gyfnod 12 mis estynedig pellach, os yw (i) CSDd yn parhau i weithredu fel Awdurdod Cynnal dros y cyfnod estynedig dan sylw neu (ii) pa Bartner ddylai weithredu fel yr Awdurdod Cynnal newydd yn ystod y cyfnod estynedig dan sylw.
 - 4.1.2 Ni ddylai unrhyw beth yn y Cytundeb hwn ragfarnu neu effeithio ar y partneriaid wrth iddynt arfer eu swyddogaethau fel cyrff cyhoeddus neu mewn unrhyw swyddogaeth.
 - 4.1.3 Caniatâd Angenrheidiol – mae pob partner drwy hyn yn cynrychioli i'r Partneriaid eraill eu bod wedi derbyn y caniatâd angenrheidiol i sicrhau'r cyfrifoldebau a ddarperir ar eu cyfer gan y Cytundeb hwn.

5. TALIADAU I MEWN AC ALLAN O'R GRONFA GYFUN

- 5.1 Bydd y Partneriaid a'r Awdurdod Cynnal yn gwneud taliadau i mewn ac allan o'r Gronfa Gyfun yn unol â'r darpariaethau yn Atodlen 1.

6. LLYWODRAETHU RHEOLI PARTNERIAETH

- 6.1 Yn unol â'r rwymedigaethau dan Reoliad 10(c) o'r Rheoliadau Partneriaeth, bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn darparu trosolwg strategol cyffredinol o'r Trefniadau Partneriaeth dan y Cytundeb hwn.

7. MONITRO, ADOLYGU AC ADRODD

- 7.1 Bydd y Partneriaid yn cynnal adolygiad chwarterol o'r Trefniadau Partneriaeth o fewn deg diwrnod ar hugain (30) o ddiwedd pob Chwarter.
- 7.2 Bydd Swyddog Adran 151 (neu gyfwerth) yr Awdurdod Cynnal neu ei gynrychiolydd / chynrychiolydd enwebedig yn darparu (i) adroddiadau chwarterol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn amlinellu sefyllfa ariannol y Gronfa Gyfun yn ystod y Flwyddyn Ariannol dan sylw ac (ii) adroddiad alldro blynyddol er mwyn amlinellu sefyllfa ariannol y Gronfa Gyfun wedi i'r cyfrifon ariannol mewn perthynas â'r Flwyddyn Ariannol dan sylw gau.

8. AMRYWIADAU

- 8.1 Gall y Cytundeb hwn gael ei amrywio gan y Partneriaid ar unrhyw adeg, yn unol â phrosesau gwneud penderfyniadau mewnol y Partneriaid, yn amodol ar gytundeb ysgrifenedig bob un o'r Partneriaid.

9. DYLETSWYDDAU CYDRADDOLDEB

Ni fydd y Partneriaid, y gweithwyr na'r asiantwyr yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon o fewn ystyr a chwmpas unrhyw gyfraith, deddfiad, gorchymyn neu reoliad yn ymwneud â gwahaniaethu, boed hynny ar sail hil, rhyw, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu fel arall. Bydd y Partneriaid yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau y cedwir at y cymal hwn gan yr holl weithwyr, asiantwyr, cyflenwyr ac Is-Contractwr a gyflogir wrth gyflawni'r Cytundeb hwn.

10. RHYDDID GWYBODAETH

- 10.1 Mae'r Partneriaid yn cydnabod eu bod i gyd yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a byddant yn cynorthwyo a chydweithredu â'i gilydd er mwyn galluogi pob Partner i gydymffurfio â'r gofynion datgelu gwybodaeth hyn, lle bo'r angen.

11. DIOGELU DATA A RHANNU GWYBODAETH

Bydd bob Partner yn cydymffurfio ag unrhyw ofyniad hysbysu dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Bydd pob Partner yn cyflawni ei rwymedigaethau dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data sy'n codi mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn.

Bydd y Partneriaid yn rhannu gwybodaeth o ran gweithgarwch a gwariant mewn perthynas â'u Swyddogaethau Llety Cartref Gofal i wella ansawdd y gofal a hwyluso gweithio integredig yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data, y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a dyletswydd cyfrinachedd y gyfraith gyffredin ac unrhyw ddeddfwriaeth, rheoliad neu ganllaw rhannu gwybodaeth arall. Bydd y Partneriaid yn cadw at unrhyw Brotocol Rhannu Gwybodaeth a ddatblygir yn unol â Fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru wrth rannu gwybodaeth dan y Cytundeb hwn.

- 11.1 Bydd pob Partner yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar ei draul ei hun.

12. CYFRINACHEDD

- 12.1 Cytuna'r Partneriaid i gadw'r holl ddogfennau a nodir yn gyfrinachol ac sy'n ymwneud â Phartneriaid eraill neu a dderbynnir gan Partneriaid eraill dan y Cytundeb hwn, yn gyfrinachol.

- 12.1.1 Pan fo Partner yn derbyn cais i ddatgelu gwybodaeth y mae'r Partner arall wedi'i ddynodi'n gyfrinachol, rhaid i'r Partner sy'n derbyn y wybodaeth ymgynghori â'r Partner arall cyn penderfynu a yw'r wybodaeth yn destun datgeliad.

- 12.2 Ni fydd darpariaethau cymalau 12.1 a 12.2 yn berthnasol i unrhyw wybodaeth gyfrinachol y mae un Partner yn ei dderbyn gan un arall:-

- 12.2.1 sydd yn neu'n dod yn wybodaeth gyhoeddus (heblaw drwy dorri'r Cymal hwn); a oedd ym meddiant y Partner, heb gyfyngiad i'w datgelu, cyn ei derbyn gan y Partner sy'n datgelu;

- 12.2.2 sy'n cael ei derbyn gan drydydd parti sydd wedi'i derbyn yn gyfreithlon ac nad yw'n destun unrhyw ymrwymiad sy'n cyfyngu ei datgeliad.

- 12.2.3 sy'n rhaid ei datgelu yn unol ag ymrwymiad statudol, cyfreithiol neu seneddol a roddir ar y Partner sy'n gwneud y datgeliad, gan gynnwys unrhyw ofynion datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

12.3 Ni fydd unrhyw beth yn y cymal hwn yn atal yr Awdurdod Cynnal rhag datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol at ddibenion:

(i) archwilio ac ardystio unrhyw gyfraniad ariannol gan Bartner; neu

(ii) unrhyw archwiliad yn unol â chorff rheoleiddio.

(iii) i unrhyw unigolyn sy'n ymwneud â darparu unrhyw wasanaethau i'r awdurdod at unrhyw ddiben sy'n ymwneud neu sy'n ategol at y Cytundeb;

Ar yr amod drwy ddatgelu gwybodaeth o dan is-gymal bod yr Awdurdod Cynnal ddim ond yn datgelu'r wybodaeth sy'n ofynnol at y diben dan sylw ac yn ei bod yn ofynnol bod y wybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol.

13. ARCHWILIO

13.1 Bydd yr Awdurdod Cynnal yn trefnu i gyfrifon y Gronfa Gyfun gael eu harchwilio yn unol â'i ofynion archwilio statudol a bydd unrhyw gost a ysgwyddir gan yr Awdurdod Cynnal mewn cysylltiad â hynny yn cael ei rhannu'n gyfartal rhwng y Partneriaid.

13.2 Bydd y trefniadau ariannol o dan y Cytundeb hwn yn destun gofynion archwilio blynyddol arferol y Partneriaid.

Bydd y Partneriaid yn cydweithredu i ddarparu gwybodaeth, mynediad at safleoedd a staff, i sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion archwilio statudol, neu swyddogaethau monitro neu graffu eraill. Bydd y Partneriaid yn rhoi'r argymhellion sy'n codi o'r archwiliadau hyn ar waith, lle bo hynny'n briodol.

14. YSWIRIANT

Bydd y Partneriaid yn trefnu a chynnal polisi neu bolisiâu yswiriant, gan sicrhau bod y polisi'n ddigonol i warchod yn erbyn dyledion sy'n codi dan unrhyw indemniad yn y Cytundeb hwn. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd y gofyniad hwn yn angenrheidiol os oes gan bartner drefniadau hunan yswiriant eisoes mewn lle.

14.1 Heb ragfarnu ar gyffredinolrwydd cymal 14.1, bydd yr Awdurdod Cynnal yn trefnu a chynnal yswiriant indemniad proffesiynol a gwarant ffyddlondeb priodol mewn perthynas â gweithrediad penodol y Gronfa Gyfun.

15. INDEMNIADAU

15.1 Bydd pob Partner (Partner Indemnio) yn indemnio y Partneriaid eraill (Partner / Partneriaid wedi'u hindemnio) yn erbyn yr holl weithrediadau, trafodion, costau, hawliadau, gorchmynion, dyledion, colledion a threuliau, boed rheiny o ganlyniad i gyfraith camweddu (yn cynnwys esgelustod), methiant neu doriad i'r Cytundeb hwn, i'r graddau bod unrhyw golled neu hawliad oherwydd esgelustod bwriadol, methiant bwriadol neu dwyll o'i hun, gweithwyr y Partner sy'n Indemnio, neu unrhyw un o'i gynrychiolwyr neu is-gontractwyr, oni bai i'r graddau bod y golled neu'r hawl yn cael eu achosi'n uniongyrchol neu'n codi'n uniongyrchol o ganlyniad i'r esgelustod, torri'r Cytundeb hwn neu Ddeddf berthnasol gan y Partner wedi'i Indemnio neu ei gynrychiolwyr.

16. DYLEDION

- 16.1 Oni bai os darperir fel arall, bydd rhaid i'r Partneriaid ysgwyddo eu costau a'u treuliau eu hunain wrth gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn.
- 16.2 Bydd pob Partner yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddyledion a ddatblygir oherwydd ei weithrediadau ei hun neu weithrediadau ei weithwyr.

17. DATRYS ANGHYDFOD

- 17.1 Os bydd anghydfod rhwng Partneriaid mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer CBSC, CSDd, CSFf, CG, CSYM, CBSW a'r Prif Swyddog Gweithredu ar gyfer y Bwrdd Iechyd (neu ddeiliad swydd cyfwerth) a fydd yn ymdrechu i ddatrys yr anghydfod.
- 17.2 Os na fydd yr anghydfod yn cael ei ddatrys ar ôl dilyn y weithdrefn yng Nghymal 17.1, bydd y mater yn cael ei gyfeirio, yn ysgrifenedig, gan unrhyw Bartner neu Bartneriaid at Brif Weithredwyr (neu gyfwerth) y Partneriaid a fydd yn ymdrechu i ddatrys yr anghydfod rhyngddynt.
- 17.3 Os nad yw'r Prif Weithredwyr yn llwyddo i ddatrys yr anghydfod o fewn ugain (20) diwrnod gwaith i'r diwrnod y cafodd yr anghydfod ei gyfeirio atynt, bydd yr anghydfod yn cael ei gyfeirio at gamau cyfryngu yn unol â'r weithdrefn a nodir yng nghymal 17.5.
- 17.4 Ni fydd perfformiad y Cytundeb yn cael ei wahardd, ei atal na'i oedi yn dilyn atgyfeiriad anghydfod at gamau cyfryngu a bydd y Partneriaid yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion y Cytundeb ar bob adeg.

17.5 Mae'r weithdrefn ar gyfer cyfryngu a darpariaethau canlyniadol yn ymwneud â chyfryngu fel a ganlyn:

- (i) Bydd ymgynghorydd diduedd neu gyfryngwr ("y Cyfryngwr") yn cael ei ddewis drwy gytundeb rhwng y Partneriaid, neu, os nad ydynt yn gallu cytuno ar Gyfryngwr o fewn 10 diwrnod gwaith wedi cais gan un Partner i'r Partneriaid eraill neu os yw'r Cyfryngwr y cytunwyd arno yn methu neu'n anfodlon gweithredu, gall unrhyw un o'r Partneriaid, o fewn 10 diwrnod gwaith o ddyddiad y cynnig i benodi Cyfryngwr neu o fewn 10 diwrnod gwaith o'r hysbysiad i Partneriaid eraill ei fod yn methu neu'n anfodlon gweithredu, wneud cais at y Ganolfan ar gyfer Datrys Anghydfod yn Effeithiol i benodi Cyfryngwr.

Bydd y Partneriaid o fewn 10 diwrnod gwaith i benodi'r Cyfryngwr, yn cwrdd ag ef i gytuno ar raglen i gyfnewid yr holl wybodaeth berthnasol a'r strwythur y dylid ei fabwysiadu er mwyn cynnal trafodaethau. Os ystyrir hyn yn briodol, gall y Partneriaid, ar unrhyw adeg, geisio cymorth gan y Ganolfan i ddarparu canllaw ar weithdrefn addas.

- (ii) Oni bai y cytunir fel arall, bydd yr holl drafodaethau yn gysylltiedig â'r anghydfod ac unrhyw gytundeb setlo sy'n ymwneud ag ef, yn cael eu cynnal yn gyfrinachol a heb ragfarnu ar hawliau'r Partneriaid mewn trafodion yn y dyfodol.
- (iii) Os yw'r Partneriaid yn llwyddo i ddod i gytundeb a datrys yr anghydfod, bydd y cytundeb yn cael ei nodi'n ysgrifenedig a bydd yn rhwymo'r Partneriaid wedi iddo gael ei lofnodi gan eu cynrychiolwyr awdurdodedig.

Os nad ydynt yn llwyddo i ddod i gytundeb, gall unrhyw un o'r Partneriaid ofyn i'r Cyfryngwr gynnig barn anrhwymol ond gwybodus yn ysgrifenedig. Bydd barn o'r fath yn cael ei darparu heb ragfarnu ac ni ddylid defnyddio'r farn honno fel tystiolaeth yn ystod trafodion yn ymwneud â'r Cytundeb, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Partneriaid.

- (iv) Os nad yw'r Partneriaid yn llwyddo i ddod i gytundeb yn ystod y trafodaethau strwythuredig o fewn 60 diwrnod gwaith i'r dyddiad y penodwyd y Cyfryngwr, neu gyfod hirach os y cytunwyd hynny gan y Partneriaid, yna bydd unrhyw anghydfod neu wahaniaeth rhyngddynt yn cael ei atgyfeirio at y Llysoedd.

18. TERFYNU

- 18.1 Mae gofyn i'r Partneriaid weithredu cronfa gyfun yn unol â'r rhwymedigaeth statudol a nodir yn Rheoliad 19(1)(a) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 (fel y'i diwygiwyd).

18.2 Pan fo Partner (“y Partner sy’n Methu”):-

18.2.1 yn torri unrhyw un o’i rwymedigaethau yn sylweddol o dan y Cytundeb hwn ac nid yw’n gallu gwella’r sefyllfa: neu

yn torri unrhyw un o’i rwymedigaethau yn sylweddol o dan y Cytundeb hwn ond mae modd ei wella ond nid yw hyn wedi’i wneud o fewn dau ddeg wyth (28) diwrnod i’r dyddiad y derbyniwyd yr hysbysiad ysgrifenedig gan un neu fwy o’r Partneriaid sydd wedi llwyddo i gadw at eu rhwymedigaethau ac nid oes cronfa gyfun arall wedi’i chytuno arni ymysg y Partneriaid, gall un neu fwy o’r Partneriaid derfynu’r Cytundeb hwn drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o saith (7) niwrnod.

18.3 Os caiff y Cytundeb hwn ei derfynu gan unrhyw un o’r Partneriaid sydd wedi llwyddo i gadw at eu rhwymedigaethau, yn unol â Chymal 18.2, bydd y costau a achosir i’r Partneriaid hynny yn cael eu talu gan y Partner sy’n Methu a bydd y Partner sy’n Methu yn indemnio y Partneriaid sy’n llwyddo i gadw at eu rhwymedigaethau yn erbyn y colledion neu’r costau y maent yn eu wynebu o ganlyniad i derfyniad.

18.4 Gall unrhyw Partner (“y Partner Terfynu”) derfynu’r Cytundeb hwn ar unrhyw adeg drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o dri (3) mis, i’r Partneriaid eraill i’r graddau y mae’n ymwneud â’r Partner Terfynu os yw:-

(i) O ganlyniad i unrhyw newid o ran y gyfraith neu ddeddfwriaeth, yn methu cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn:

(ii) Byddai cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn yn torri unrhyw ganllaw arall a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru neu Llywodraeth y DU wedi i’r Cytundeb hwn ddod i rym; neu

Byddai cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn y tu hwnt i’w bwerau; AC nid yw’r Partneriaid yn gallu cytuno ar addasiad neu amrywiad i’r Cytundeb er mwyn galluogi’r Partner Terfynu i wella unrhyw amgylchiadau a nodir yn 18.4 (a) i 18.4 (c).

Bydd unrhyw ddyled sy’n codi o ganlyniad uniongyrchol i derfynu o dan y Cymal 18.4 yn cael ei rhannu’n gyfartal rhwng y Partneriaid.

18.5 Pe bai’r Cytundeb hwn yn cael ei ddisodli gan y Partneriaid yn mynd i gytundeb newydd mewn perthynas â’r rhwymedigaeth statudol, y cyfeirir ati yng nghymal 18.1 (fel y gellir ei ddiwygio) a/ neu drefniadau cydweithio mewn perthynas â’u Swyddogaethau Llety Cartref Gofal, bydd y Cytundeb hwn yn dod i ben ar ôl dyddiad dechrau y cytundeb newydd.

18.6 Mae’r Partneriaid yn cydnabod ac yn cytuno os yw Partner / Partneriaid yn ystyried arfer hawl i derfynu o dan y Cytundeb hwn (a chyn arfer hawl o’r fath) bydd y Partneriaid yn sicrhau fod pob dewis arall wedi’i ystyried er mwyn gwella’r sefyllfa a / neu gynnal y Gronfa Gyfun, yn cynnwys hawl i Partner nad yw’n ddiffygiol i gyfeirio’r mater at Weinidog Cymru i’w ystyried.

19. CANLYNIADAU TERFYNU

- 19.1 Os daw'r Cytundeb i ben yn unol â chymal 18 (Terfynu), ar wahân i Gymal 10 (Deddf Rhyddid Gwybodaeth), Cymal 12 (Cyfrinachedd), Cymal 16 (Atebolrwyddau), a Chymal 19 (Canlyniadau Terfynu) bydd y Partneriaid yn cael eu rhyddhau o'u Rhwymedigaethau yn y Cytundeb hwn, ar wahân i os oes unrhyw arian i'w dalu i'r Gronfa Gyfun, neu yn achos yr Awdurdod Cynnal i'w talu allan o'r Gronfa Gyfun.

20. HAWLIAU TRYDYDD PARTI

- 20.1 Ni fwriedir i delerau'r Cytundeb hwn roi mantais i unrhyw unigolyn nac i unrhyw unigolyn, nad yw'n rhan o'r Cytundeb allu ei orfodi.

21. HYSBYSIADAU

- 21.1 Gwneir unrhyw hysbysiad neu ohebiaeth yn ysgrifenedig ac yn gyfeiriedig at Brif Swyddog Gweithredol y Partner.
- 21.2 Pennir bod unrhyw hysbysiad neu ohebiaeth a anfonir gan Bartner wedi'i wneud yn effeithiol os caiff ei anfon â phost dosbarth cyntaf neu ei gludo â llaw i'r derbynydd â'r cyfeiriad a nodir isod neu dderbynydd a chyfeiriad arall yn ysgrifenedig o bryd i'w gilydd gan Bartner i'r Partneriaid eraill:-

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU

Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1YN

Cyngor Sir Y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NB

Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Neuadd Y Dref, Wrecsam, LL11 1AY

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2PW

- 21.3 Pennir bod hysbysiadau â chyfeiriadau cywir, a anfonir â phost dosbarth cyntaf, wedi'u derbyn pedwar deg wyth (48) awr ar ôl eu postio.

22. CYTUNDEB CYFAN

- 22.2 Gellir gweithredu'r Cytundeb mewn gwrthannau, a phan fo un gwrthran yn cael ei chyflawni bydd yn gyfwerth â'r gwreiddiol ond bydd pob gwrthran â'i gilydd yn golygu cyfrwng yr un fath.

23. NEWIDIADAU I DDEDDFWRIAETH

- 23.1 Bydd y Partneriaid yn adolygu gweithrediad y Trefniadau Partneriaeth dan y Cytundeb hwn a phob un neu unrhyw weithdrefn neu ofyniad o'r Cytundeb hwn sy'n ymwneud â deddfwriaeth neu ganllaw statudol neu arall yn dod i rym sy'n effeithio ar Drefniadau Partneriaeth i sicrhau bod y Trefniadau Partneriaeth yn cydymffurfio â deddfwriaeth neu ganllawiau o'r fath.

24. CYFRAITH LYWODRAETHOL AC AWDURDODAETH

Bydd y Cytundeb hwn ac unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n codi o dano neu mewn cysylltiad ag ef neu ei bwnc yn cael ei lywodraethu gan, a'i ddehongli yn unol â Chyfraith Cymru a Lloegr.

Eitem 11

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod y Cabinet

Dyddiad y cyfarfod: 17 Medi 2019
Adroddiad gan: Dilwyn Williams, Prif Weithredwr
Teitl yr Eitem: Adolygiad Rheolaethol

Penderfyniad a geisir

Peidio a llenwi swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol sy'n wag er mwyn arbrofi i weld a ellir gwneud hebddi.

Cefndir

1. Ym mis Mai eleni bu i mi gyflwyno adroddiad i'r Cabinet ar drefniadau rheolaethol y Cyngor lle bu i mi argymhell lleihau nifer yr Uwch Reolwyr o fewn y Cyngor.
2. Gydag un addasiad fe gytunodd y Cabinet i'r adroddiad hwnnw.
3. Yn yr un adroddiad, yn ogystal â herio faint o benaethiaid/penaethiaid cynorthwyol sydd eu hangen i redeg y Cyngor, bu i mi nodi bod gofyn i ni hefyd ystyried a ydym angen dau gyfarwyddwr yn ogystal â Phrif Weithredwr.
4. Nodais mai'r unig ffordd i weld a ellir gwneud gyda llai byddai ceisio gwneud hynny, ond rhybuddiais hefyd bod yna lai o dystiolaeth y byddem yn gallu gwneud gyda llai ar yr haen yma.
5. Byddai'r gost o ddiswyddo er mwyn arbrofi hefyd yn anferthol, a hynny heb unrhyw sicrwydd y gellid gwneud hefo un yn llai, gyda'r risg byddai angen ail lenwi'r swydd maes o law. Byddai hynny yn wastraff adnodd.
6. Awgrymais felly na ddylid lleihau'r nifer Cyfarwyddwyr ar y pwynt hwnnw gan ystyried y sefyllfa ymhellach pe cyfyd sefyllfa yn y dyfodol lle gellid arbrofi heb gostau diswyddo.
7. Gan fod un swydd Cyfarwyddwr bellach yn wag, mae hyn yn rhoi cyfle i ni weld a allwn wneud heb y swydd honno.

8. 'Rwyf wedi trafod y mater gyda'r Gyfarwyddwraig sydd ar ôl, ac er bod gennym ein dau bryderon am y risgiau i'r tymor canolig, 'rydym yn llwyr gytûn y dylem arbrofi o leiaf.
9. Argymhellaf felly nad ydym yn llenwi swydd y Cyfarwyddwr ar hyn o bryd er mwyn arbrofi i weld a allwn wneud heb y swydd.
10. Byddai hyn yn golygu y byddai angen ail ddyrannu'r swyddogaethau oedd yn disgyn ar y swydd yma arnaf innau a'r Gyfarwyddwraig.
11. Gan fod y Cyfarwyddwr wedi bod yn gweithio ar y Cynllun Twf ers cryn amser bellach, mae yna elfen sylweddol o'i waith eisoes wedi cael ei ysgwyddo gennym, ond fe fydd yna elfen o hyd y bydd angen dygymod ag ef.
12. Pwysleisir nad yw'r adroddiad yma yn argymhell dileu'r swydd ar hyn o bryd, gan nad oes gennym ddigon o dystiolaeth i brofi y gallwn wneud hebdi, ond os yw'r arbrawf yn llwyddiant byddai hynny yn opsiwn i'r dyfodol.

Sylwadau'r Swyddogion Statudol:-

Swyddog Monitro

"Mae'r adroddiad yn nodi yn glir yr hyn a drafodwyd yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Mai, ac yn y sefyllfa yma ystyrir yr argymhelliad o fewn yr adroddiad yn rhesymol. Fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad, bydd angen eglurder o ran ble mae cyfrifoldebau'r swydd wag yn eistedd yn ystod y cyfnod yr arbrawf. Dim sylwadau pellach o ochr priodoldeb."

Pennaeth Cyllid

"Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod 23 Gorffennaf y Cabinet yn ystyried sut ydym am ddygymod gyda sefyllfa ariannol 2020/21, yng nghyd-destun setliadau grant oddi wrth Lywodraeth Cymru sy'n annigonol i gwrdd â chwyddiant. Cadarnhawyd rydym yn cynllunio ar gyfer bwlch ariannol rhwng £2m a £7m, ac rydym eisoes wedi gofyn i adrannau ddarganfod eu cyfran nhw o'r isafswm arbedion.

Yng nghyd-destun y sefyllfa heriol rydym yn cynllunio ar ei gyfer, mae'n rhesymegol i gynnal arbrawf i sicrhau tystiolaeth os gallwn wneud gyda llai ar yr haen yma. Felly, rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir."